



Arolwg Llais y Dysgwr 2008 mewn Ysgolion



Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 046/2009
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2009

Arolwg Llais y Dysgwr 2008 mewn Ysgolion

| | |
|-------------------------------|---|
| Cynulleidfa | Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Nghymru. |
| Trosolwg | Mae dogfen strategaeth yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, yn nodi y bydd APADGOS yn "...ystyried... beth yw'r dull gorau o fonitro sylwadau barn y myfyrwyr yn rheolaidd a chyhoeddi'r canlyniadau". Yn dilyn ymgynghoriad â darparwyr, penderfynwyd cynnal arolwg Llais y Dysgwr ym mhob rhan o ddarpariaeth APADGOS. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu canfyddiadau'r arolwg i ganfod barn dysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 a myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth. |
| Camau i'w cymryd | Dim - er gwybodaeth. |
| Rhagor o wybodaeth | Julie Owens Uwch Ddadansoddwr Ymchwil Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso Yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth, APADGOS Llywodraeth Cynulliad Cymru Uned 6, Parc Busnes Llanelwy Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0LJ Ffôn: 01745 538540 Ffacs: 01745 538501 E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk |
| Copiau ychwanegol | Mae'r rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/customer-research |
| Dogfennau cysylltiedig | Dim |

1. Crynodeb

Cynhaliwyd Arolwg Llais y Dysgwr i Ysgolion 2008 fel rhan o Raglen Ymchwil i Gwsmeriaid 2007-2010 APADGOS. Yn ystod cam cychwynnol y rhaglen, pwysleisiodd llawer o arweinwyr polisi fod angen ystyried barn dysgwyr fel rhan o'r broses o asesu gwelliant ac effeithiolrwydd ysgol. Nod yr arolwg hwn oedd:

rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am foddhad dysgwyr a mesurau

- cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion (Blwyddyn 12 a 13)
- gosod mesur sylfaenol ar gyfer boddhad dysgwyr a phynciau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11, gan gyfeirio'n benodol at agenda Llwybrau Dysgu 14-19.

Rhodddwyd holiaduron papur ar wahân i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a Blwyddyn 12 a 13 i'w cwblhau. Y meysydd pwnc bras a gwmpaswyd yn y ddau holiadur oedd: dewis; ansawdd yr addysgu; llwybrau dysgu; boddhad â'r addysgu a boddhad â'r profiad dysgu. Cafwyd ymatebion gan 2,018 o fyfyrwyr o Blwyddyn 10 ac 11, a 1,783 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13.

2. Cyflwyniad a methodoleg

2.1 Cefndir

Mae dogfen strategaeth yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn nodi y bydd APADGOS yn "...ystyried...beth yw'r dull gorau o fonitro barn y myfyrwyr yn rheolaidd a chyhoeddi'r canlyniadau".

Yn dilyn ymgynghoriad â darparwyr, penderfynwyd cynnal arolwg Llais y Dysgwr ym mhob rhan o ddarpariaeth APADGOS. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu canfyddiadau'r arolwg i ganfod barn dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth. Cynhyrchwyd adroddiad tebyg yn 2004 gan ELWA ond roedd hwn yn canolbwyntio ar fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn y chweched dosbarth yn unig.

Yn 2004, datblygodd yr hyn a ddechreuodd fel astudiaeth gwmpasu i archwilio opsiynau ar gyfer casglu safbwyntiau myfyrwyr chweched dosbarth yn brosiect llawer mwy ac yn y pen draw yn arolwg o 5,717 o fyfyrwyr chweched dosbarth ledled Cymru. Holiadur papur i'w lenwi eu hunain oedd y dull a ddefnyddiwyd, a sefydlwyd yr arolwg hwn fel llinell sylfaen dangosol ar gyfer mesur boddhad ymysg myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yng Nghymru. Cafwyd dymuniad yn y Cynulliad i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar lefelau boddhad ymysg dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ac i bennu llinell sylfaen newydd ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, yn enwedig mewn perthynas â safbwyntiau ar y dewisiadau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn ystod cyfnod Llwybrau Dysgu 14-19¹. I'r perwyl hwn nodau Arolwg Llais y Dysgwr i Ysgolion 2008 oedd²:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am foddhad dysgwyr a mesurau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth mewn ysgolion (Blynnyddoedd 12 a Blwyddyn 13)
- pennu mesur llinell sylfaen ar gyfer boddhad a phynciau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - yn arbennig, i archwilio safbwyntiau ar y dewisiadau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn ystod cyfnod Llwybrau Dysgu 14-19

¹http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/learning_pathways/?lang=cy

²Un o elfennau ychwanegol y prosiect oedd archwilio'r dull o gasglu data ar-lein mewn un ysgol i asesu sut y mae'r data terfynol yn cymharu â'r data a gasglwyd ar bapur fel y gellir amcangyfrif ffactor cywiro. Cyflwynwyd hyn mewn adroddiad ar wahân i APADGOS.

- sicrhau bod cymaint o fyfyrwyr â phosibl yn cymryd rhan drwy ddarparu fersiynau hawdd eu darllen o ddeunyddiau papur ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau dysgu

2.2 Methodoleg

Mae'r adran hon yn crynhoi'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer yr arolwg. Darperir adroddiad technegol llawn yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

2.2.1 Trosolwg

Penderfynwyd gofyn i'r myfyrwyr gwblhau'r holiaduron ar bapur, a lluniwyd dau holiadur 4 tudalen - un ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ac un ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Cafodd yr ymatebwyr gyfle i gwblhau'r holiadur yn Gymraeg neu yn Saesneg (roedd yr holiaduron terfynol yn wyth tudalen o hyd). Roedd y dull hwn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn 2004.

Roedd yr holiadur ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 wedi'i seilio'r fras ar yr holiadur a ddefnyddiwyd yn 2004 er mwyn sicrhau y gellid cymharu'r canlyniadau. Er bod yr holiadur ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn canolbwyntio ar faterion tebyg (yn bennaf mesurau allweddol fel cwestiynau ynghylch boddhad cyffredinol) roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â dewisiadau ac opsiynau yn ystod y cyfnod Llwybrau Dysgu 14-19.

Roedd y ddau holiadur ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen a'r ysgolion eu hunain oedd yn gyfrifol am benderfynu a oedd angen fersiynau hawdd eu darllen o'r holiaduron ar eu myfyrwyr. Ychydig iawn o holiaduron hawdd eu darllen a gwblhawyd (11 ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a saith ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13).

Treialwyd yr holiaduron er mwyn asesu pa mor hawdd y gellid eu gweinyddu a lefel dealltwriaeth y myfyrwyr. Gwnaed gwaith maes rhwng 5^{ed} Mawrth a 23^{ain} Ebrill 2008 (gyda'r ysgolion ar gau dros wyliau'r Pasg rhwng 21^{ain} Mawrth a 6^{ed} Ebrill). Gwahoddiwyd ysgolion dethol i ddsbarthu holiaduron i ddau grŵp tiwtor, ym Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 neu ym Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 (mae rhai ysgolion yn ymddangos yn y ddwy sampl). Yna dychwelwyd yr holiaduron i GfK NOP i'w sganio ac i brosesu'r data.

Gwahoddiwyd sampl (yn hytrach na chyfrifiad) o ysgolion i gymryd rhan yn yr arolwg a dewiswyd y sampl hon er mwyn cyflawni nifer o feini prawf dadansoddol ac ymarferol, sef:

- rhanbarth - pedair rhanbarth wedi'u diffinio yn ôl AALI (Gogledd Cymru, De Orllewin/Canolbarth Cymru, De Cymru, De Ddwyrain Cymru)
- ysgolion cyfrwng Cymraeg yn erbyn ysgolion cyfrwng Saesneg

- canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- dangosydd natur wledig (trefol yn erbyn gwledig)
- maint yr ysgol (nifer y disgyblion).

Cytunwyd ar y meini prawf cyffredinol canlynol ar gyfer yr astudiaeth gydag APADGOS:

| Grŵp blwyddyn | Ysgolion prif ffrwd | Ysgolion arbennig | Unedau cyfeirio disgyblion | Ysgolion annibynnol |
|---------------|---------------------|-------------------|----------------------------|---------------------|
| Blwyddyn 10 | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Blwyddyn 11 | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Blwyddyn 12 | ✓ | ✓ | x | x |
| Blwyddyn 13 | ✓ | ✓ | x | x |

Noder: Ni chafodd myfyrwyr Blwyddyn 14/18 oed eu cynnwys yn yr astudiaeth. Er bod gan rai Unedau Cyfeirio Disgyblion fyfyrwyr 16 oed a throsgodd, roedd y niferoedd fesul Uned Cyfeirio Disgyblion yn rhy fach i fod yn ymarferol ar gyfer samplo. Gan nad yw APADGOS yn ariannu'r sector ysgolion annibynnol nac yn dylanwadu arno, ni chafodd y rhan hon o'r astudiaeth ar gyfer ysgolion ei chynnwys.

Mae'r ymateb i'r arolwg fel a ganlyn:

- cytunodd 46 y cant o'r ysgolion a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymchwil i gymryd rhan yn yr amser a neilltuwyd (34 o'r 74 a wahoddwyd)
- casglwyd cyfanswm o 2094 o holiaduron ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a chasglwyd 1782 o holiaduron ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13.

Pwysolwyd y data i'r boblogaeth o fyfyrwyr a ddarparwyd i GfK NOP. Roedd y ffaith na allai rhai ysgolion gymryd rhan yn golygu bod angen i rai newidynnau gael pwysoliad uwch neu is nag eraill. Oherwydd ein bod yn dibynnu ar ba ysgolion fyddai'n helpu neu a allai helpu yn y prosiect hwn, nid oedd natur wledig yn cael ei gynrychioli cystal ag y gallai fod ar gyfer rhai rhanbarthau. Felly nid yw'r dadansoddiad rhanbarthol wedi'i amlygu yn yr adroddiad hwn (rhoddir mwy o fanylion yn yr atodiad technegol).

2.2.2 Proffil y sampl

Mae'r paragraffau canlynol yn dangos proffil y sampl wedi'i bwysoli fel y rhoddir cyddestun y casgliadau yn yr adroddiad.

Demograffeg bersonol (rhyw, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac anableddau)

Ar ôl pwysoli, roedd cyfanswm proffil yr ymatebwyr yn yr arolwg fel a ganlyn (ar adegau nid yw'r ffigurau yn gwneud cyfanswm o 100% gan fod rhai pobl wedi 'peidio â nodi'):

- mae'r rhaniad rhwng bechgyn a merched ar gyfer ymatebwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn 49% yn erbyn 47% ac yn 45% yn erbyn 51% ar gyfer ymatebwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Os caiff y canrannau eu hailgyfrifo heb yr opsiwn 'peidio â nodi' mae'r sampl yn adlewyrchu'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer rhyw (gweler yr atodiad technegol).
- o ran ethnigrwydd, roedd cymhareb yr ymatebwyr gwyn i ymatebwyr duon a lleiafrifoedd ethnig yn 87% o gymharu â 10% yn y grŵp Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ac 86% yn erbyn 10% ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Roedd newidynnau eraill yn gysylltiedig ag ethnigrwydd:
 - roedd nifer sylweddol fwy o fyfyrwyr duon a lleiafrifoedd ethnig yng ngharfan Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 mewn ysgolion lle roedd 15% neu fwy o'r myfyrwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
 - nid oedd y cysylltiad rhwng ethnigrwydd a hawl i gael prydau ysgol am ddim yn arwyddocaol yng ngharfan Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11
 - ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11, roedd gan dair ysgol gyfran o ymatebwyr o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a oedd 3 phwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd
 - eto, ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13, roedd gan yr un dair ysgol gyfran o ymatebwyr o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a oedd 3 phwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd
- roedd canran y dysgwyr ag anableddau dysgu yn 7% ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ac yn 5% ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13
- ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 dywedodd 4% fod ganddynt anabledd cyfyngus hirdymor a dywedodd 2% yng ngharfan Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yr un peth

- ar gyfanswm lefel roedd 17% yn cael cymorth ychwanegol gyda'u gwaith yn yr ystafell ddosbarth ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a dywedodd 9% yr un peth o Flwyddyn 12 a Blwyddyn 13.

Demograffeg ysgol (maint ysgol, maint dosbarth, prydau ysgol am ddim, cyfrwng)

Ar lefel gyffredinol:

- yn y grŵp Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 roedd 51% o fyfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan 15% neu fwy yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd 25% mewn ysgolion lle roedd hawl gan 10% i 15% o'r disgyblion a 24% mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% ohonynt yr un hawl
- yn y grŵp Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 roedd 41% o fyfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan 15% neu fwy yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd 18% mewn ysgolion lle roedd hawl gan 10% i 15% o'r disgyblion a 41% mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r disgyblion yr un hawl
- ym Mlwyddyn 10 ac 11 roedd 16% o'r ymatebwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 roedd yn 19%.

3. Astudiaeth Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn adolygu profiadau a chanfyddiadau cyflawni a gofnodwyd gan garfan Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi gan gyfres o newidynnau yn ymwneud â demograffeg bersonol, opsiynau a ddewiswyd, lefelau boddhad a chymhelliant ac yn olaf demograffeg ysgolion (cyfrwng yr ysgol, maint y grŵp ysgol a'r ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim). O ran y cynnwys, cwmpasodd yr holiadur ar gyfer y grwpiau blynyddoedd hyn yr agweddau canlynol ar y profiad:

- Dewis a chyfle: rhesymau dros ddewis y pynciau/cymwysterau ac ai'r cyrsiau a astudiwyd ar y pryd oedd y rhai yr oedd y myfyrwyr am eu gwneud fwyaf.
- Cymhelliant a'r problemau a gafwyd: lefelau cymhelliant cyffredinol ac unrhyw broblemau a gafwyd ym Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.
- Boddhad â'r addysgu: boddhad ag agweddau ar addysgu a hefyd boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu.
- Mesurau i ystyried boddhad cyffredinol â'r profiad: cytuno â rhestr o ddatganiadau sy'n ymwneud â diogelwch, cynnwys y dysgwr a meithrin y dysgwr a boddhad cyffredinol hefyd â'r dysgu yn yr ysgol (gan gynnwys 'un peth roeddwn i'n ei hoffi orau' ac 'un peth roeddwn i am ei newid').

3.2 Dewis a chyfleoedd

3.2.1 Rhesymau dros ddewis pynciau/cymwysterau


Gofynnwyd i bob myfyrwyr am eu rhesymau dros ddewis eu pynciau a'u cymwysterau cyfredol. Cynigiwyd rhestr o atebion posibl iddynt a gallent ddewis cymaint neu gyn lleied ag y dymument, yn ogystal â chofnodi unrhyw atebion eraill nad oeddent eisoes ar y rhestr.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (85%) eu bod yn mwynhau'r pynciau roeddent yn eu hastudio. Roedd ychydig o dan hanner (43%) yn credu bod angen y pynciau neu'r cymwysterau arnynt ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud tra roedd un o bob pump (21%) yn dweud bod angen y pynciau arnynt i symud ymlaen i Flwyddyn 12 neu'r coleg.

Roedd traean o'r myfyrwyr (33%) wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau cyfredol yn dilyn cyngor gan eu rhieni tra roedd chwarter ohonynt (23%) wedi eu dewis yn dilyn cyngor gan athro neu aelod o staff yr ysgol. Roedd un o bob deg myfyriwr (12%) wedi cael sesiwn ragflas ym Mlwyddyn 9 a oedd wedi dylanwadu ar ei ddewis.

Ymhlith y rhesymau eraill a roddwyd gan y myfyrwyr dros ddewis eu pynciau (y soniwyd am bob un gan 8% o'r myfyrwyr) roedd y ffaith bod eu ffrindiau wedi dewis yr un pynciau, mai'r pynciau hyn oedd y rhai hawsaf iddynt a'u bod wedi cael cyngor gan gynghorydd Gyrfa Cymru.

Siart 3.1: Rhesymau dros ddewis pynciau a chymwysterau (% yn ateb): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094). Dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y siart.

Datgelodd dadansoddiad pellach yn seiliedig ar ddemograffeg bersonol myfyrwyr y gwahaniaethau canlynol mewn rhesymau dros ddewis eu pynciau a'u cymwysterau ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11:

- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o fod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am y rhesymau canlynol:

- cyngor rhieni (37% o fyfyrwyr sy'n ferched o gymharu â 31% o fyfyrwyr sy'n fechgyn)
- cyngor athrawon / cyngor aelod arall o staff yr ysgol (26% o gymharu ag 20%)
- mae angen y pynciau hyn arnynt i fynd i Flwyddyn 12 neu i'r coleg (24% o gymharu â 18%).
- I'r gwrthwyneb, roedd bechgyn yn fwy tebygol o roi'r rheswm mai'r rhain oedd y pynciau hawsaf (11% o gymharu â 6% o'r myfyrwyr oedd yn ferched).
- Credai tua hanner y myfyrwyr Blwyddyn 10 (51%) eu bod angen y pynciau a'r cymwysterau a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud. Rhoddwyd yr un rheswm gan tua phedwar o bob deg myfyriwr ym Mlwyddyn 11 (36%). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr Blwyddyn 11 yn fwy tebygol na myfyrwyr Blwyddyn 10 o fod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau yn seiliedig ar y rhesymau canlynol:
 - cyngor athrawon / cyngor aelod arall o staff yr ysgol (25% o gymharu â 21% o fyfyrwyr Blwyddyn 10)
 - mae angen y pynciau hyn arnynt i fynd i Flwyddyn 12 neu i'r coleg (24% o gymharu ag 18% o fyfyrwyr Blwyddyn 10).
- Nododd nifer sylweddol fwy o fyfyrwyr a gafodd gymorth dysgu ychwanegol eu bod angen y pynciau a'r cymwysterau a ddewiswyd ganddynt er mwyn mynd i Flwyddyn 12 neu i'r coleg (27% o gymharu ag 20% o fyfyrwyr na chawsant gymorth ychwanegol).

Tabl 3.1: Pam y dewiswyd y pynciau a'r cymwysterau yn ôl rhyw, blwyddyn a chymorth dysgu ychwanegol

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|--|----------|-------|-------|-------------|-------------|--------------------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 1026 | 997 | 292 | 1693 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 1029 | 989 | 998 | 1020 | 347 | 1637 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Rwy'n mwynhau'r pynciau hyn | 85 | 85 | 88 | 86 | 86 | 90 | 86 |
| Mae eu hangen arnaf i wneud y swydd rwyf am ei gwneud | 43 | 42 | 45 | 51 | 36 | 44 | 43 |
| Cyngor rhieni | 33 | 31 | 37 | 35 | 32 | 29 | 34 |
| Cyngor athrawon / cyngor aelod arall o staff yr ysgol | 23 | 20 | 26 | 21 | 25 | 27 | 22 |
| Mae angen y pynciau hyn arnaf i fynd i Flwyddyn 12 neu goleg | 21 | 18 | 24 | 18 | 24 | 27 | 20 |
| Sesiynau rhagflas ym Mlwyddyn 9 | 12 | 11 | 14 | 14 | 12 | 14 | 12 |
| Roedd ffrindiau yn astudio'r un pynciau | 8 | 9 | 8 | 8 | 9 | 9 | 8 |
| Rhain oedd y pynciau hawsaf i mi | 8 | 11 | 6 | 9 | 8 | 7 | 9 |
| Cynghorydd Gyrfa Cymru | 8 | 7 | 9 | 7 | 8 | 5 | 8 |
| Cynghorydd arall y tu allan i'r ysgol | 3 | 3 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Heb ei nodi | 2 | 1 | * | 1 | * | * | 1 |

Noder: Dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl.

Ymddengys fod perthynas rhwng y math o gymhwyster a'r cymhelliant dros ei ddewis (gweler tabl 1, Atodiad B), yn benodol:

- Nodwyd cymwysterau oedd yn angenrheidiol ar gyfer swydd yr oeddent am ei gwneud gan gyfrannau is o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU (43% o gymharu ag o leiaf 54% sy'n mynychu'r holl fathau eraill o gyrsiau).
- Nodwyd cyngor gan yr athro gan lai o fyfyrwyr oedd yn astudio NVQs (19%) a TGAU (23%). Mae hyn yn cymharu â rhwng un rhan o dair a hanner y myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau Sgiliau Sylfaenol (46%), Bagloriaeth Cymru (36%), cymwysterau Sgiliau Allweddol (32%), cymwysterau galwedigaethol (32%) neu gymwysterau eraill (51%) a oedd wedi dewis pynciau a chymwysterau yn seiliedig ar gyngor athro neu aelod o staff yr ysgol.

Roedd myfyrwyr a ddangosodd lefelau uwch o gymhelliant a boddhad â'r addysgu yn fwy tebygol o roi rhesymau penodol dros ddewis eu pynciau na'u cymheiriaid yr oedd ganddynt lai o gymhelliant neu foddhad, fel a ganlyn:

- Roedd myfyrwyr a oedd yn fwy bodlon ag ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am eu bod yn mwynhau'r pynciau hynny (89% a oedd yn fodlon o gymharu â 67% o fyfyrwyr nad oeddent yn fodlon).
 - Roedd y myfyrwyr hyn hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cael cyngor gan athro neu aelod arall o staff na'r myfyrwyr hynny nad oeddent yn fodlon (25% o gymharu ag 14%).
- Roedd myfyrwyr oedd â llawer o gymhelliant neu a oedd yn hynod fodlon â'u hastudiaethau yn fwy tebygol o fod wedi dilyn cyngor eu rhieni na'r rheini nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant neu nad oeddent yn fodlon.
- Yn yr un modd, roedd myfyrwyr oedd â llawer o gymhelliant neu rywfaint o gymhelliant o ran eu hastudiaethau hefyd wedi dewis pynciau am eu bod yn eu mwynhau (92% ac 88% yn y drefn honno, o gymharu ag 81% nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant a 75% nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl).
- Yn ogystal, roedd bron i chwech o bob deg (55%) disgybl oedd â llawer o gymhelliant wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud (o gymharu â 43% o'r myfyrwyr yn gyffredinol).
- I'r gwrthwyneb, dim ond un rhan o dair o'r disgyblion nad oeddent yn fodlon ag ansawdd yr addysgu (32%) oedd wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud.

Roedd myfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi dewis eu pynciau am mai'r rheini oedd y pynciau hawsaf iddynt hwy (tabl 2, Atodiad B).

Pan ddadansoddwyd y data yn ôl y newidynnau a oedd yn ymwneud â demograffeg yr ysgol, gwelwyd y gwahaniaethau canlynol dros y rhesymau a roddwyd dros ddewis pynciau a chymwysterau:

- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o fod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am y rhesymau canlynol:
 - roeddent yn angenrheidiol ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud (44% o gymharu â 33% o fyfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg)
 - o ganlyniad i gyngor neu ddylanwad Cynghorydd Gyfra Cymru (8% o gymharu â 5%).
- Roedd y myfyrwyr yn yr ysgolion lle roedd llai na 10% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau am eu bod wedi eu mwynhau (89% o gymharu ag 85% o fyfyrwyr yn gyffredinol)

Tabl 3.2: Pam y dewiswyd y pynciau a'r cymwysterau yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | | Cyfrwng iaith | | % â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|--|----------|---------------|---------|--------------------------------------|--------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15% a throsodd | 10-15% | Llai na 10% |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Cyfanswm | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 365 | 1729 | 693 | 614 | 787 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 334 | 1760 | 1059 | 534 | 501 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Rwy'n mwynhau'r pynciau hyn | 85 | 88 | 85 | 84 | 83 | 89 |
| Mae eu hangen arnaf i wneud y swydd rwyf ei heisiau | 43 | 33 | 44 | 44 | 42 | 39 |
| Cyngor rhieni | 33 | 33 | 33 | 32 | 31 | 38 |
| Cyngor yr athrawon / cyngor aelod arall o staff yr ysgol | 23 | 19 | 24 | 24 | 23 | 20 |
| Mae angen y pynciau hyn arnaf i fynd i Flwyddyn 12 neu goleg | 21 | 18 | 21 | 23 | 19 | 18 |
| Sesiynau rhagflas ym Mlwyddyn 9 | 12 | 12 | 12 | 12 | 10 | 16 |
| Roedd ffrindiau yn astudio'r un pynciau | 8 | 9 | 8 | 9 | 4 | 11 |
| Rhain oedd y pynciau hawsaf i mi | 8 | 10 | 8 | 7 | 9 | 11 |

| | | | | | | |
|---------------------------------------|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Gyrfa Cymru | 8 | 5 | 8 | 7 | 9 | 7 |
| Cynghorydd arall y tu allan i'r ysgol | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Heb ei nodi | 2 | 2 | 1 | 1 | 4 | 1 |

Noder: Dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl.


3.2.2 Dewis cyntaf o ran pynciau / cymwysterau

Gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr p'un ai'r pynciau a'r cymwysterau roeddent yn eu hastudio oedd y rhai roeddent am eu gwneud fwyaf a chawsant yr opsiwn o ddewis un ateb o'r canlynol:

- ie, fy newis cyntaf
- na, nid fy newis cyntaf
- nid oedd gen i ddewis
- ni feddyliais am opsiynau eraill.

Fel y nodwyd gan Siart 3.2, roedd tua wyth o bob deg myfyriwr (81%) yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau, a nododd 12% nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf. Dim ond 4% oedd heb feddwl am opsiwn arall, ac nid oedd 1% wedi cael dewis.

Siart 3.2: A oedd pynciau a chymwysterau'n ddewis cyntaf: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

Ni ddangosodd dadansoddiad yn ôl is-grwpiau o fewn y data unrhyw wahaniaeth mewn ymateb yn ôl rhyw neu anabledd dysgu ond amlygwyd y canlynol:

- Roedd myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai tebygol o fod yn astudio eu dewisiadau cyntaf o bynciau a chymwysterau na myfyrwyr gwyn (73% o gymharu ag 84%).
- Roedd myfyrwyr Blwyddyn 11 yn fwy tebygol o fod yn astudio eu dewisiadau cyntaf o bynciau a chymwysterau na'u cymheiriaid ym Mlwyddyn 10 (86% o gymharu ag 80%).

Tabl 3.3: A oedd pynciau a chymwysterau'n ddewis cyntaf yn ôl blwyddyn ac ethnigrwydd

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Cyfanswm | Blwyddyn | | Ethnigrwydd | |
|---|----------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| | | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Gwyn | Ddim yn wyn |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 1026 | 997 | 1844 | 175 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 1819 | 201 |
| | % | % | % | % | % |
| Ie, fy newis cyntaf | 81 | 80 | 86 | 84 | 73 |
| Na, nid fy newis cyntaf | 12 | 14 | 10 | 12 | 18 |
| Nid oedd gen i ddewis | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Ni feddyliais am opsiynau eraill | 4 | 5 | 2 | 3 | 8 |
| Heb ei nodi | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |

Ceir cysylltiad agos rhwng gallu astudio cwrs a oedd yn ddewis cyntaf a boddhad a chymhelliant (tabl 3, Atodiad B):

- Roedd bron pob un (94%) o'r rheini a oedd yn hynod fodlon ag ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn astudio eu dewis cyntaf o gymharu â 64% o'r rheini a oedd yn anfodlon i ryw raddau.
- Roedd bron pob un (94%) o'r rheini oedd â llawer o gymhelliant yn astudio eu dewis cyntaf o gymharu ag 81% yn gyffredinol.
- Nid oedd un o bob ugain o fyfyrwyr nad oeddent yn credu eu bod yn meddu ar gymhelliant (5%) yn teimlo eu bod wedi cael cyfle o gymharu ag 1% o fyfyrwyr yn gyffredinol.

Er nad oedd gwahaniaethau mawr yn amlwg yn ôl cyfran y disgyblion oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim neu p'un a oedd yr ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, roedd y myfyrwyr a oedd yn mynychu ysgolion mwy mewn sefyllfa well i allu astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau:

- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion gyda 401 neu fwy o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn fwy tebygol o fod yn astudio eu dewisiadau cyntaf na'r rheini mewn ysgolion gyda 400 neu lai o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 (rhoddodd 85% neu fwy o fyfyrwyr yr ateb hwn o gymharu ag 80% neu lai mewn ysgolion gyda llai o fyfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11).
 - Myfyrwyr mewn ysgolion gyda llai na 200 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 oedd fwyaf tebygol o nodi **nad** oeddent yn astudio eu dewisiadau cyntaf (20% o gymharu â 12% ar gyfartaledd).
 - Hwyl oedd hefyd fwyaf tebygol o nodi nad oeddent wedi cael dewis (3% o gymharu ag 1% yn gyffredinol).

Tabl 3.4: A oedd pynciau a chymwysterau'n ddewis cyntaf yn ôl maint grŵp y flwyddyn

| | | Nifer y myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | |
|---|----------|---------------------------------------|---------|---------|---------|------|
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Cyfanswm | hyd at 200 | 201-301 | 301-400 | 401-500 | 501+ |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 249 | 203 | 798 | 362 | 482 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 146 | 437 | 614 | 598 | 299 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Ie, fy newis cyntaf | 81 | 75 | 76 | 80 | 85 | 87 |
| Na, nid fy newis cyntaf | 12 | 20 | 13 | 14 | 9 | 10 |
| Nid oedd gen i ddewis | 1 | 3 | 1 | 1 | 1 | * |
| Ni feddyliais am opsiynau eraill | 4 | 1 | 9 | 2 | 3 | 2 |
| Heb ei nodi | 2 | 1 | 2 | 3 | 2 | 1 |

Noder: mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

3.2.3 Rhesymau dros beidio ag astudio'r pynciau a'r cymwysterau a oedd yn ddewis cyntaf

Gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr a oedd wedi ymateb nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau ar hyn o bryd pam oedd hynny. Cynigiwyd rhestr o atebion posibl iddynt a gallent ddewis cymaint neu gyn lleied ag y dymunent, yn ogystal â chofnodi unrhyw atebion eraill nad oeddent eisoes ar y rhestr.


Mae'r data yn dangos bod problem gyda'r cyflenwad o lefydd ar gyrsiau a'r galw am y llefydd hynny. Ni allai bron i un rhan o dair o fyfyrwyr (31%) nad oeddent yn astudio'r pynciau a'r cymwysterau a oedd yn ddewis cyntaf wneud hynny gan nad oedd eu hysgol neu ysgolion lleol eraill yn cynnig eu cymwysterau neu bynciau dewisol. Ni allai cyfran debyg ddilyn eu dewis cyntaf am fod y lleoedd yn eu dewis cyntaf wedi'u llenwi (30%) neu nad oedd y cymwysterau neu'r pynciau yn cyd-fynd â'u hamserlen (30% hefyd). Roedd tua un o bob chwe myfyriwr nad oeddent yn astudio'r pynciau neu'r cymwysterau a oedd yn ddewis cyntaf wedi cael eu cynghori i beidio â chymryd eu dewis cyntaf gan athro (16%); roedd y meintiau sylfaen yn rhy fach i ddangos arwyddocâd ond mae'r data'n awgrymu mai disgyblion oedd â lefelau is o foddhad gyda'u haddysg a'r profiad yn gyffredinol a roddodd yr ymateb hwn o gymharu â'r rheini oedd â lefelau uwch o foddhad.

3.3 Cymhelliant/problemau

3.3.1 Lefelau Cymhelliant Cyffredinol

Roedd gan fyfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 lawer o gymhelliant gyda bron i dri chwarter y myfyrwyr yn dweud bod ganddynt rywffaint neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau (73%). Roedd gan y mwyafrif o'r myfyrwyr hyn rywffaint o gymhelliant (61%) a disgrifiodd tua un o bob 10 myfyriwr fod ganddynt lawer o gymhelliant (12%). Er gwaethaf hyn, dywedodd cyfran fach ond arwyddocaol o fyfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant (20%) ond dim ond 2% a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl.

Siart 3.3: Lefel cymhelliant: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y lefelau cymhelliant yn ôl rhyw, oedran neu anabledd dysgu. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr oedd â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn llai tebygol o gael rhywfaint neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau (59%) na'r rhai nad oedd ganddynt salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor (75%).

O ran y grŵp blwyddyn, roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 11, y gallent fod yn sefyll arholiadau terfynol ac yn nesáu at ddiwedd eu haddysg orfodol ymhen ychydig fisoedd, yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lawer o gymhelliant na'r rheini ym Mlwyddyn 10 (14% ym Mlwyddyn 11 oedd â llawer o gymhelliant o gymharu â 10% ym Mlwyddyn 10). Fodd bynnag, dywedodd cyfran debyg o'r rheini ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 bod ganddynt rhywfaint o gymhelliant (63% o'r rheini ym Mlwyddyn 10 a 61% o'r rheini ym Mlwyddyn 11).

Tabl 3.5: Lefel cymhelliant yn ôl blwyddyn ac anabledd cyfyngus hirdymor

| | Cyfanswm | Blwyddyn | | Anabledd cyfyngus hirdymor | |
|---|----------|-------------|-------------|----------------------------|---------|
| | | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Oes | Nac oes |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 1026 | 997 | 88 | 1917 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 88 | 1913 |
| | % | % | % | % | % |
| Llawer o gymhelliant | 12 | 10 | 14 | 7 | 12 |
| Rhywfaint o gymhelliant | 61 | 63 | 61 | 52 | 63 |
| Dim llawer o gymhelliant | 18 | 18 | 19 | 31 | 18 |
| Dim cymhelliant o gwbl | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Ansicr | 4 | 5 | 2 | 6 | 3 |
| Heb ei nodi | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Llawer/ Rhywfaint o gymhelliant | 73 | 73 | 76 | 59 | 75 |
| Dim llawer o gymhelliant/dim cymhelliant o gwbl | 20 | 20 | 21 | 32 | 20 |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Mae'n ddiddorol nodi bod myfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt llawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau na'r cyfartaledd (20% o gymharu â 12% ar gyfartaledd, fel y dangosir yn nhabl 4, Atodiad B).

Roedd cyberthynas arwyddocaol rhwng p'un a oedd myfyrwyr wedi gallu astudio eu dewis cyntaf o gwrs a'u boddhad gyda'r profiad dysgu â lefel eu cymhelliant (tabl 5, Atodiad B):

- Dywedodd bron wyth o bob deg (76%) myfyriwr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs fod ganddynt llawer neu rywffaint o gymhelliant yn eu hastudiaethau o gymharu â 63% nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs.
- I'r gwrthwyneb, disgrifiodd dros chwarter (26%) y rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs nad oedd ganddynt llawer o gymhelliant neu nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl. Mae hyn yn cymharu â llai nag un rhan o bump (19%) o'r rheini a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs.

- Dywedodd 97% o'r myfyrwyr a oedd yn hynod fodlon ac 88% o'r rheini a oedd yn fodlon iawn â'u profiad dysgu bod ganddynt lawer neu rywfaint o gymhelliant o gymharu â thua un rhan o dair (30%) o'r rheini oedd yn anfodlon.

Er nad oedd unrhyw dueddiadau arwyddocaol yn ôl maint y grŵp blwyddyn a'r hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lawer neu rywfaint o gymhelliant yn eu hastudiaethau (83%) na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (71%).

Tabl 3.6: Lefel cymhelliant yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | |
|---|----------|---------------|---------|
| | | Cymraeg | Saesneg |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 365 | 1729 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 334 | 1760 |
| | % | % | % |
| Llawer o gymhelliant | 12 | 17 | 11 |
| Rhywfaint o gymhelliant | 61 | 66 | 61 |
| Dim llawer o gymhelliant | 18 | 12 | 19 |
| Dim cymhelliant o gwbl | 2 | 1 | 2 |
| Ansicr | 4 | 1 | 4 |
| Heb ei nodi | 3 | 3 | 3 |
| Llawer/ Rhywfaint o gymhelliant | 73 | 83 | 71 |
| Dim llawer o gymhelliant/dim cymhelliant o gwbl | 20 | 13 | 21 |

3.3.2 Problemau a gafwyd

Dywedodd bron i chwarter y myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau'r flwyddyn ysgol bresennol (22%). O ran y myfyrwyr a oedd wedi cael problemau, nodwyd tair prif broblem, sef:

- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (nodwyd gan 29% o'r holl fyfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (28%)
- problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill (27%).

Dwy broblem arall a nodwyd yn aml gan fyfyrwyr oedd:

- cynnal eu cymhelliant personol (22%)
- cymorth ychwanegol a addawyd iddynt heb ei ddarparu (10%).

Gyda'i gilydd y rhain oedd y pum problem a nodwyd amlaf ymysg myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a chânt eu harchwilio'n fanylach yng ngweddill yr adran hon.

Wrth chwilio am wahaniaethau yn ôl rhyw, roedd myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol na myfyrwyr gwrywaidd o ddweud eu bod wedi cael y ddwy broblem yn eu hastudiaethau a gyda myfyrwyr eraill. Yn fwy penodol roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- problemau'n ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (roedd 34% o ferched wedi profi hyn o gymharu â 23% o fechgyn)
- problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill (31% o ferched o gymharu â 23% o fechgyn yn y drefn honno)

Mewn perthynas â'r flwyddyn academiaidd, roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael trafferth cynnal eu cymhelliant personol (27%) na'r rheini ym Mlwyddyn 10 (18%). Mae hyn braidd yn wrthwynebol gan fod adran 3.3.1 yn nodi bod gan lawer mwy o fyfyrwyr Blwyddyn 11 lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau o gymharu â myfyrwyr Blwyddyn 10. Gallai hyn awgrymu er bod y lefelau cymhelliant yn uchel ar gyfer Blwyddyn 11, bod rhai ohonynt yn cael trafferth cynnal y lefelau hynny.

Roedd myfyrwyr Blwyddyn 11 hefyd bron ddwywaith mor debygol â myfyrwyr Blwyddyn 10 o ddweud na chawsant yr help ychwanegol a addawyd iddynt (12% o'r rheini ym Mlwyddyn 11 o gymharu â dim ond 7% ym Mlwyddyn 10). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (30% o gymharu â 25% o fyfyrwyr Blwyddyn 11).

Roedd myfyrwyr â salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor yn fwy tebygol na'r rheini heb salwch neu anabledd o'r fath o ddweud eu bod wedi profi'r pum problem a nodwyd amlaf ers dechrau'r flwyddyn ysgol, sef:

- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (roedd 40% o'r rheini sydd â salwch cyfyngus hirdymor wedi profi hyn o gymharu â 28% o'r rheini heb salwch o'r fath)
- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (40% o gymharu â 28% yn y drefn honno)

- problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill (55% o gymharu â 26%)
- cynnal eu cymhelliant personol (40% o gymharu â 22%)
- cymorth ychwanegol a addawyd iddynt heb ei ddarparu (22% o gymharu â 9%).

Roedd tueddiad tebyg hefyd yn amlwg ar gyfer myfyrwyr sydd ag anabledd dysgu. Er nad oedd y gyfran a nododd broblemau gydag aelod o staff a chynnal eu cymhelliant personol yn wahanol i'w cymheiriaid heb anableddau dysgu, roeddent yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael problemau yn ymdopi â'r safon neu'r gwaith, problemau gyda myfyrwyr eraill a chael cymorth ychwanegol a addawyd iddynt. Dangosir y ffigurau yn nhabl 3.7

Ymysg y myfyrwyr a oedd yn cael cymorth dysgu ychwanegol, dywedodd mwy nag un rhan o dair (37%) eu bod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill. I'r gwrthwyneb, roedd chwarter (25%) o'r rheini na chawsant gymorth dysgu ychwanegol wedi profi hyn.

Ni welwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol yn ôl cefndir ethnig ar gyfer y cwestiwn hwn.

Tabl 3.7: Problemau a gafwyd yn ôl rhyw, blwyddyn, anabledd cyfyngus hirdymor, anabledd dysgu a chymorth dysgu ychwanegol

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Anabledd cyfyngus hirdymor | | Anabledd dysgu | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|--|----------|-------|-------|-------------|-------------|----------------------------|---------|----------------|---------|--------------------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Oes oes | Nac oes | Oes oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 1026 | 997 | 88 | 1917 | 152 | 1849 | 292 | 1693 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 1029 | 989 | 989 | 1020 | 88 | 1913 | 140 | 1857 | 347 | 1637 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 29 | 23 | 34 | 31 | 27 | 40 | 28 | 41 | 28 | 33 | 27 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelodau eraill o staff | 28 | 29 | 27 | 28 | 29 | 40 | 28 | 34 | 28 | 25 | 29 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 27 | 23 | 31 | 30 | 25 | 55 | 26 | 41 | 26 | 37 | 25 |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 22 | 21 | 25 | 18 | 27 | 40 | 22 | 24 | 23 | 24 | 23 |

| | | | | | | | | | | | |
|--|----|----|----|----|----|----|----|----|----|----|----|
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 10 | 10 | 9 | 7 | 12 | 22 | 9 | 20 | 9 | 13 | 9 |
| Dim problemau / na / dim | 22 | 22 | 22 | 23 | 21 | 12 | 23 | 11 | 23 | 16 | 23 |
| Heb ei nodi | 10 | 11 | 7 | 8 | 10 | 4 | 9 | 9 | 9 | 7 | 9 |

Noder: dangosir y pum problem fwyaf yn y tabl. Mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100; dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

O ran cymwysterau, roedd myfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer NVQ neu gymhwyster galwedigaethol arall yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn wedi cael trafferth yn ymdopi gyda safon y gwaith sydd ei angen (39% i'r ddau) o gymharu â myfyrwyr a oedd yn astudio TGAU (29%) (tabl 6, Atodiad B). Canfuwyd hefyd bod myfyrwyr a oedd yn astudio cymwysterau sgiliau allweddol (37%), cymwysterau sgiliau sylfaenol (41%) a chymwysterau galwedigaethol eraill (36%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill na'r rhai oedd yn astudio ar gyfer eu TGAU (27%).

Roedd cydberthynas glir rhwng p'un a oedd myfyriwr yn astudio ei ddewis cyntaf o bwnc a'i debygolrwydd o gael problemau penodol (tabl 7, Atodiad B). Roedd y rheini a ddywedodd nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs yn fwy tebygol na'r rheini a oedd yn gwneud hynny o fod wedi cael:

- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (37% o'r rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs o gymharu â 27% o'r rheini a oedd yn gwneud hynny)
- problemau yn ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (37% o gymharu â 26% yn y drefn honno)
- cymorth ychwanegol a addawyd iddynt heb ei ddarparu (15% o gymharu â 9%).

Yn ogystal, roedd cysylltiad clir rhwng lefelau cymhelliant myfyrwyr a'r tebygolrwydd y byddant yn cael problemau penodol. Roedd y rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant neu nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael yr anawsterau canlynol na'r rheini oedd â llawer o gymhelliant:

- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (43% o'r rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant a 42% o'r rheini nad oedd ganddynt gymhelliant o gwbl o gymharu ag 14% o'r rheini oedd â llawer o gymhelliant)
- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (39% a 53% o gymharu ag 14% yn y drefn honno)

- problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill (39% a 48% o gymharu â 27% yn y drefn honno)
- cynnal eu cymhelliant personol (47% a 60% o gymharu â 12% yn y drefn honno).

Gwelwyd patrwm tebyg hefyd mewn perthynas â lefelau boddhad â'r profiad dysgu. Roedd myfyrwyr a oedd yn weddol anfodlon neu'n anfodlon iawn â'u profiad dysgu yn llawer mwy tebygol o fod wedi profi'r pum problem fwyaf cyffredin a nodwyd o gymharu â'r rheini a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn. Dangosir y ffigurau yn nhabl 8, Atodiad B.

Wrth edrych ar ddemograffeg yn ôl y math o ysgol, roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o fod wedi cael y problemau canlynol:

- problemau gydag aelodau o staff (30% o gymharu â 19% o fyfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg)
- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (30% o gymharu â 23% yn y drefn honno)
- problemau gyda myfyrwyr eraill (28% o gymharu â 20%)
- problemau cynnal eu cymhelliant personol (24% a 12% yn y drefn honno)

Dywedodd bron i dri o bob deg myfyriwr (27%) mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r myfyrwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol. I'r gwrthwyneb, dim ond dau o bob deg myfyriwr (20%) mewn ysgolion lle roedd gan 10% neu fwy o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim oedd heb gael unrhyw broblemau. Yn benodol, roedd cyfran lai o fyfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (22% o gymharu â 28% o fyfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan fwy na 10% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim).

Bydd rhyw fath o gysylltiad rhwng y canfyddiadau uchod. Roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cyfrwng Saesneg o fod â llai na 10% o fyfyrwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Tabl 3.8: Problemau a gafwyd yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|--|----------|---------------|---------|---|----------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15% a throsodd | 10% -15% | Llai na 10% |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 365 | 1729 | 693 | 614 | 787 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 334 | 1760 | 1059 | 534 | 501 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 29 | 23 | 30 | 28 | 30 | 28 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelodau eraill o staff | 28 | 19 | 30 | 30 | 28 | 25 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 27 | 20 | 28 | 28 | 30 | 22 |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 22 | 12 | 24 | 23 | 23 | 21 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 10 | 7 | 10 | 9 | 13 | 7 |
| Dim problemau / na / dim | 22 | 33 | 19 | 21 | 18 | 27 |
| Heb ei nodi | 10 | 14 | 10 | 9 | 13 | 11 |

Noder: dangosir y pum problem fwyaf yn y tabl.

Roedd myfyrwyr mewn ysgolion gyda nifer uwch o fyfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael trafferth cynnal eu cymhelliant personol (o gymharu â'r rheini mewn ysgolion gyda llai o fyfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11). Roedd bron i chwarter (25%) y myfyrwyr mewn ysgolion â 301 neu fwy o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 wedi profi hyn o gymharu â dim ond 15% o'r rheini mewn ysgolion gyda 300 o ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 neu lai.

O ran cynlluniau myfyrwyr ar gyfer diwedd Blwyddyn 11, roedd y rheini a oedd yn bwriadu mynd i mewn i Flwyddyn 12 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o beidio â chael unrhyw broblemau (29% o gymharu â 22% o fyfyrwyr ar gyfartaledd).

Tabl 3.9: Problemau a gafwyd yn ôl maint y grŵp blwyddyn

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | Cyfanswm | Nifer y myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | |
|--|----------|---------------------------------------|---------|---------|---------|------|
| | | hyd at 200 | 201-300 | 301-400 | 401-500 | 501+ |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 249 | 203 | 798 | 362 | 482 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 146 | 437 | 614 | 598 | 299 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 29 | 28 | 28 | 28 | 32 | 25 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelodau eraill o staff | 28 | 25 | 25 | 29 | 30 | 29 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 27 | 26 | 19 | 29 | 30 | 26 |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 22 | 18 | 14 | 26 | 23 | 27 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 10 | 8 | 7 | 11 | 11 | 9 |
| Dim problemau / na / dim | 22 | 23 | 23 | 20 | 20 | 24 |
| Heb ei nodi | 10 | 12 | 12 | 10 | 9 | 10 |


Noder: dangosir y pum problem fwyaf yn y tabl.

3.4 Bwriadau yn y dyfodol

3.4.1 Bwriadau yn y dyfodol

Gofynnwyd i bob myfyriwr beth roedd yn bwriadu ei wneud ar ddiwedd Blwyddyn 11 a rhoddwyd sawl dewis o opsiynau iddynt. Nododd tua chwech o bob deg (59%) eu bod am fynd i'r coleg. Nodwyd yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd, sef mynd i'r chweched dosbarth yn yr ysgol, gan nifer llawer llai o fyfyrwyr (31%). Nododd un rhan o bump (22%) y byddent yn chwilio am waith rhan amser (yn aml ar y cyd ag astudiaethau pellach) a nododd tua un o bob deg swydd gyda Phrentisiaeth Fodern (13%).

Siart 3.4: Bwriadau yn y dyfodol (% yn nodi): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei Phwysoli (2094) Wedi ei Phwysoli Dangosir y tri bwriad mwyaf poblogaidd yn y siart. Ni ddangosir heb ei nodi.

Roedd nifer o wahaniaethau arwyddocaol a diddorol yn y data pan gafodd ei dadansoddi yn ôl amrywiadau gwahanol. Er mwyn gallu cyflwyno adroddiadau yn haws, mae'r paragraffau isod yn defnyddio'r categorïau canlynol sydd wedi cyfuno'r data o ymatebion gwahanol i'r cwestiwn hwn. Y categorïau hyn yw; chweched dosbarth/coleg, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd, cael swydd ac ansicr.

O ran demograffeg bersonol dangosodd y grwpiau canlynol fwy o ddiddordeb mewn mynd i chweched dosbarth/coleg yn hytrach na dilyn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd:

- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o fod wedi nodi chweched dosbarth/coleg (92% o gymharu ag 81%). Roedd bechgyn ar y llaw arall yn llawer mwy tebygol o nodi hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith (21% o gymharu â 10%).
- Roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 yn fwy tebygol o nodi chweched dosbarth/coleg na myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 (89% o gymharu ag 84%). Roedd myfyrwyr Blwyddyn 10 (34%) yn fwy tebygol o nodi y byddent yn cael swydd na myfyrwyr Blwyddyn 11 (20%). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr Blwyddyn 10 hefyd yn fwy tebygol o fod yn ansicr ynghylch eu cynlluniau (22% o gymharu â 10% o fyfyrwyr Blwyddyn 11).
- Roedd myfyrwyr yr oedd eu dosbarthiadau yn cael eu haddysgu ar un safle yn fwy tebygol o nodi chweched dosbarth/coleg na'r rheini oedd yn astudio rhai dosbarthiadau oddi ar y safle (89% o gymharu â 69%). I'r gwrthwyneb

roedd y rheini a oedd yn cael rhai gwersi oddi ar y safle yn fwy tebygol o nodi hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd a allai adlewyrchu'r mathau o gyrsiau oedd yn cael eu hastudio (28% o gymharu ag 14% oedd yn cael gwersi ar yr un safle).

- Roedd y rheini oedd yn astudio TGAU hefyd yn fwy tebygol o nodi chweched dosbarth/coleg na'r rheini oedd yn astudio NVQs (85% o gymharu â 73%). I'r gwrthwyneb roedd y rheini a oedd yn astudio NVQs yn fwy tebygol o ddewis hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd (34%) na'r rheini a oedd yn astudio ar gyfer eu TGAU (15%). Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau sgiliau sylfaenol yn llawer mwy tebygol o fod yn ansicr am eu cynlluniau ar ddiwedd blwyddyn 11 (42% o gymharu â 15% o fyfyrwyr yn gyffredinol).
- Roedd myfyrwyr heb anableddau dysgu yn fwy tebygol o fod yn bwriadu mynd i chweched dosbarth/coleg na'r rheini sydd ag anableddau dysgu (87% o gymharu â 77%), ond roedd myfyrwyr ag anableddau dysgu yn llawer mwy tebygol o ddewis yr opsiynau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd (24% o gymharu â 15% o fyfyrwyr heb anableddau dysgu).

Tabl 3.10: Bwriadau yn y dyfodol yn ôl rhyw, blwyddyn ac anabledd dysgu

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Anabledd dysgu | |
|---|----------|-------|-------|-------------|-------------|----------------|---------|
| | | Gwryw | Benyw | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Oes | Nac oes |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 ac 11 | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 1026 | 997 | 152 | 1849 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 1029 | 989 | 998 | 1020 | 140 | 1857 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Coleg/chweched dosbarth mewn ysgol | 84 | 81 | 92 | 84 | 89 | 77 | 87 |
| Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd | 15 | 21 | 10 | 17 | 14 | 24 | 15 |
| Cael swydd (dim sôn am hyfforddiant) | 26 | 26 | 29 | 34 | 20 | 32 | 27 |
| Ansicr | 15 | 17 | 15 | 22 | 10 | 17 | 16 |

Noder: dangosir y tri bwriad uchaf yn y tabl. Ni ddangosir heb ei nodi.

Yn olaf, gwelwyd cysylltiad rhwng y lefelau cymhelliant a boddhad a'r tebygolrwydd y byddant yn mynd i'r coleg/chweched dosbarth (tabl 9, Atodiad B). Dywedodd y mwyafrif helaeth (93%) o'r rheini oedd â llawer o gymhelliant eu bod

yn bwriadu mynd i'r coleg/chweched dosbarth o gymharu â 75% nad oedd ganddynt unrhyw gymhellant o gwbl pan gynhaliwyd yr arolwg. O ran boddhad cyffredinol, dywedodd 92% o'r rheini a oedd yn hynod fodlon y byddent yn mynd i'r coleg/chweched dosbarth o gymharu â 78% o'r rheini a oedd yn anfodlon i ryw raddau. Mae hyn yn dangos os nad yw eu profiad addysgol yn eu hysgogi ar yr adeg hon y bydd dysgwyr yn dueddol o chwilio am opsiynau eraill yn hytrach nag aros ym myd addysg ar gyfer y dyfodol.

- Roedd cyfran llawer llai o fyfyrwyr yn y mathau canlynol o ysgolion yn bwriadu cael swydd ar ddiwedd Blwyddyn 11
 - Ysgolion gyda llai na 200 o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 10/11 (13% o gymharu â 26% o fyfyrwyr mewn ysgolion o bob math)
 - Ysgolion cyfrwng Cymraeg (9% o gymharu â'r cyfartaledd o 26% ar draws yr holl ysgolion)

Tabl 3.11: Bwriadau yn y dyfodol yn ôl cyfrwng, maint yr ysgol a hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | | Maint yr ysgol | | | | |
|---|----------|---------------|---------|---|-----------|-------------|----------------|---------|---------|---------|------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15% a throsodd | 10% - 15% | Llai na 10% | Hyd at 200 | 201-300 | 301-400 | 401-500 | 501+ |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Cyfanswm | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 365 | 1729 | 693 | 614 | 787 | 249 | 203 | 798 | 362 | 482 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 334 | 1760 | 1059 | 534 | 501 | 146 | 437 | 614 | 598 | 299 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Coleg/chweched dosbarth mewn ysgol | 84 | 85 | 84 | 83 | 83 | 87 | 88 | 81 | 83 | 85 | 88 |
| Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd | 15 | 9 | 16 | 19 | 14 | 9 | 11 | 11 | 20 | 16 | 9 |
| Cael swydd (dim sôn am hyfforddiant) | 26 | 9 | 30 | 33 | 23 | 16 | 13 | 27 | 27 | 30 | 24 |
| Ansicr | 15 | 14 | 16 | 15 | 14 | 18 | 16 | 14 | 17 | 14 | 16 |

Noder: dangosir y tri bwriad uchaf yn y tabl.

3.5 Boddhad â'r addysgu

3.5.1 Boddhad ag agweddau penodol ar addysgu


Gofynnwyd i'r myfyrwyr raddio eu boddhad gydag amrywiaeth o agweddau ar addysgu. Roedd y mesurau hyn yn adlewyrchu arddulliau addysgu, cymhelliant ymrwymiad a mesurau mwy ymarferol sy'n ymwneud â rheoli gwaith dysgu fel adborth ac ansawdd deunyddiau addysgu. Rhoddir rhestr lawn isod:

- y gallu i egluro'r pwnc
- gwranddo ar eich anghenion
- gwneud defnydd da o amser gwersi
- rhoi adborth prydlon/rheolaidd
- ansawdd/argaeledd deunyddiau addysgu
- pennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella
- gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr
- y cymorth a roddir, er enghraifft i wella eich technegau astudio neu sut rydych yn rheoli amser)
- eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu.

Gofynnwyd i ymatebwyr ymateb drwy ddefnyddio graddfa pum pwynt yn amrywio o dda iawn i wael iawn (gyda chanolbwynt).

- Rhoddodd o leiaf un rhan o bump o'r myfyrwyr radd 'da iawn' ar yr agweddau canlynol: gwneud defnydd da o amser mewn gwersi, gallu i egluro'r pwnc, y cymorth maent yn ei roi a phennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella.
- Y tair agwedd a gafodd y graddau isaf o ran y sgôr gorau oedd: gwranddo ar eich anghenion, gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus, eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu (nodwyd gan 16% neu lai o'r myfyrwyr).

Siart 3.5: Graddau agweddau ar addysgu (%): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn y data yn ôl y newidynnau a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi:

- Roedd myfyrwyr Blwyddyn 11 yn fwy tebygol na myfyrwyr Blwyddyn 10 o roi graddau cadarnhaol ar gyfer yr agweddau canlynol ar addysgu: eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu, y cymorth a roddir i chi, er enghraifft i wella eich technegau astudio/dulliau o reoli amser.
- Roedd myfyrwyr ag anableddau neu salwch cyfyngus hirdymor yn llai tebygol o roi graddau cyfunol da iawn/gweddol dda ar bob agwedd, yn enwedig ar gyfer eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu a rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd.
- Roedd y myfyrwyr a gafodd gymorth dysgu ychwanegol yn fwy tebygol na'r rheini na chafodd gymorth o'r fath o roi ymatebion cadarnhaol i'r rhan fwyaf o'r mesurau, yn bennaf ar gyfer: gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr ac ansawdd/argaeledd deunyddiau addysgu a phennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella.
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol na myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i roi graddau cadarnhaol ar gyfer pob agwedd ar addysgu heblaw: gwneud defnydd da o amser gwersi ac ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu.

Tabl 3.12: Graddau ar gyfer agweddau ar addysgu yn ôl blwyddyn, cymorth dysgu ychwanegol ac anabledd cyfyngus hirdymor (% da iawn neu weddol dda)

| | Cyfanswm | Blwyddyn | | Cymorth dysgu ychwanegol | | Anabledd cyfyngus hirdymor | |
|--|----------|-------------|-------------|--------------------------|-------|----------------------------|---------|
| | | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Do | Naddo | Oes | Nac oes |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 1026 | 997 | 292 | 1693 | 88 | 1917 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 998 | 1020 | 347 | 1637 | 88 | 1913 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gallu i egluro'r pwnc | 85 | 84 | 88 | 88 | 86 | 80 | 87 |
| Gwrando ar eich anghenion | 62 | 64 | 63 | 70 | 62 | 56 | 63 |
| Gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr | 56 | 56 | 58 | 65 | 56 | 54 | 57 |
| Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu | 51 | 49 | 55 | 54 | 51 | 34 | 53 |
| Y cymorth a roddant i chi | 66 | 63 | 71 | 69 | 66 | 57 | 67 |
| Gwneud defnydd da o amser gwersi | 72 | 71 | 74 | 73 | 73 | 72 | 73 |
| Ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir | 67 | 66 | 69 | 75 | 66 | 60 | 68 |
| Pennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella | 65 | 65 | 68 | 77 | 64 | 61 | 67 |
| Rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd | 60 | 59 | 63 | 67 | 60 | 49 | 62 |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.


Tabl 3.13: Graddau ar gyfer agweddau ar addysgu yn ôl cyfrwng iaith (% da iawn neu weddol dda)

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | |
|--|----------|---------------|---------|
| | | Cymraeg | Saesneg |
| Heb ei phwysoli | 2094 | 365 | 1729 |
| Wedi ei phwysoli | 2094 | 334 | 1760 |
| | % | % | % |
| Y gallu i egluro'r pwnc | 85 | 89 | 84 |
| Gwrando ar eich anghenion | 62 | 72 | 61 |
| Gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr | 57 | 68 | 54 |
| Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu | 50 | 63 | 49 |
| Y cymorth a roddant i chi | 66 | 74 | 64 |
| Gwneud defnydd da o amser gwersi | 72 | 76 | 71 |
| Ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir | 67 | 71 | 66 |
| Pennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella | 65 | 74 | 63 |
| Rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd | 61 | 72 | 58 |

3.5.2 Boddhad cyffredinol â'r addysgu

Gofynnwyd i bob myfyriwr raddio ei foddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu yn ei ysgol. Cynigiwyd graddfa saith pwynt iddynt yn amrywio o hynod fodlon i hynod anfodlon. Roedd dros dri chwarter (78%) yn fodlon gyda'r addysgu i ryw raddau, dywedodd un o bob ugain (5%) eu bod yn hynod fodlon, dywedodd ychydig dros un rhan o dair (35%) eu bod yn fodlon iawn a dywedodd 37% pellach eu bo dyn weddol fodlon. Dim ond 5% a ddywedodd eu bod yn anfodlon a dywedodd 11% nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon.

Siart 3.6: Ansawdd cyffredinol yr addysgu yn yr ysgol: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

Roedd y data yn gymharol gyson ar draws sawl is-grŵp o ran boddhad cyffredinol â'r addysgu. Yr unig amrywiadau oedd:

- Roedd myfyrwyr ag anableddau dysgu yn llai cadarnhaol na'r myfyrwyr nad oedd ganddynt anableddau dysgu (roedd 12% yn anfodlon i ryw raddau o gymharu â 5%).
- Roedd myfyrwyr ag anableddau neu salwch cyfyngus hirdymor yn llai cadarnhaol na'r myfyrwyr nad oedd ganddynt anableddau cyfyngus hirdymor (roedd 12% yn fodlon i ryw raddau o gymharu â 5%).
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy cadarnhaol (nododd 84% ryw lefel o foddhad o gymharu â 77% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg).
- Dangosodd myfyrwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs lefelau uwch o foddhad â'r addysgu (nododd 81% ryw lefel o foddhad o gymharu â 72% nad oeddent yn astudio eu cwrs dewisol a 60% nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael unrhyw ddewis).
- Roedd y cyswllt rhwng boddhad cyffredinol a chymhelliant yn amlwg yn y mesur hwn hefyd: Roedd 96% o'r rheini a oedd yn hynod fodlon yn gyffredinol yn fodlon i ryw raddau ag ansawdd yr addysgu a dywedodd 90% o'r rheini oedd â llawer o gymhelliant yr un peth.

Adlewyrchwyd y gwahaniaethau mewn boddhad cyffredinol o fewn is-grwpiau hefyd yn y cwestiwn yn ymwneud ag agweddau penodol ar addysgu. Mae hyn yn cadarnhau ymhellach bod problemau o ran y canfyddiad o ansawdd addysgu ymysg y grwpiau canlynol: y rheini sydd ag anableddau dysgu, y rheini sydd ag anableddau cyfyngus hirdymor, myfyrwyr nad ydynt yn astudio eu dewis cyntaf o gyrsiau a'r rheini sydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

3.5.3 Ffactorau sy'n gwella Boddhad â'r Addysgu

Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol³ i bennu pa gyfraniad y mae'r elfennau gwahanol o addysgu yn ei wneud i ysgogi boddhad cyffredinol gydag ansawdd yr addysgu a sut mae myfyrwyr yn graddio perfformiad athrawon ar bob elfen. Mae'r siart nesaf yn mapio'r dadansoddiad ystadegol drwy drefnu'r agweddau ar addysgu yn ôl graddau'r myfyrwyr a'r cyfraniad a wnaeth pob agwedd i ysgogi boddhad â'r addysgu. Mae hyn yn rhoi pedwar chwarter:

- blwch uchaf ar y chwith: cyfraniad uchel ond boddhad is sy'n dangos bod angen **adolygiad**
- blwch uchaf ar y dde: cyfraniad uchel a boddhad uchel sy'n dangos bod achos dros **hyrwyddo'r** cryfderau hyn
- blwch isaf ar y chwith: cyfraniad is a boddhad is sy'n dangos bod achos dros **fonitro'r** agweddau hyn
- blwch isaf ar y dde: cyfraniad is ond boddhad uchel sy'n dangos bod angen **cynnal** perfformiad.

Mae'r dadansoddiad yn dangos:


- Roedd llawer o'r agweddau a gafodd raddau uchel o ran perfformiad hefyd yn uchel o ran pwysigrwydd, sef: y gallu i egluro'r pwnc, gan wneud defnydd da o amser gwersi ac ansawdd/argaeledd deunyddiau addysgu.

³ Dadansoddiad Atchweliad Amcangyfrifon - defnyddir y dadansoddiad hwn yn aml i weithio allan faint o ddyllanwad a gaiff nodweddion gwahanol ar rai newidynnau dibynnol fel boddhad cyffredinol. Os yw'r rhinweddau a fesurir yn gysylltiedig â'i gilydd mewn unrhyw ffordd (er enghraifft wrth i un wella mae un arall yn debygol o wella hefyd) yna gall dadansoddiad atchweliad llinol arferol gynnig atebion camarweiniol ac ansefydlog. Gelwir y rhyngberthynas hon rhwng newidynnau annibynnol yn 'aml-gyflinelledd'; mae atchweliad amcangyfrifon yn fath arbennig o atchweliad, a ddefnyddir i ymdrin â'r broblem hon.

Mae'r rhain felly yn y chwarter 'hyrwyddo' ac maent eisoes yn gweithio'n dda o ran ysgogi lefelau uchel o foddhad.

- Mae gwranddo ar eich anghenion, eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu a hefyd gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr, *mewn perthynas â'r holl agweddau eraill*, yn destun adolygiad. Os dylid adolygu unrhyw agweddau ar addysgu mae'r data yn awgrymu mai'r rhain yw'r rheini (os gellir gwella boddhad â'r agweddau hyn yna bydd boddhad cyffredinol ag addysgu yn cynyddu o ganlyniad i hynny).
- Mae perfformiad athrawon o ran rhoi adborth prydlon a rheolaidd yn is o gymharu â ffactorau eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae pwysigrwydd y ffactor hwn yn gymharol isel o ran ysgogi boddhad cyffredinol â'r addysgu, felly dylid monitro hyn dros amser.
- Er bod yr agweddau canlynol wedi sgorio'n uchel o ran perfformiad, roedd eu cyfraniad at foddhad cyffredinol â'r addysgu yn is *mewn perthynas â'r holl agweddau eraill* ac felly dylid cynnal lefelau boddhad ar gyfer y ffactorau hyn: y cymorth a roddant i chi, gwneud defnydd da o amser mewn gwersi a phennu targedau clir i'ch helpu i wella.

Siart 3.7: Ysgogwyr boddhad â'r addysgu ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen; 2094. Mae'r echelinau wedi'u gosod ar 10 am bwysigrwydd a 3.7 am berfformiad; mae'r rhain wedi'u creu at ddibenion cyflwyno adroddiadau ac maent yn osodiadau goddrychol.

3.6 Boddhad cyffredinol â'r profiad yn yr ysgol

3.6.1 Boddhad ag amgylchedd yr ysgol

Cyflwynodd yr holiadur gyfres o ddatganiadau i'r myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn ymwneud ag amgylchedd yr ysgol a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un (cawsant raddfa pum pwynt gydag opsiwn ddim yn cytuno nac yn anghytuno). Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

- Rwy'n falch o fod yn yr ysgol hon
- Rwy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol hon
- Derbyniais gyngor defnyddiol ynglŷn â'r hyn y dylwn ei astudio
- Rwy'n cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a drefnir gan yr ysgol
- Mae fy eiddo yn ddiogel yn yr ysgol hon
- Mae'r staff yn trin pob disgybl yn deg ac â pharch
- Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fwlio
- Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol â disgyblion sy'n ymddwyn yn wael
- Mae'r ysgol yn fy helpu i wneud penderfyniadau synhwyrol ynghylch beth rwy'n ei fwya ac yn ei yfed
- Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn barod ar gyfer addysg bellach neu i ddechrau ar fy mywyd gwaith
- Mae'r ysgol yn gwrandao ar sylwadau'r disgyblion ac yn ymateb iddynt
- Gallaf droi at oedolyn cyfrifol os oes gen i broblem bersonol.

Cynhaliwyd dadansoddiad ffactor ar ymatebion myfyrwyr i'r cwestiwn hwn; dull o leihau data yw hwn, a ddefnyddir i grwpio cwestiynau neu newidynnau sy'n debyg gyda'i gilydd. Mae'n nodi cwestiynau a gaiff eu graddio mewn ffordd debyg gan ymatebwyr ac yn eu lleihau yn nifer lai o ddimensiynau a elwir yn 'ffactorau'. Y theori y tu ôl i'r dadansoddiad ffactor yw pan gaiff llawer o fesurau eu graddio mewn ffordd debyg, y gellir eu graddio yn nifer lai o ffactorau sylfaenol er mwyn symleiddio'r dadansoddiad.

Gellir defnyddio dadansoddiad ffactor am nifer o resymau, ond ei brif ddefnyddiau yw:

- deall patrymau yn y data i roi strwythur ar gyfer cyflwyno adroddiadau (fel y digwyddodd yn yr achos hwn)
- fel rhagflaenydd i ddadansoddiad arall (fel rhannu)
- nodi ailadrodd ymysg y newidynnau er mwyn helpu i benderfynu pa gwestiynau y gellir eu hepgor mewn tonnau yn y dyfodol os ydych yn datblygu arolwg olrhain

Cafodd y mesurau yn yr achos hwn eu dadansoddi i'r ffactorau canlynol (mae'r broses hon yn oddrychol ac fe'i cynhaliwyd gan y tîm gwyddorau marchnata yn GfK NOP):

| Ffactor/dimensiwn | Cwestiwn/newidyn |
|--|--|
| Hafan ddiogel | Rwy'n falch o fod yn yr ysgol hon Rwy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol hon |
| Gofal/cyngor y tu allan i'r ystafell ddosbarth | Derbyniais gyngor defnyddiol ynglŷn â'r hyn y dylwn ei astudio Rwy'n cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a drefnir gan yr ysgol Mae'r ysgol yn fy helpu i wneud penderfyniadau synhwyrol ynghylch beth rwy'n ei fwyta ac yn ei yfed Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn barod ar gyfer addysg bellach neu i ddechrau ar fy mywyd gwaith Gallaf droi at oedolyn cyfrifol os oes gen i broblem bersonol |
| Creu ymddiriedaeth: parch a diogelwch | Mae'r staff yn trin pob disgybl yn deg ac â pharch Mae'r ysgol yn gwrandao ar sylwadau'r disgyblion ac yn ymateb iddynt Mae fy eiddo yn ddiogel yn yr ysgol hon |
| Disgyblaeth | Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fwlio Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol â disgyblion sy'n ymddwyn yn wael |

O ran y categori cyntaf, dangosodd dadansoddiad '**hafan ddiogel**' mai'r ddau ddatganiad hyn a gafodd rai o'r ymatebion mwyaf cadarnhaol:

- Roedd bron i dri o bob deg o fyfyrwyr yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol a/neu eu bod yn gyffredinol yn falch o fod yn yr ysgol (27% ym mhob achos). O gymharu â'r ymatebion i'r holl ddatganiadau eraill roedd y cyfraddau hyn yn gymharol uchel.

- Roedd tua dwy ran o bump yn tueddu i gytuno â phob datganiad (41% a 45% yn y drefn honno) a nifer cymharol fach a oedd yn anghytuno (9% ag 8% yn y drefn honno).

Yn yr ail categori, **'gofal/cyngor y tu allan i'r ystafell ddosbarth'**:

- Roedd chwarter neu fwy o'r myfyrwyr yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd y tu allan i'r ystafell ddosbarth (30%), bod yr ysgol yn eu helpu i baratoi ar gyfer gwaith/dysgu pellach (28%) a/neu fod oedolyn cyfrifol wrth law y gallent droi atynt (25%).
- Roedd llai o fyfyrwyr yn y categori hwn yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael cyngor defnyddiol ynghylch beth i'w astudio (16%) a/neu fod yr ysgol wedi eu hannog i fwyta'n synhwyrol (8%). Yn wir, mewn perthynas â'r datganiad terfynol o ran bwyta'n synhwyrol roedd 31% yn anghytuno â hyn i ryw raddau.


Yn y trydydd categori **'creu ymddiriedaeth: parch a diogelwch'**, mae angen adolygu rhywfaint ar ymatebion y myfyrwyr. Roedd datganiadau yn y ffactor hwn yn fwy tebygol o greu ymateb negyddol gan fyfyrwyr nag unrhyw ffactor arall:

- 'Mae'r staff yn trin pob disgybl yn deg ac â pharch': er bod 45% yn cytuno i ryw raddau, roedd 25% yn anghytuno ac ni allai 27% arall roi ymateb y naill ffordd neu'r llall.
- 'Mae'r ysgol yn gwrandao ar sylwadau'r disgyblion ac yn ymateb iddynt': er bod 46% yn cytuno i ryw raddau, roedd 20% yn anghytuno ac ni allai 30% arall roi ymateb y naill ffordd neu'r llall.
- 'Mae fy eiddo yn ddiogel yn yr ysgol hon': er bod 35% yn cytuno i ryw raddau, roedd 33% yn anghytuno ac ni allai 25% arall roi ymateb y naill ffordd na'r llall. Yn wir, yr agwedd hon a greodd y lefel uchaf o anghytuno ar draws yr holl fesurau.

O ran y pedwerydd categori, **'disgyblaeth'**:

- Roedd 24% yn cytuno'n gryf bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â bwlio, roedd 32% yn tueddu i gytuno, roedd 20% yn anghytuno i ryw raddau (ni nododd 21% ymateb y naill ffordd neu'r llall)
- Roedd 18% yn cytuno'n gryf bod ymddygiad drwg yn cael ei drin yn effeithiol, roedd 34% yn tueddu i gytuno, roedd 20% yn anghytuno i ryw raddau (ni nododd 24% ymateb y naill ffordd neu'r llall)

Siart 3.8: Amgylchedd yr ysgol (cyfraddau %): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

Cafwyd gwahaniaethau sylweddol yn yr ymatebion yn ôl y newidynnau gwahanol. Roedd siart 3.9 yn amlygu enghreifftiau lle'r oedd ymatebion myfyrwyr yn llawer mwy cadarnhaol ar gyfer pob datganiad (mae'r tablau gyda ffigurau yn yr atodiad). Mae'n amlygu bod yr is-grwpiau canlynol yn **aml** yn fwy cadarnhaol ynghylch y datganiadau (yn llawer mwy cadarnhaol ynghylch o leiaf tri o'r deuddeg o ddatganiadau) na'u cymheiriaid:

- bechgyn (yn aml yn fwy tueddol o fod yn gadarnhaol tuag at y datganiadau na merched)
- Blwyddyn 11 (o gymharu â myfyrwyr Blwyddyn 10)

- myfyrwyr a gafodd gymorth dysgu ychwanegol (o gymharu â'r rheini na chafodd gymorth o'r fath)
- myfyrwyr heb anabledd dysgu (o gymharu â'r rheini ag anabledd dysgu)
- myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (o gymharu â myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg)
- myfyrwyr mewn ysgolion lle mae gan <10% o fyfyrwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu â myfyrwyr mewn ysgolion lle mae gan 10% neu fwy hawl i gael prydau ysgol am ddim).

Siart 3.9: Amgylchedd yr ysgol yn ôl demograffeg bersonol a demograffeg yr ysgol

| | Demograffeg bersonol (yn ymwneud â'r ymatebydd) | Demograffeg yr ysgol (yn ymwneud â'r ysgol) |
|--|---|---|
| | Grŵp a sgoriodd yn llawer mwy cadarnhaol | Grŵp a sgoriodd yn llawer mwy cadarnhaol |
| Hafan ddiogel | | |
| Rwy'n falch o fod yn yr ysgol hon | Myfyrwyr gwyn Dim anableddau dysgu Dim anableddau hirdymor* | |
| Rwy'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol hon | Bachgen Blwyddyn 11 Dim anableddau dysgu* Dim anableddau hirdymor* | Cyfrwng Cymraeg < 10% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Gofal/cyngor y tu allan i'r ystafell ddosbarth | | |
| Derbyniais gyngor defnyddiol ynglŷn â'r hyn y dylwn ei astudio | Cymorth dysgu ychwanegol | Cyfrwng Cymraeg* +15% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Rwy'n cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a drefnir gan yr ysgol | Bachgen* Dim anableddau dysgu* Dim anableddau hirdymor | < 10% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Mae'r ysgol yn fy helpu i wneud penderfyniadau synhwyrrol ynghylch beth rwy'n ei fwyta ac yn ei yfed | Bachgen Blwyddyn 10 | Cyfrwng Cymraeg <10% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Mae'r ysgol yn fy helpu i fod yn barod ar gyfer addysg bellach neu i ddechrau ar fy mywyd gwaith | Blwyddyn 11 Dim anableddau dysgu Cymorth dysgu ychwanegol* | Cyfrwng Cymraeg |
| Gallaf droi at oedolyn cyfrifol os oes gen i broblem bersonol | Cymorth dysgu ychwanegol | Cyfrwng Cymraeg |
| Ymddiriedaeth: Parch a diogelwch | | |
| Mae'r staff yn trin pob disgybl yn deg ac â pharch | Cymorth dysgu ychwanegol | Cyfrwng Cymraeg |
| Mae'r ysgol yn gwrandao ar sylwadau'r disgyblion ac yn | Gwryw Blwyddyn 10* | Cyfrwng Cymraeg |


| | | |
|---|--|---|
| y mateb iddynt | Cymorth dysgu ychwanegol | |
| Mae fy eiddo yn ddiogel yn yr ysgol hon | Gwryw | < 10% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Disgyblaeth | | |
| Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fwlio | Gwryw Blwyddyn 11* Pob gwern yn yr ysgol hon | Cyfrwng Cymraeg < 10% â hawl i gael prydau ysgol am ddim |
| Mae'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol â disgyblion sy'n ymddwyn yn wael | Cymorth dysgu ychwanegol* | |

* Er nad oeddent yn llawer mwy tebygol o gytuno, roedd y grwpiau hyn yn llawer llai tebygol o gytuno na'u cymheiriaid

3.6.2 Boddhad cyffredinol â'r profiad

Gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr, gan ystyried yr holl ddysgu yn eu hysgol, pa mor fodlon yr oeddent yn gyffredinol. Cynigiwyd graddfa saith pwynt iddynt gan gynnwys canolbwynt. Roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (84%) yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod hyn wedi'i bwysoli'n sylweddol tuag at y ffaith eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon (41% a 37% yn y drefn honno) yn hytrach na bod yn hynod o fodlon (7%). Nid oedd bron i un o bob deg yn fodlon nac yn anfodlon (8%) a chymharol brin oedd y rhai oedd yn anfodlon i ryw raddau (4%).

Siart 3.10: Boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 Heb ei phwysoli (2094) Wedi ei phwysoli (2094)

O ran demograffeg bersonol, yr unig newidyn oedd yn arwyddocaol o ran boddhad cyffredinol oedd anabledd neu salwch hirdymor. Roedd myfyrwyr ag anabledd neu salwch hirdymor yn llai tebygol o fod yn fodlon i ryw raddau na'r rheini heb anabledd neu salwch o'r fath (77% o gymharu ag 86%).

O ran y dewis cyntaf o gwrs a'r math o gwrs, mae tabl 10 yn Atodiad B yn dangos:

- Bod myfyrwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs yn llawer mwy bodlon i ryw raddau na'r rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs neu'r rheini a oedd o'r farn na chawsant unrhyw ddewis (88% o gymharu â 74% a 72% yn y drefn honno).
- Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio NVQs yn fwy tebygol o nodi eu bod yn anfodlon i ryw raddau (9%) na'r myfyrwyr yn gyffredinol (4%).

Mae Tabl 11 yn Atodiad B yn dangos bod cydberthynas gref iawn (sydd hefyd yn amlwg yn nata Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 ar gyfer 2008) rhwng:

- Lefelau o gymhelliant a boddhad cyffredinol:
 - Roedd bron pob un o'r rheini oedd â llawer o gymhelliant yn fodlon i ryw raddau gyda'u profiad dysgu cyffredinol (96%), ond roedd cyfran llawer is o fyfyrwyr nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl na wnaethant nodi unrhyw lefel o foddhad (37%).
- Boddhad ag ansawdd yr addysgu a boddhad cyffredinol:
 - Roedd bron pob un o'r rheini a oedd yn hynod fodlon ag ansawdd yr addysgu yn fodlon i ryw raddau gyda'u profiad dysgu yn gyffredinol (99%). I'r gwrthwyneb, roedd cyn lleied â 30% o'r myfyrwyr a oedd yn anfodlon i ryw raddau ag ansawdd yr addysgu yn fodlon i ryw raddau a'u profiad cyffredinol o ddysgu.

Gofynnwyd i'r myfyrwyr ysgrifennu un peth yr oeddent yn ei hoffi orau am yr ysgol ac un peth yr hoffent ei newid. Cwestiynau penagored oedd y rhain ac roedd yr holl ymatebion wedi'u codio ac yna'u rhannu'n categorïau ehangach (roedd yr ymatebion yn hynod o amrywiol). Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

- **Y peth yr oeddent yn ei hoffi fwyaf am yr ysgol** - ansawdd y dysgu oedd yr agwedd a nodwyd gan y rhan fwyaf o'r myfyrwyr (36%) ac yn ail roedd cael bod gyda'u ffrindiau/ eu cymheiriaid (27%). Nododd bron i un o bob deg eu hathrawon, naill ai yn gyffredinol neu drwy gyfeirio'n benodol at y cymorth a roddant (9% a 7% ym mhob achos). O ran gwahaniaethau demograffig:
 - Roedd merched yn llawer mwy tebygol o sôn am ffrindiau/disgyblion (33% o gymharu â 23% o fechgyn) ac roedd bechgyn yn fwy tebygol

o sôn am ansawdd y ddarpariaeth ddysgu (40% o gymharu â 33% o ferched).

- Roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 yn fwy tebygol na myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 o sôn am yr athrawon yn gyffredinol (12% o gymharu ag 8%), a chan gyfeirio at gymorth (10% o gymharu â 5%). Roedd myfyrwyr Blwyddyn 10 yn fwy tebygol o sôn am agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd y dysgu (42% yn erbyn 32%).
- Roedd dysgwyr a gafodd gymorth dysgu ychwanegol yn llawer mwy tebygol o sôn yn ddigymell am gymorth gan athrawon (16% o gymharu â 6%) ac yn llai tebygol o sôn am ffrindiau/ cymheiriaid (20% o gymharu â 29%) na'r rheini na chawsant gymorth o'r fath.
- **Y 'peth' yr hoffai myfyrwyr ei newid fwyaf am yr ysgol** - roedd y cyfeiriadau mwyaf cyffredin yn cynnwys sylwadau cyffredinol yn ymwneud ag athrawon (17%) ac ansawdd y ddarpariaeth ddysgu (14%), wedi'u dilyn gan amgylchedd/awyrgylch (11%), disgyblaeth a'r ffreutur/bwyd (9% ym mhob achos).

3.7 Crynodeb ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11

Dewis a chyfleoedd

Ymddengys bod y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (85%) wedi dewis pynciau ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 am eu bod yn mwynhau eu hastudio. Fodd bynnag, roedd eu penderfyniadau hefyd yn seiliedig ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol, gyda 43% yn nodi bod angen y pynciau neu'r cymwysterau arnynt ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud a 21% yn nodi bod angen y pynciau i symud ymlaen i'r chweched dosbarth neu'r coleg. Nododd nifer llawer llai o ddisgyblion a oedd yn astudio TGAU eu bod wedi gwneud hynny am fod eu hangen arnynt ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud yn y dyfodol, o gymharu â myfyrwyr ar bob math arall o gwrs. Yn ogystal, roedd myfyrwyr oedd â mwy o gymhelliant yn eu hastudiaethau hefyd yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu pynciau a'u cymwysterau ar gyfer y swydd roeddent am ei gwneud, gan awgrymu eu bod o bosibl yn ystyried eu haddysg o safbwynt nodau.

Roedd yn bendant yn amlwg bod myfyrwyr a oedd yn mynd i Flwyddyn 10 a Blwyddyn 11 wedi cael cyngor gan drydydd partiön i lywio eu dewisiadau pwnc, naill ai gan eu rhieni (33%), athrawon (23%) neu Gynghorydd Gyrfa Cymru (8%). Amlygir dylanwad cyfraniad rhieni yma gyda mwy o fyfyrwyr yn ceisio cyngor gan eu rhieni nag unrhyw drydydd parti.

Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio cymwysterau heblaw TGAU ac NVQs yn fwy tebygol o fod wedi seilio eu penderfyniadau ar gyngor a gawsant gan eu hathrawon, efallai gan eu bod yn delio ag angen unigol (e.e. sgiliau sylfaenol) neu natur amgen y cymwysterau hyn mewn lleoliad ysgol.

Roedd tua phedwar o bob pump o fyfyrwyr (81%) yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc a chymwysterau ond nid oedd hyn yn wir am 12%. Ymysg y grwpiau a oedd yn llai tebygol o fod yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc a chymwysterau roedd:

- Myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig (roedd 73% yn astudio eu dewisiadau cyntaf o gymharu ag 84% o fyfyrwyr gwyn.
- Myfyrwyr mewn ysgolion gyda 400 neu lai o ddisgyblion ar draws Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 (80% neu lai o gymharu ag 85% neu fwy mewn ysgolion gyda 401 neu fwy o ddisgyblion ar draws Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11).

Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau yn fwy tebygol o ddangos lefelau uwch o foddhad a chymhelliant. Ymddengys fod hyn yn awgrymu bod ateb galw myfyrwyr am gyrsiau yn ffactor pwysig o ran cymell myfyrwyr a'u cynnwys yn eu hastudiaethau.

Ymysg y myfyrwyr nad oeddent yn astudio eu dewisiadau cyntaf, roedd nifer o resymau dros hyn, gyda bron i un rhan o dair (31%) yn dweud nad oedd eu hysgol neu ysgolion lleol yn cynnig y pynciau neu'r cymwysterau roeddent am eu hastudio. Ar gyfer nifer debyg o fyfyrwyr roedd eu dewis cyntaf o bwnc neu gymhwyster naill ai yn llawn eisoes (30%) neu nid oedd eu dewisiadau cyntaf yn cyd-fynd â'u hamserlenni (30% hefyd).

Problemau a gafwyd

Dywedodd y mwyafrif o fyfyrwyr fod ganddynt rywfaint o gymhelliant neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau (73%). Nododd y rhan fwyaf o fyfyrwyr fod ganddynt rywfaint o gymhelliant (61%), a nododd tua un o bob deg fod ganddynt lawer o gymhelliant (12%). Er hyn, nododd cyfran sylweddol o fyfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant (18%) a nododd 2% nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl.

Mae'n ddiddorol nodi, er gwaethaf tueddiad diweddar bod myfyrwyr sy'n ferched yn perfformio'n well na myfyrwyr sy'n fechgyn mewn arholiadau TGAU⁴, nid oedd merched yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt rywfaint neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau na bechgyn. Nid oedd gwahaniaeth chwaith rhwng y myfyrwyr gwyn a'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, roedd y myfyrwyr hynny oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant yn fwy tebygol o fod:

⁴ Cyflawnodd 66.5% o ferched yng Nghymru raddau A*-C yn 2007 o gymharu â 59.3% o fechgyn (Llywodraeth Cynulliad Cymru) <http://wales.gov.uk/news/ThirdAssembly/Education/2007/1634810/?lang=en>

- yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (83% o gymharu â 71% nad oeddent yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg).
- yn fodlon yn gyffredinol â'u profiadau dysgu (81% o gymharu â 30% a oedd yn anfodlon)
- yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs (76% o gymharu â 63% nad oeddent yn gwneud hynny)
- heb unrhyw salwch neu anabledd cyfyngus hirdymor (nododd 75% o'r rheini nad oedd ganddynt salwch neu anabledd o'r fath fod ganddynt rywfaint neu lawer o gymhelliant o gymharu â 59% o'r rheini yr oedd ganddynt salwch neu anabledd o'r fath)

Yn galonogol, dywedodd bron i chwarter myfyrwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau eu blwyddyn ysgol bresennol (22%). Fodd bynnag, ymysg y rheini oedd wedi cael problemau, y tair problem fwyaf cyffredin a gawsant oedd:

- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (29% o'r holl fyfyrwyr)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (28%)
- problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill (27%).

Bwriadau yn y dyfodol

Nododd tua chwech o bob deg o'r myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 (59%) eu bod am fynd i'r coleg ar ôl Blwyddyn 11 ac er mai dosbarthiadau chwech mewn ysgolion oedd yr ail ddewis mwyaf cyffredin a nodwyd, nifer llawer llai a nododd yr opsiwn hwn (31%). Nododd un rhan o bump y byddent yn chwilio am waith rhan amser (yn aml ar y cyd ag astudiaethau eraill). Soniodd ychydig dros un o bob deg am swydd gyda Phrentisiaeth Fodern (13%).

Cafwyd achosion lle'r oedd is-grwpiau penodol o fyfyrwyr yn llawer mwy tebygol o nodi coleg/chweched dosbarth yn hytrach na hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith fel Prentisiaethau Modern. Merched a myfyrwyr heb anableddau dysgu oedd y rhain. Roedd myfyrwyr gyda mwy o gymhelliant a myfyrwyr mwy bodlon hefyd yn llawer mwy tebygol na myfyrwyr llai bodlon ac nad oes ganddynt gymaint o gymhelliant i fod yn meddwl am barhau â'u dysgu mewn coleg/chweched dosbarth mewn ysgol y tu hwnt i Flwyddyn 11.

Bodddhad cyffredinol

Er bod lle i wella o ran bod cyfran y myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn hynod o fodlon yn gymharol isel, gellir ystyried bod sgôr cyfunol o 84% yn fodlon i ryw raddau yn gadarnhaol iawn. Mae'r ffigur hwn wedi'i bwysoli'n sylweddol tuag at y ffaith bod

myfyrwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon (41% a 37% yn y drefn honno) yn hytrach na'u bod yn hynod fodlon (7%). Nid oedd bron un o bob deg naill ai'n fodlon nac yn anfodlon (8%). Nifer cymharol fach o fyfyrwyr oedd yn anfodlon i ryw raddau (4%).

Prin oedd y gwahaniaethau sylweddol yn y data ar y lefel uchaf hon yn ôl demograffeg bersonol a demograffeg yr ysgol. Dyma rai o'r negeseuon clir a ddaeth i'r amlwg ar gyfer y mesur hwn:

- Os yw'r myfyriwr yn mynychu'r cwrs o'i ddewis mae lefelau boddhad cyffredinol yn uwch.
- Ceir cydberthynas gref iawn (sydd hefyd yn amlwg yng nghanfyddiadau Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13) rhwng lefelau cymhelliant a boddhad cyffredinol; roedd y mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr oedd â llawer o gymhelliant yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol (96%).

Roedd myfyrwyr fwyaf tebygol o nodi'n ddigymell ansawdd y dysgu a ffrindiau a gawsant a hefyd ffrindiau fel y 'pethau' roeddent yn eu hoffi fwyaf am yr ysgol. Y 'pethau' yr hoffent eu newid fwyaf oedd agweddau cyffredinol yn ymwneud ag athrawon (17%), ansawdd y ddarpariaeth ddysgu (14%), amgylchedd/awyrgylch (11%), disgyblaeth a'r ffreutur/bwyd (9% ym mhob achos).

4. Astudiaeth Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ystyried canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr ar gyfer carfan Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Mae'r data wedi cael ei ddadansoddi yn ôl cyfres o newidynnau yn ymwneud â demograffeg bersonol, opsiynau a ddewiswyd, lefelau boddhad a chymhelliant, a demograffeg yr ysgol (fel canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, maint y grŵp blwyddyn a ph'un a yw'r ysgol yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg). Roedd yr holiadur yn cwmpasu'r agweddau canlynol ar brofiad dysgu myfyrwyr:

- dewis a chyfle
- cymhelliant a'r problemau a gafwyd
- boddhad â'r addysgu
- mesurau i ystyried boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu.

Gwneir cymhariaeth ag astudiaeth 2004 ar ddiwedd pob is-adran. Er bod y cymhariaethau hyn yn ddefnyddiol, dylid eu trin fel rhai dangosol, gan fod y dulliau recriwtio a ddefnyddiwyd yn y ddau arolwg yn wahanol.

4.2 Dewis a chyfle

Mae'r adran ganlynol yn ystyried y dewisiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ym Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Yn benodol, bydd yn archwilio:

- rhesymau myfyrwyr dros benderfynu mynychu Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn eu hysgol bresennol
- p'un a yw myfyrwyr yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol
- p'un a yw myfyrwyr yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau ac os nad ydynt, y rhesymau dros hynny.


4.2.1 Rhesymau dros fynychu Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

Gofynnwyd i bob myfyriwr beth oedd eu prif resymau dros fynychu Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn eu hysgol. Cynigiwyd rhestr o atebion posibl iddynt a gallent

ddewis cymaint neu gyn lleied ohonynt ag y dymument a gallent hefyd gofnodi unrhyw atebion eraill nad oeddent eisoes ar y rhestr.

Ar gyfer y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr, y prif reswm a roddwyd oedd eu bod eisoes yn mynychu'r ysgol (85%), felly roedd mynychu'r chweched dosbarth yn ddilyniant naturiol. Ymhlith y ffactorau eraill a ddylanwadodd ar y broses o wneud penderfyniadau i lawer o fyfyrwyr roedd ffrindiau, p'un a oedd yr opsiynau a gynigiwyd yn bodloni'r galw a chyfleustra. Felly, dywedodd hanner y myfyrwyr bod eu ffrindiau yn mynychu'r un ysgol (52%), bod yr ysgol yn cynnig y cyrsiau neu'r pynciau roeddent am eu hastudio (51%) neu fod yr ysgol mewn man cyfleus (51%). Dywedodd un o bob chwech (17%) mai'r ffaith bod gan yr ysgol enw da oedd eu rheswm. Soniodd 7% fod yr ysgol yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a 6% fod cynghorydd gyrfaedd wedi argymhell y dylent aros yn yr ysgol.

Siart 4.1: Rhesymau dros fynychu Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 (% yr atebion a gafwyd): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782). Dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y siart. Ni ddangosir 'heb ei nodi' na 'ddim yn gwybod'.

Dangosodd ymatebion fod merched yn llawer mwy tebygol na bechgyn o gael eu 'hannog' gan addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (9% o gymharu â 5%). Roedd Blwyddyn 12 yn fwy tebygol na Blwyddyn 13 o nodi cyfleustra (55% o fyfyrwyr Blwyddyn 12 o gymharu â 48% o'r ymatebwyr ym Mlwyddyn 13), ffactor ysgogi yr anghofir amdano o bosibl erbyn Blwyddyn 13. O ran ethnigrwydd, mae'n ddiddorol gweld bod myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai tebygol na'r rheini o gefndiroedd gwyn o sôn am yr opsiynau uchod. Yr unig ffactorau ysgogi y soniwyd

amdanynt gan gyfrannau tebyg o grwpiau gwyn a lleiafrifoedd ethnig oedd cyfleustra, enw da a chyngor gan gynghorwyr gyrfaoedd.

Roedd y rheini ag anableddau dysgu yn llai tebygol na'r rheini hebddynt i ddweud bod eu hysgol:

- yn cynnig y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau yr oeddwn am eu hastudio (27% o gymharu â 53%)
- yn cynnig yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (1% o gymharu â 7%)

Roedd myfyrwyr a oedd yn cael cymorth dysgu ychwanegol yn fwy tebygol na'r rheini nad oeddent yn cael cymorth o ddweud bod eu hysgol:

- yn ysgol ag enw da (24% o gymharu â 16%)
- wedi'i hargymell gan gynghorydd gyrfaoedd (12% o gymharu â 6%)

Fodd bynnag, roeddent yn llai tebygol na'r rheini nad oeddent yn cael cymorth dysgu ychwanegol o ddweud:

- eu bod eisoes yn mynychu'r ysgol (78% o gymharu ag 87%)
- bod eu ffrindiau eisoes yn mynychu'r ysgol (43% o gymharu â 53%)
- bod yr ysgol yn gyfleus (42% o gymharu â 53%)

Tabl 4.1: Rhesymau dros fynychu Blwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn yr ysgol yn ôl rhyw, blwyddyn, ethnigrwydd, anabledd dysgu a chymorth dysgu cyffredinol

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Ethnigrwydd | | Anabledd dysgu | | Cymorth dysgu | |
|---|----------|-------|-------|----------|----|-------------|-------------|----------------|---------|---------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | 12 | 13 | Gwyn | Ddim yn wyn | Oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1033 | 70 | 1564 | 160 | 82 | 1629 | 144 | 1569 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1024 | 70 | 1534 | 178 | 92 | 1604 | 153 | 1558 |
| Roeddwn eisoes yn mynychu'r ysgol hon | 85 | 84 | 87 | 85 | 88 | 88 | 69 | 88 | 86 | 78 | 87 |
| Roedd ffrindiau yn mynd yno | 52 | 53 | 52 | 54 | 50 | 54 | 40 | 58 | 53 | 43 | 53 |
| Cynigwyd y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau roeddwn am eu hastudio | 51 | 49 | 54 | 52 | 51 | 54 | 34 | 27 | 53 | 45 | 52 |
| Lleoliad cyfleus / agosaf | 51 | 51 | 54 | 55 | 48 | 52 | 51 | 42 | 53 | 42 | 53 |
| Enw da | 16 | 16 | 17 | 15 | 18 | 16 | 18 | 17 | 17 | 24 | 16 |
| Cynigwyd yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 7 | 5 | 9 | 9 | 5 | 8 | 2 | 1 | 7 | 3 | 7 |
| Argymhellwyd gan gynghorydd gyrfaoedd | 6 | 7 | 6 | 7 | 5 | 6 | 4 | 6 | 6 | 12 | 6 |
| Heb ei nodi | 2 | 1 | * | 1 | 0 | * | 1 | 3 | * | 3 | * |

Noder: Dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl. Ddim yn gwybod heb ei ddangos. Mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn. Yn y tabl mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

Yn ddiddorol, ymddangosai bod dau reswm dros fynychu'r ysgol yn cydberthyn â lefelau cymhelliant myfyrwyr: boddhad ag ansawdd yr addysgu a ph'un a oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol (tabl 12, Atodiad B):

- Roedd y rheini a oedd â llawer o gymhelliant ac yn fodlon yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi'u cymell yn wreiddiol gan y ffaith bod yr ysgol yn 'cynnig y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau yr oeddwn am eu hastudio':
 - Nodwyd yr ateb hwn gan fyfyrwyr a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant (60% a 55% yn y drefn honno) o gymharu â 44% o'r

myfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant a 28% nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl).

- Nodwyd yr ymateb hwn gan fyfyrwyr a oedd yn hynod fodlon, bodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar ansawdd yr addysgu (53%, 58% a 49% yn y drefn honno) o gymharu â 30% o'r rheini a ddywedodd eu bod yn anfodlon.
- Roedd myfyrwyr nad oeddent erioed wedi ystyried gadael yr ysgol (58%) hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u cymhell gan y ffaith bod yr ysgol yn 'Cynnig y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau yr oeddwn am eu hastudio' o gymharu â 41% a oedd wedi ystyried gadael.
- Roedd y rheini a oedd â llawer o gymhelliant ac yn fodlon yn fwy tebygol o fod wedi'u cymhell yn wreiddiol gan y ffaith bod gan yr ysgol 'Enw da':
 - Nodwyd yr ateb hwn gan 27% o'r myfyrwyr a oedd â llawer o gymhelliant a 18% o'r rheini a oedd â rhywfaint o gymhelliant o gymharu â 10% o'r myfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant a dim ond 5% o'r rheini nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl.
 - Nododd 33% o'r myfyrwyr a oedd yn hynod fodlon ar ansawdd yr addysgu ac 20% o'r rheini a oedd yn fodlon iawn enw da'r ysgol fel rheswm o gymharu ag 16% o'r myfyrwyr yn gyffredinol.
 - Nododd un o bob pump o'r myfyrwyr nad oeddent erioed wedi ystyried gadael yr ysgol (19%) enw da'r ysgol fel un o'u prif resymau o gymharu ag 11% o'r rheini a oedd wedi ystyried gadael.

Awgryma'r uchod, yn ogystal â'r ysgol yn cynnig y cyrsiau cywir, bod penderfyniad hyddysg yn seiliedig ar y ffaith bod yr ysgol yn cynnig y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau yr oedd myfyrwyr am eu hastudio a chanfyddiad bod gan ysgol enw da ar ddechrau Blwyddyn 12 yn gysylltiedig â lefelau uwch parhaus o foddhad a chymhelliant.

Wrth edrych ar y data ar ddemograffeg yr ysgol, roedd nifer o resymau a oedd fwy neu lai'n debygol o gael eu rhoi gan wahanol grwpiau neu fyfyrwyr:

- **Roedd ffrindiau yn mynd yno:**
 - roedd myfyrwyr mewn ysgolion â 100 o ddisgyblion neu fwy yn y grŵp blwyddyn yn llawer mwy tebygol o roi'r rheswm hwn (52% neu fwy o gymharu â 35% o'r rheini â llai na 100 o ddisgyblion)

- roedd myfyrwyr a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawer llai tebygol o nodi'r rheswm hwn (46% o gymharu â 53% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg).
- **Yn cynnig y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau yr oeddwn am ei astudio/eu hastudio:**
 - Roedd myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd llai na 10% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o nodi'r rheswm hwn (55 o gymharu â 47% mewn ysgolion lle roedd 15% neu fwy o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim)
- **Lleoliad cyfleus / agosaf:**
 - Nodwyd fel rheswm gan 55% o'r myfyrwyr a oedd yn mynychu ysgolion lle roedd llai na 10% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â bron i hanner y myfyrwyr (48%) a oedd yn mynychu ysgolion lle roedd dros 15% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- **Enw da:**
 - Nodwyd gan chwarter (24%) y myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd llai na 10% o'r myfyrwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 11% neu lai o'r rheini mewn ysgolion lle roedd dros 10% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Tabl 4.2: Rhesymau dros fynychu Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn yr ysgol yn ôl cyfrwng iaith

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | |
|--|----------|---------------|---------|
| | | Cymraeg | Saesneg |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 |
| | % | % | % |
| Roeddwn eisoes yn mynychu'r ysgol hon | 85 | 84 | 85 |
| Roedd ffrindiau yn mynd yno | 52 | 46 | 53 |
| Cynigwyd y cwrs/cyrsiau a/neu bwnc/pynciau roeddwn am ei astudio/eu hastudio | 51 | 55 | 50 |
| Lleoliad cyfleus / agosaf | 51 | 55 | 51 |
| Enw da | 16 | 14 | 17 |
| Cynigwyd yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | 7 | 34 | 1 |
| Argymhellwyd gan gynghorydd gyrfaoedd | 6 | 7 | 6 |
| Heb ei nodi | 2 | 2 | 2 |

Noder; dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl. Ddim yn gwybod heb ei ddangos.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau 2004 yr un fath â 2008. Y prif reswm dros ymuno â'r chweched dosbarth o hyd oedd y ffaith bod myfyrwyr eisoes yn mynychu'r ysgol, gyda ffrindiau, cyfleustra a'r ffaith bod y cyrsiau yr oedd myfyrwyr am eu hastudio ar gael ymhlith y rhesymau eraill. Y tri opsiwn lle y gwelwyd gwahaniaethau cymharol fach ond sylweddol serch hynny ers 2004 oedd mwy o fyfyrwyr yn dweud bod ffrindiau yn mynd yno (50% yn 2004 a 52% yn 2008) a llai yn dweud bod gan eu chweched dosbarth y cyrsiau/pynciau roeddent am eu hastudio (54% yn 2004 a 51% yn 2008) neu fod gan yr ysgol enw da (21% yn 2004 ac 16% yn 2008).


4.2.2 Dewis cyntaf o ysgol

Gofynnwyd i bob myfyriwr p'un ai'r ysgol yr oedd yn ei mynychu oedd ei ddewis cyntaf, sef y lle yr oedd am fynd iddo fwyaf i astudio ei gwrs/gyrsiau. Gallai myfyrwyr ddewis un o'r atebion canlynol:

- Ydw
- Na, nid fy newis cyntaf
- Nid oedd gen i ddewis
- Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall

Dywedodd bron un o bob deg myfyriwr (69%) mai'r ysgol yr oeddent yn ei mynychu oedd eu dewis cyntaf o gymharu â thua un o bob ugain o fyfyrwyr (6%) a ddywedodd nad eu hysgol oedd eu dewis cyntaf. Nid oedd bron un rhan o bump o'r myfyrwyr (18%) wedi ystyried opsiwn arall a theimlodd 4% ohonynt nad oeddent wedi cael dewis. Mae'n bwysig nodi bod bron pob un o'r rheini a ddywedodd nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall eisoes yn mynychu eu hysgol cyn dechrau Blwyddyn 12. Gall hyn ddangos diffyg ystyriaeth o opsiynau a llwybr 'hawdd' a naturiol ar yr olwg gyntaf i rai.

Siart 4.2: P'un ai'r ysgol yw'r dewis cyntaf: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

Drwy ddadansoddi is-grwpiau o fewn y data, gellir gweld bod gwahaniaethau'n bodoli o ran y gallu i gael gafael ar ddewisiadau cyntaf o ysgol yn seiliedig ar ddemograffeg bersonol myfyrwyr.

- Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddweud nad oeddent wedi ystyried unrhyw opsiwn arall (21% ac 16% yn y drefn honno), ond roedd merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud nad oeddent yn astudio yn eu dewis cyntaf (8% o gymharu â 5%).
- Dywedodd 72 y cant o'r myfyrwyr gwyn mai'r ysgol yr oeddent yn ei mynychu oedd eu dewis cyntaf o gymharu â 56% o'r myfyrwyr nad oeddent yn wyn (dywedodd 15% o'r myfyrwyr nad oeddent yn wyn nad oedd ganddynt unrhyw ddewis o gymharu â 3% o'r myfyrwyr gwyn).
- Awgryma'r data nad oedd myfyrwyr ag anableddau dysgu wedi ystyried opsiynau eraill ym Mlwyddyn 11 ac roeddent felly'n llai tebygol o gytuno mai eu hysgol oedd y lle yr oeddent am fod yno fwyaf. Roedd pedwar o bob deg myfyriwr ag anabledd dysgu (42%) yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol, o gymharu â bron dri chwarter y myfyrwyr heb anabledd dysgu (72%). Roedd un o bob deg (13%) myfyriwr ag anabled dysgu o'r farn nad oeddent wedi cael dewis o ysgol (o gymharu â dim ond 3% o'r myfyrwyr heb anabledd dysgu), tra nad oedd bron i draean (32%) wedi ystyried opsiwn arall (o gymharu â 18% yn gyffredinol).

- Yn yr un modd, roedd myfyrwyr a oedd yn cael cymorth ychwanegol yn fwy tebygol o gredu nad oedd ganddynt ddewis wrth benderfynu pa ysgol i'w mynychu na myfyrwyr nad oeddent yn cael cymorth ychwanegol (11% o gymharu â 3%).

Tabl 4.3: P'un ai'r ysgol yw'r dewis cyntaf yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd dysgu a chymorth dysgu ychwanegol

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Rhyw | | Ethnigrwydd | | Anabledd dysgu | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|---|----------|-------|-------|-------------|-------------|----------------|---------|--------------------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | Gwyn | Ddim yn wyn | Oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1564 | 160 | 82 | 1629 | 144 | 1569 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1534 | 178 | 92 | 1604 | 153 | 1558 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| le | 69 | 70 | 72 | 72 | 56 | 42 | 72 | 62 | 72 |
| Na, nid fy newis cyntaf | 6 | 5 | 8 | 6 | 9 | 9 | 6 | 4 | 6 |
| Nid oedd gen i ddewis | 4 | 3 | 5 | 3 | 15 | 13 | 3 | 11 | 3 |
| Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall | 18 | 21 | 16 | 19 | 16 | 32 | 18 | 20 | 18 |
| Heb ei nodi | 3 | 2 | 1 | 1 | 3 | 5 | 1 | 4 | 1 |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Efallai y byddem yn disgwyl i fyfyrwyr a oedd yn gallu mynychu eu dewis cyntaf o ysgol fod yn fwy tebygol o gynnal eu gymhelliant, bod yn fodlon ar eu dysgu ac yn llai tebygol o ystyried gadael eu cwrs na'r rheini nad oeddent yn gallu mynychu eu dewis cyntaf o ysgol. Ategir hyn gan y canfyddiadau canlynol tabl 13, Atodiad B):

- Gwelir cydberthynas rhwng y gallu i fynychu ysgol dewis cyntaf ac ystyried opsiynau eraill gyda lefelau cymhelliant ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13:
 - roedd myfyrwyr a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant yn fwy tebygol o fod yn astudio yn eu hysgol dewis cyntaf (74% a 78% yn y drefn honno) na'r rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl (60% a 39% yn y drefn honno).
 - roedd myfyrwyr nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl yn llawer mwy tebygol o deimlo nad oeddent wedi cael dewis o ysgolion (16% o gymharu â 4% o fyfyrwyr yn gyffredinol).
 - nid oedd chwarter y myfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant wedi ystyried opsiwn arall (25%), o gymharu â thua un o bob chwech a oedd â llawer o gymhelliant (16%) neu rywfaint o gymhelliant (16%)

- Gwelir cydberthynas rhwng y gallu i fynychu ysgol dewis cyntaf ac ystyried opsiynau eraill gyda boddhad â'r addysgu ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13.
 - Roedd myfyrwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr addysgu yn llawer mwy tebygol na myfyrwyr yn gyffredinol o fod yn eu hysgol dewis cyntaf (81%, 78% a 69% yn y drefn honno).
 - At hynny, roedd y myfyrwyr hynny **nad** oeddent yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn hefyd yn fwy tebygol o **beidio** â bod wedi ystyried opsiwn arall na'r rheini a **oedd** yn fodlon iawn neu'n hynod fodlon (28% o'r rheini nad oeddent yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o gymharu â 15% o'r myfyrwyr a oedd yn fodlon iawn a dim ond 8% o'r myfyrwyr a oedd yn hynod fodlon).
 - Roedd myfyrwyr a oedd yn anfodlon ag ansawdd yr addysgu yn gyffredinol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o deimlo nad oeddent wedi cael dewis o ysgol (13% o'r rheini a oedd yn anfodlon o gymharu â 4% yn gyffredinol).
- Gwelir cydberthynas rhwng y gallu i fynychu ysgol dewis cyntaf ac ystyried opsiynau eraill gydag ystyried gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13.
 - Roedd myfyrwyr a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol yn llai tebygol o fod yn eu dewis cyntaf o ysgol (60%) o gymharu â 76% nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol.
 - Roedd y rheini a oedd wedi ystyried gadael hefyd yn fwy tebygol o beidio â bod wedi ystyried opsiwn arall (22% o gymharu ag 16% nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol).

Pan ddadansoddwyd y canlyniadau yn ôl lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd 77% o'r myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi nodi eu bod yn eu dewis cyntaf o ysgol o gymharu â 64% o'r myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan 10% neu fwy o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

I gloi, roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ddweud eu bod yn mynychu eu hysgol dewis cyntaf (77% a 68% yn y drefn honno).

Tabl 4.4: P'un ai'r ysgol yw'r dewis cyntaf yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|---|----------|---------------|---------|---|--------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15% a throsodd | 10-15% | Llai na 10% |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 | 660 | 410 | 712 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 | 729 | 325 | 729 |
| | % | % | % | % | % | % |
| le | 69 | 77 | 68 | 64 | 65 | 77 |
| Na, nid fy newis cyntaf | 6 | 4 | 7 | 8 | 8 | 4 |
| Nid oedd gen i ddewis | 4 | 2 | 4 | 6 | 5 | 2 |
| Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall | 18 | 15 | 19 | 19 | 21 | 15 |
| Heb ei nodi | 3 | 3 | 3 | 4 | 1 | 2 |

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Yn 2004 dywedodd 72% eu bod wedi sicrhau eu dewis cyntaf o ysgol, dywedodd 7% nad oedd ganddynt unrhyw ddewis, dywedodd 3% nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ac nid oedd 18% wedi ystyried opsiwn arall. Yn 2008 roedd nifer sylweddol fwy o ddysgwyr o'r farn nad oedd ganddynt unrhyw ddewis (5% yn 2008 o gymharu â 3% yn 2004).

4.2.3 Dewis cyntaf o gwrs


Yn ogystal â gofyn p'un a oeddent yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol, gofynnwyd i bob myfyriwr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 p'un a oeddent yn astudio'r pynciau a'r cymwysterau yr oeddent am eu gwneud fwyaf, gan ddewis o blith y canlyniadau canlynol:

- le, fy newis cyntaf
- Na, nid fy newis cyntaf

- Nid oedd gen i ddewis
- Ni feddyliais am opsiwn arall

Dyweddod bron bedair rhan o bump o'r myfyrwyr (77%) eu bod yn astudio'r pynciau a'r cymwysterau yr oeddent am eu gwneud fwyaf. Fodd bynnag, dywedodd tua un o bob chwech myfyriwr (16%) nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc neu gymhwyster. Teimlodd 1% arall nad oedd ganddynt ddewis, ac ni ystyriodd 3% unrhyw opsiynau eraill.

Siart 4.3: P'un ai'r pynciau a'r cymwysterau yw'r dewis cyntaf: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

Er nad oedd unrhyw wahaniaethau o ran gallu myfyrwyr i astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau yn ôl presenoldeb neu absenoldeb anabledd dysgu, roedd rhai grwpiau o fyfyrwyr naill ai'n fwy tebygol neu lai o allu sicrhau eu dewisiadau cyntaf:

- Nid oedd bron hanner yr holl fyfyrwyr (45%) nad oeddent yn mynychu eu hysgol dewis cyntaf yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau ychwaith. Roedd hyn yn cymharu â dim ond 13% o'r myfyrwyr a oedd yn mynychu eu ysgol dewis cyntaf.
- Roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn astudio'r pynciau o'u dewis o gymharu â'r rheini o Flwyddyn 12 (84% o gymharu â 76%).

- Roedd myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod yn astudio eu dewisiadau cyntaf o bynciau a chymwysterau (73% o gymharu ag 80%).
- Er nad oedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o fod yn mynychu ei dewis cyntaf o ysgol, roeddent yn fwy tebygol o ddweud *nad* oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc/cymwysterau (18% o gymharu â 14% o fechgyn).

Tabl 4.5: P'un a yw pynciau a chymwysterau'n ddewis cyntaf yn ôl rhyw, blwyddyn ac ethnigrwydd

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Ethnigrwydd | |
|---|----------|-------|-------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| | | Gwryw | Benyw | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Gwyn | Ddim yn wyn |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1033 | 700 | 1564 | 160 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1024 | 703 | 1534 | 178 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Ie, fy newis cyntaf | 78 | 80 | 78 | 76 | 84 | 80 | 73 |
| Na, nid fy newis cyntaf | 16 | 14 | 18 | 18 | 13 | 15 | 21 |
| Nid oedd gen i ddewis | 1 | 1 | 1 | 1 | * | 1 | 1 |
| Ni feddyliais am opsiynau eraill | 3 | 4 | 2 | 3 | 3 | 3 | 5 |
| Heb ei nodi | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

Noder: mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

Yn yr un modd â'r gydberthynas rhwng y gallu i fynychu dewis cyntaf o ysgol a ddisgrifir yn adran 4.2.2, mae'r gallu i astudio dewis cyntaf o gwrs/pwnc yn effeithio ar brofiad dysgu myfyrwyr yn y pen draw (tabl 14, Atodiad B):

- Gwelir cydberthynas rhwng y gallu i astudio dewis cyntaf o bynciau/cymwysterau a lefelau cymhelliant ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13:
 - Roedd myfyrwyr a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant hefyd yn fwy tebygol o fod yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau (86% ac 82% yn y drefn honno) na'r rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl (72% a 60% yn y drefn honno).

- Gwelir cydberthynas rhwng gallu myfyrwyr i astudio eu dewis cyntaf o bynciau/cymwysterau a lefelau boddhad â'r addysgu ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13:
 - Roedd myfyrwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr addysgu hefyd yn fwy tebygol na myfyrwyr yn gyffredinol o fod yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs (88% ac 86% yn y drefn honno o gymharu â 78% o'r myfyrwyr yn gyffredinol).
- Gwelir cydberthynas rhwng gallu myfyrwyr i astudio eu dewis cyntaf o bynciau/cymwysterau a nifer y myfyrwyr sy'n ystyried gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13:
 - Roedd myfyrwyr a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol yn llai tebygol o fod yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau (70%) na'r rheini nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol (85%).
 - Fel gyda dewis cyntaf o ysgol, roedd myfyrwyr a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol hefyd yn fwy tebygol o beidio â bod wedi ystyried opsiynau eraill (5%) na'r rheini nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol (1%).

Yn galonogol, ni welwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl newidynnau yn ymwneud â demograffeg yr ysgol, fel maint y grŵp blwyddyn a p'un a oedd yr ysgol yn un cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Gwelwyd eithriad i hyn mewn perthynas â chanran y myfyrwyr a oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim - roedd 80% o'r myfyrwyr mewn ysgolion lle'r oedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim yn astudio eu dewisiadau cyntaf o gymharu â 75% o'r rheini lle'r oedd gan fwy na 15% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Gwelwyd gwahaniaeth bach ond sylweddol wrth gymharu'r canlyniadau â data 2004, sef bod llai o fyfyrwyr yn 2008 wedi dweud eu bod wedi sicrhau eu dewis cyntaf o bynciau/cymwysterau (16% o gymharu â 19% yn 2004).

4.2.4 Rhesymau dros beidio ag astudio dewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau

Gofynnwyd i bob myfyriwr a ddywedodd nad oedd yn astudio ei ddewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau ar hyn o bryd pam nad oedd yn gwneud hynny. Cynigiwyd rhestr o atebion posibl iddynt a gallent ddewis cymaint neu gyn lleied ag y dymument a hefyd gofnodi unrhyw resymau eraill nad oeddent ar y rhestr.

Nid oedd ychydig dros hanner y myfyrwyr yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau am na allent eu cynnwys yn eu hamserlenni (53%), a dywedodd chwarter ohonynt nad oedd eu hysgol nac ysgolion lleol yn darparu'r cyrsiau roeddent am eu hastudio. Roedd 13 y cant o'r myfyrwyr wedi'u cynghori gan eu hathrawon i beidio â dilyn eu dewis cyntaf, tra nad oedd llai nag un o bob deg am deithio i'r man lle'r oedd eu dewis cyntaf yn cael ei gynnig (7%) neu roedd eu dewis cyntaf yn llawn (hefyd 7%).

Dengys gwaith dadansoddi yn ôl amryw is-grŵp o fewn y data y canlynol:

- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o roi'r rheswm nad oedd eu hysgol neu ysgolion lleol yn darparu'r cymwysterau neu bynciau yr oeddent am eu dilyn (32% o gymharu â 17%).
- I'r gwrthwyneb, roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod wedi'u cynghori i beidio â dilyn eu dewis cyntaf gan athrawon (20% o gymharu ag 8% o'r merched).
- O'r myfyrwyr hynny ym Mlwyddyn 13 nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf, i ddwy ran o dair (67%) y rheswm am hynny oedd nad oeddent yn cyd-fynd â'u hamserlenni. Rhoddodd llai na hanner y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf (47%) yr un rheswm.

Tabl 4.6: Rhesymau dros beidio ag astudio'r pynciau a'r cymwysterau a oedd yn ddewis cyntaf yn ôl rhyw a blwyddyn

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | |
|--|----------|-------|-------|-------------|-------------|
| | | Gwryw | Benyw | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
| Sylfaen: Pob ymatebydd nad oedd yn astudio ei ddewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 301 | 116 | 176 | 194 | 97 |
| Wedi ei phwysoli | 286 | 111 | 166 | 188 | 88 |
| | % | % | % | % | % |
| Nid oedd y cymhwyster/cymwysterau neu bwnc/pynciau yn addas ar gyfer fy amserlen | 53 | 59 | 49 | 47 | 67 |
| Nid yw'r ysgol / ysgolion lleol yn darparu'r cymhwyster/cymwysterau neu'r pwnc/pynciau yr oeddwn am eu dilyn | 26 | 17 | 32 | 29 | 20 |
| Fe'm cynghorwyd gan athro i beidio â chymryd y dewis(iadau) cyntaf | 13 | 20 | 8 | 11 | 16 |
| Nid oeddwn eisieu teithio i'r lle y cynhaliwyd y cwrs | 7 | 5 | 9 | 8 | 5 |
| Roedd fy newis cyntaf o bwnc/cymhwyster eisoes yn llawn | 7 | 8 | 6 | 8 | 4 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3 | 0 | 2 | 0 |
| Heb ei nodi | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |

Noder: dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl. Mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Roedd nifer o wahaniaethau sylweddol rhwng y rhesymau a roddwyd gan fyfyrwyr am fethu ag astudio eu dewis cyntaf o bwnc neu gymhwyster yn dibynnu ar gyfrwng iaith, fel a ganlyn:

- Mae ateb y galw am bynciau/cymwysterau yn fwy o broblem i rai myfyrwyr nac eraill: o ran 'nid yw'r ysgol / ysgolion lleol yn darparu'r cymhwyster/cymwysterau neu'r pwnc/pynciau yr oeddwn am eu dilyn', nododd 43% o'r myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyn fel rheswm dros beidio ag astudio eu dewis cyntaf o bwnc neu gymhwyster o gymharu â 23% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- dywedodd 15% o'r myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg 'fe'm cynghorwyd gan athro i beidio â chymryd y dewis(iadau) cyntaf' mewn rhai mathau o ysgolion o gymharu â 4% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Tabl 4.7: Rhesymau dros beidio ag astudio'r pynciau neu'r cymwysterau a oedd yn ddewis cyntaf yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

| | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | |
|--|----------|---------------|---------|
| | | Cymraeg | Saesneg |
| Sylfaen: Pob ymatebydd nad oedd yn astudio ei ddewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | |
| Heb ei phwysoli | 301 | 53 | 248 |
| Wedi ei phwysoli | 286 | 40 | 246 |
| | % | % | % |
| Nid oedd y cymhwyster/cymwysterau neu bwnc/pynciau yn addas ar gyfer fy amserlen | 53 | 47 | 54 |
| Nid yw'r ysgol / ysgolion lleol yn darparu'r cymhwyster/cymwysterau neu'r pwnc/pynciau yr oeddwn am eu dilyn | 26 | 43 | 23 |
| Fe'm cynghorwyd gan athro i beidio â chymryd y dewis(iadau) cyntaf | 13 | 4 | 15 |
| Nid oeddwn eisieu teithio i'r lle y cynhaliwyd y cwrs | 7 | 9 | 7 |
| Roedd fy newis cyntaf o bwnc/cymhwyster eisoes yn llawn | 7 | 7 | 6 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 0 | 1 |
| Heb ei nodi | 1 | 3 | * |

Noder: dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 2% yn y tabl. Mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn. Yn y tabl mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

4.2.5 Crynodeb

Yn gyffredinol caiff myfyrwyr sy'n dechrau Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 nifer fwy o ddewisiadau nac ar gamau blaenorol o'u haddysg, o ran eu man astudio (er enghraifft, ysgol neu goleg chweched dosbarth) a'r cymwysterau y maent yn eu dilyn.

Pan ofynnwyd am eu rhesymau dros fynychu Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn eu hysgol bresennol, dywedodd y mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr (85%) eu bod eisoes yn mynychu'r un ysgol. Mae cynnydd naturiol o fewn yr un amgylchedd ysgol wrth gwrs yn allweddol ac mae cynnal cysylltiadau cymdeithasol yn rhan o hyn: dywedodd ychydig dros hanner (52%) y myfyrwyr eu bod yn mynychu'r ysgol am fod eu ffrindiau yn mynd yno. Dewisodd cyfrannau tebyg fynychu eu chweched

dosbarth am ei fod yn cynnig y cwrs yr oeddent am ei ddilyn (51%) neu oherwydd ei fod mewn man cyfleus (51%).

Yn ddiddorol, roedd myfyrwyr â'r lefelau uchaf o gymhelliant yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu hysgol am ei bod yn cynnig y cwrs neu'r pynciau roeddent am eu hastudio ac am fod ganddi enw da. Roedd hyn yr un fath ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddangosodd y lefelau uchaf o foddhad â'r addysgu yn eu hysgolion.

Dywedodd 69% o'r disgyblion eu bod yn mynychu eu hysgol dewis cyntaf, er nad oedd 18% wedi ystyried opsiwn arall mewn gwirionedd. O'r gweddill, nid oedd 6% o'r myfyrwyr yn mynychu eu hysgol dewis cyntaf a theimlodd 4% arall nad oeddent wedi cael dewis o ran ysgol.

Roedd nifer o is-grwpiau o fyfyrwyr a ymddangosai'n llai tebygol o fod yn mynychu eu hysgolion dewis cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- grwpiau lleiafrifoedd ethnig (56% o gymharu â 72% o fyfyrwyr gwyn)
- myfyrwyr ag anabledd dysgu (42% o gymharu â 72% o'r myfyrwyr heb anabledd dysgu).

Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr a oedd â mwy o gymhelliant, yn fwy bodlon ac yn llai tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol yn fwy tebygol o astudio yn eu hysgol dewis cyntaf. Roedd y rheini nad oeddent yn ystyried opsiynau eraill neu nad oeddent wedi sicrhau eu dewis cyntaf yn llai bodlon o lawer ac roedd ganddynt lai o gymhelliant. Gwelwyd y duedd hon eto o ran p'un a oedd myfyrwyr yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau ai peidio. O ran cynnwys myfyrwyr a chynnal lefelau da o ymgysylltu, mae hyn yn ategu pwysigrwydd a) sicrhau bod myfyrwyr yn ystyried dewisiadau a chyfleoedd o ddifrif o ran cynnydd a, b) lle y bo'n bosibl, ateb galw myfyrwyr am gyrsiau penodol.

Yn gyffredinol, roedd bron pedwar o bob pump o fyfyrwyr (78%) yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau. Fodd bynnag, nid oedd 16% yn astudio eu dewisiadau cyntaf. Yn bwysig ddigon, nid oedd bron hanner yr holl fyfyrwyr (45%) nad oeddent yn mynychu eu hysgol dewis cyntaf yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau ychwaith (o gymharu â dim ond 13% o'r myfyrwyr sy'n mynychu eu hysgol dewis cyntaf). Felly, o ran y grŵp hwn, ymddengys bod cryn dipyn o gyfaddawd wedi'i wneud.

Dywedodd hanner y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 Blwyddyn 13 nad oeddent yn gallu astudio eu pynciau a'u cymwysterau dewis cyntaf (53%) mai oherwydd nad oeddent yn cyd-fynd â'u hamserlenni oedd hynny. Roedd y sefyllfa hon yn fwy amlwg ymhlith myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 (67%) na'u cymheiriaid ym Mlwyddyn 12 (47%). Er i chwarter y myfyrwyr nad oeddent yn gallu astudio eu dewisiadau cyntaf ddweud nad oedd eu hysgol neu ysgolion lleol yn cynnig y cymwysterau neu'r pynciau roeddent am eu hastudio (26%), roedd hyn yn fwy o broblem i ferched (32%) nag i

fechgyn (17%). Roedd hon hefyd yn broblem fwy cyffredinol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (43% o gymharu â 23% mewn ysgolion cyfrwng Saesneg).


4.3 Cymhelliant/problemau

Mae'r adran hon yn ystyried:

- lefelau cymhelliant ymhlith myfyrwyr chweched dosbarth mewn perthynas â'u hastudiaethau
- unrhyw broblemau a gafwyd ers dechrau yn y flwyddyn ysgol gyfredol
- p'un a yw myfyrwyr erioed wedi ystyried gadael yr ysgol o ddifrif ers dechrau Blwyddyn 12.

4.3.1 Lefelau Cymhelliant Cyffredinol

Yn galonogol, dywedodd tua dwy ran o dair o'r myfyrwyr fod ganddynt rywffaint neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau (68%), er mai rhywfaint o gymhelliant (52%), yn hytrach na llawer o gymhelliant (15%), oedd gan y mwyafrif o'r grŵp hwn. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif sylweddol nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant (22%) a dywedodd 5% nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl.

Siart 4.4: Lefelau cymhelliant: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

Er gwaetha'r duedd ddiweddar bod merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn arholiadau safon Uwch, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod gan ferched fwy o gymhelliant yn eu hastudiaethau na bechgyn. Dywedodd 67% o'r bechgyn a 71% o'r merched fod ganddynt rywffaint neu lawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau, ac nid oedd hynny'n wahaniaeth sylweddol o ran ystadegau. Pan rennir y gyfradd gadarnhaol (h.y. drwy gyfuno ymatebion i lawer/rhywfaint o gymhelliant) nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y grwpiau blwyddyn ond dylid nodi bod myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt lawer o gymhelliant na'r rheini ym Mlwyddyn 12 (20% o gymharu â 13%).

Roedd gwahaniaethau clir o ran lefelau cyffredinol o gymhelliant a chefnidir ethnig. Roedd y rheini o gefndiroedd ethnig gwyn yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt rywffaint neu lawer o gymhelliant na'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (70% o gymharu â 58% o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig).

Roedd y rheini heb anabledd dysgu yn fwy tebygol o fod â llawer neu rywffaint o gymhelliant na'r rheini ag anabledd dysgu (70% o gymharu â 58%). Yn galonogol, fodd bynnag, roedd y myfyrwyr hynny a oedd yn cael cymorth rheolaidd ychwanegol yn yr ysgol i'w helpu gyda'u dysgu yn fwy tebygol o fod â llawer o gymhelliant na'r rheini nad oeddent yn cael cymorth (24% o gymharu â 15% o'r rheini nad oeddent yn cael cymorth ychwanegol).

Tabl 4.8: Lefelau cymhelliant yn ôl blwyddyn, ethnigrwydd, anabledd dysgu a chymorth dysgu ychwanegol

| | Cyfanswm | Blwyddyn | | Ethnigrwydd | | Anabledd dysgu | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|---|----------|----------|-----|-------------|-------------|----------------|---------|--------------------------|-------|
| | | 12 | 13 | Gwyn | Ddim yn wyn | Oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | 12 | 13 | Gwyn | Ddim yn wyn | Oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 1033 | 700 | 1564 | 160 | 82 | 1629 | 144 | 1569 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 1024 | 703 | 1534 | 178 | 92 | 1604 | 153 | 1558 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Llawer o gymhelliant | 15 | 13 | 20 | 16 | 13 | 20 | 15 | 24 | 15 |
| Rhywfaint o gymhelliant | 52 | 56 | 50 | 55 | 45 | 37 | 54 | 51 | 53 |
| Dim llawer o gymhelliant | 22 | 23 | 23 | 23 | 27 | 28 | 23 | 16 | 24 |
| Dim cymhelliant o gwbl | 5 | 5 | 4 | 4 | 7 | 6 | 5 | 3 | 5 |
| Ansicr | 1 | 1 | 1 | 1 | 3 | 5 | 1 | 3 | 1 |
| Heb ei nodi | 5 | 3 | 2 | 2 | 6 | 4 | 2 | 5 | 2 |
| Llawer/ Rhywfaint o gymhelliant | 68 | 69 | 70 | 70 | 58 | 58 | 70 | 74 | 68 |
| Dim llawer o gymhelliant/dim cymhelliant o gwbl | 27 | 28 | 27 | 27 | 34 | 34 | 28 | 18 | 29 |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Cafodd dewis ysgol a chwrs effaith fawr ar gymhelliant. Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol yn fwy tebygol o fod â llawer o gymhelliant neu rywfaint o gymhelliant (75%) na'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny (43%), y rheini na chawsant ddewis (41%), neu'r rheini a ddywedodd nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall (59%). Cafwyd patrwm tebyg hefyd ar gyfer y rheini oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs (tabl 15, Atodiad B).

Roedd cydberthynas gref hefyd rhwng lefelau cymhelliant a boddhad myfyrwyr â'u profiad dysgu yn y chweched dosbarth. Nododd 93% o fyfyrwyr a oedd yn hynod fodlon ac 88% o fyfyrwyr a oedd yn fodlon iawn fod ganddynt llawer neu rywfaint o gymhelliant o gymharu ag 14% o'r rheini a oedd yn anfodlon.

Efallai nad yw'n syndod y gellir cysylltu lefel cymhelliant myfyrwyr â'r tebygolrwydd y byddant yn gadael yr ysgol. Nododd 82% o fyfyrwyr nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol bod ganddynt llawer neu rywfaint o gymhelliant yn eu hastudiaethau. I'r gwrthwyneb dim ond 16% o fyfyrwyr *nad* oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol ers dechrau ym Mlwyddyn 12, a nododd nad oedd ganddynt llawer o gymhelliant neu nad oedd ganddynt gymhelliant o gwbl. (Tabl 16, Atodiad B).

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn y lefelau cymhelliant yn ôl demograffeg yr ysgol:

- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o beidio â chael llawer o gymhelliant neu beidio â chael unrhyw gymhelliant o gwbl (28%) yn eu hastudiaethau na myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg (21%). Fodd bynnag, nid oedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo bod ganddynt lawer o gymhelliant neu rywfaint o gymhelliant na myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (72% a 67% yn y drefn honno).
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion lle'r oedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o gael llawer neu rywfaint o gymhelliant na myfyrwyr mewn ysgolion lle'r oedd gan fwy na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau am ddim (73% yn erbyn 63% neu lai).

Tabl 4.9: Lefel cymhelliant yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|---|----------|---------------|---------|---|----------------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15+ | 10% hyd at 15% | Llai na 10% |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 | 660 | 410 | 712 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 | 729 | 325 | 729 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Llawer o gymhelliant | 15 | 16 | 15 | 17 | 12 | 15 |
| Rhywfaint o gymhelliant | 52 | 57 | 51 | 49 | 49 | 58 |
| Dim llawer o gymhelliant | 22 | 18 | 24 | 23 | 29 | 19 |
| Dim cymhelliant o gwbl | 5 | 3 | 5 | 5 | 5 | 4 |
| Ansicr | 1 | 0 | 1 | 2 | 1 | * |
| Heb ei nodi | 5 | 7 | 4 | 5 | 5 | 4 |
| Llawer/Rhywfaint o gymhelliant | 68 | 72 | 67 | 65 | 60 | 73 |
| Dim llawer o gymhelliant/dim cymhelliant o gwbl | 27 | 21 | 28 | 28 | 34 | 23 |

Noder: mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Roedd gan lawer llai o ymatebwyr yn 2008 rywfaint/llawer o gymhelliant yn eu hastudiaethau o gymharu â phedair blynedd yn ôl (68% yn 2008 o gymharu â 71% yn 2004).

4.3.2 Problemau a gafwyd

Y broblem fwyaf yr oedd myfyrwyr wedi'i chael ers dechrau eu blwyddyn ysgol bresennol oedd cynnal eu cymhelliant personol, a nodwyd hyn gan bron i hanner (48%) yr holl ddisgyblion. Dywedodd un rhan o dair (33%) eu bod wedi cael trafferth ymdopi â safon y gwaith yr oedd ei hangen a dywedodd un o bob pump (20%) eu bod wedi cael problemau gydag aelod o staff. Nododd tua un o bob deg o fyfyrwyr hefyd eu bod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (11%) ac na chawsant y cymorth ychwanegol a addawyd iddynt (9%). Dywedodd tua un o bob saith o fyfyrwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau yn eu blwyddyn ysgol bresennol (15%).

Ychydig iawn o wahaniaethau a welwyd rhwng myfyrwyr sy'n fechgyn a merched o ran y mathau o broblemau a gawsant. Yr unig eithriad i hyn oedd bod merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (14% o gymharu â 9%).

Roedd rhai gwahaniaethau amlwg mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol academaidd. Roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 yn fwy tebygol na myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 o ddweud eu bod wedi:

- cael problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (24% o gymharu â 17%)
- problemau o unrhyw fath gyda myfyrwyr eraill (14% o gymharu â 9%)
- cymorth ychwanegol a addawyd iddynt heb ei ddarparu (11% o gymharu â 8%).

I'r gwrthwyneb, roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 yn fwy tebygol na myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 o ddweud eu bod wedi cael trafferth ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (36% o gymharu â 30%). Efallai y gellir disgwyl hyn, oherwydd y byddai'r mwyafrif o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12 yn dechrau ar gwrs a chynnwys cwricwlwm newydd.

Yn ogystal, roedd cysylltiad clir rhwng myfyrwyr ag anabledd dysgu, a'r broblem o ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen: cytunodd 46% o fyfyrwyr ag anabledd dysgu fod hyn wedi bod yn broblem iddynt o gymharu â dim ond un rhan o dair o

fyfyrwyr sydd heb anabledd dysgu (33%). Roedd myfyrwyr ag anabledd dysgu hefyd ddwywaith yn fwy tebygol na myfyrwyr heb anabledd dysgu (21% o gymharu â 9%) o ddweud na chawsant y cymorth ychwanegol a addawyd iddynt. Ymysg y rheini a gafodd gymorth ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth, dywedodd bron i un o bob pump (18%) eu bod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill. Mae hyn mewn cyferbyniad â thua un o bob deg (11%) o'r myfyrwyr na chawsant gymorth ychwanegol.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn yr ystadegau yn ôl cefndir ethnig ar gyfer unrhyw broblem a gafodd myfyrwyr ers dechrau'r flwyddyn ysgol.

Tabl 4.10: Problemau a gafwyd yn ôl rhyw, blwyddyn, anabledd dysgu a chymorth dysgu ychwanegol

| | Cyfanswm | Rhyw | | Blwyddyn | | Anabledd dysgu | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|---|----------|-------|-------|----------|-----|----------------|---------|--------------------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | 12 | 13 | Oes | Nac oes | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1033 | 700 | 82 | 1629 | 144 | 1569 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1024 | 703 | 92 | 1604 | 153 | 1558 |
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 48 | 52 | 48 | 48 | 51 | 49 | 50 | 39 | 51 |
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 33 | 32 | 36 | 36 | 30 | 46 | 33 | 41 | 33 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelodau o staff | 20 | 19 | 21 | 17 | 24 | 30 | 20 | 19 | 20 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 11 | 9 | 14 | 9 | 14 | 17 | 11 | 18 | 11 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 9 | 8 | 11 | 8 | 11 | 21 | 9 | 11 | 9 |
| Teithio i'r ysgol hon | 7 | 8 | 6 | 7 | 6 | 13 | 6 | 8 | 7 |
| Dim problemau | 15 | 16 | 15 | 16 | 15 | 7 | 16 | 10 | 16 |
| Heb ei nodi | 13 | 12 | 10 | 11 | 10 | 6 | 11 | 12 | 11 |

Noder: dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 3% yn y tabl. Mae rhai meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Roedd y rheini a ddywedodd nad oeddent yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau gydag aelod o staff na'r rheini a oedd yn astudio yn eu hysgol ddewisol (30% a 17% yn y drefn honno), roeddent yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (19% yn erbyn 10%) ac o ddweud nad oedd y cymorth ychwanegol a addawyd iddynt wedi'i ddarparu (21% a 7% yn y drefn honno) Nododd 21 y cant o'r plant a ddywedodd nad oeddent wedi

cael dewis o ysgol nad oeddent wedi cael cymorth ychwanegol (o gymharu â dim ond 7% a oedd yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol).

Roedd cysylltiad clir hefyd rhwng p'un a oedd myfyriwr yn astudio ei ddewis cyntaf o bwnc a'i debygolrwydd o gael problemau penodol (tabl 18, Atodiad B). Roedd y rheini a ddywedodd nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs yn fwy tebygol na'r rheini a oedd yn gwneud hynny o gael:

- problemau'n cynnal eu cymhelliant personol (60% o'r rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs o gymharu â 47% o'r rheini a oedd yn gwneud hynny)
- problemau'n ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (39% o gymharu â 32%)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (25% o gymharu â 19%).

Roedd myfyrwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael yr anawsterau canlynol na'r rheini a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant:

- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (59% o gymharu â 18% a 45% yn y drefn honno)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (33% o gymharu â 18% a 18% yn y drefn honno)
- peidio â chael y cymorth ychwanegol a addawyd i chi (25% o gymharu â 6% a 9% yn y drefn honno)

Yn yr un modd, roedd y rheini a oedd yn anfodlon ar eu profiad dysgu yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywfaint o broblemau na'r rheini a oedd yn fodlon, fel a ganlyn (tabl 19, Atodiad B)⁵:

- cynnal eu cymhelliant personol (roedd 78% o'r rheini a oedd yn anfodlon wedi cael y broblem hon o gymharu â 22% a oedd yn fodlon iawn, 37% a oedd yn hynod fodlon a 58% a oedd yn eithaf bodlon)
- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (62% o gymharu â 21%, 27% a 37% yn y drefn honno)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (43% o gymharu â 10%, 13%, a 23% yn y drefn honno)

⁵ Noder bod rhai meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, felly dylid bod yn ofalus wrth ddarllen ystyried y canlyniadau hyn.

- peidio â chael cymorth ychwanegol a addawyd i chi (26% o gymharu â 6%, 5% a 10% yn y drefn honno).

Roedd myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau'n cynnal eu cymhelliant personol (52%) na myfyrwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (34%) ac o fod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (12% o gymharu â 7% o'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o nodi problemau o ran teithio i'r ysgol (8% yn erbyn 2% yn y drefn honno).

Roedd cysylltiad clir rhwng maint grŵp blwyddyn a thebygolrwydd myfyriwr o fod wedi cael problemau'n cynnal ei gymhelliant personol. Roedd o leiaf 53% o'r myfyrwyr mewn ysgolion â 151 o ddisgyblion neu fwy ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 wedi ei chael yn anodd cynnal eu cymhelliant personol. I'r gwrthwyneb, roedd 40% o'r myfyrwyr mewn ysgolion â rhwng 101 a 150 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 a 33% o'r rheini mewn ysgolion â 100 o ddisgyblion neu lai yn y grwpiau blwyddyn hyn wedi cael y broblem hon.

Roedd myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan 10% neu fwy o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau gyda myfyrwyr eraill (o leiaf 12%) na'r myfyrwyr hynny mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim (dim ond 7% o'r myfyrwyr hyn oedd wedi cael problem o'r fath).

Tabl 4.11: Problemau a gafwyd yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|---|----------|---------------|---------|---|-----------------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15% a throsodd | Rhwng 10% a 15% | Llai na 10% |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 | 660 | 410 | 712 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 | 729 | 325 | 729 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 48 | 34 | 52 | 44 | 54 | 51 |
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 33 | 32 | 34 | 35 | 37 | 30 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 20 | 16 | 20 | 21 | 19 | 19 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 11 | 7 | 12 | 15 | 12 | 7 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 9 | 7 | 10 | 10 | 11 | 7 |
| Teithio i'r ysgol hon | 7 | 2 | 8 | 7 | 6 | 7 |
| Dim problemau | 15 | 20 | 14 | 15 | 16 | 15 |
| Heb ei nodi | 13 | 18 | 12 | 12 | 8 | 15 |

Noder; dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 3% yn y tabl.

Tabl 4.12: Problemau a gafwyd yn ôl nifer y myfyrwyr mewn grŵp blwyddyn

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Nifer y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | |
|---|----------|---|---------|---------|---------|------|
| | | Hyd at 100 | 101-150 | 151-200 | 201-250 | 251+ |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 130 | 408 | 484 | 298 | 462 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 200 | 422 | 417 | 331 | 414 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Cynnal eich cymhelliant personol | 48 | 33 | 40 | 53 | 55 | 54 |

| | | | | | | |
|--|----|----|----|----|----|----|
| Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen | 33 | 29 | 29 | 37 | 36 | 34 |
| Problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff | 20 | 17 | 22 | 18 | 21 | 20 |
| Problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill | 11 | 16 | 11 | 12 | 11 | 8 |
| Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu | 9 | 8 | 9 | 12 | 9 | 7 |
| Teithio i'r ysgol hon | 7 | 5 | 6 | 5 | 8 | 8 |
| Dim problemau | 15 | 11 | 18 | 16 | 11 | 17 |
| Heb ei nodi | 13 | 21 | 14 | 11 | 10 | 12 |

Noder: dangosir pob rheswm a nodwyd gan fwy na 3% yn y tabl.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

O gymharu â 2004, dywedodd cryn dipyn yn llai o ymatebwyr yn 2008 nad oeddent wedi cael problemau o gwbl (20% yn 2004 o gymharu â 15% yn 2008). Er bod llai o ymatebwyr yn 2008 nag yn 2004 wedi nodi problemau gydag aelodau o staff (20% o gymharu â 24%) a/neu fyfyrwyr eraill (11% o gymharu â 13%), cytunodd mwy ohonynt fod ganddynt broblemau o ran y ffaith nad oeddent yn cael y cymorth ychwanegol a addawyd iddynt (9% o gymharu â 7% yn 2004).

4.3.3 Rhoi ystyriaeth i adael yr ysgol

Er nad oedd y mwyafrif o'r myfyrwyr (56%) wedi ystyried gadael yr ysgol ers iddynt ddechrau ym Mlwyddyn 12, dywedodd traean (32%) o'r myfyrwyr eu bod wedi ystyried gadael o ddifrif.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau o ran rhyw nac ethnigrwydd ymhlith y rheini a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol. Roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi ystyried gadael na myfyrwyr Blwyddyn 12 (63% o gymharu â 54%) ac roedd gwahaniaeth amlwg rhwng y rheini ag anabledd dysgu a hebdo. Dywedodd dros hanner (56%) y rheini ag anabledd dysgu eu bod wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â thua traean o'r rheini nad oedd ganddynt anabledd dysgu (31%).

Tabl 4.13: Rhoi ystyriaeth i adael yr ysgol yn ôl blwyddyn ac anabledd dysgu

| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | Blwyddyn | | Anabledd dysgu | |
|--|----------|-------------|-------------|----------------|---------|
| | | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Oes | Nac oes |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 1033 | 700 | 82 | 1629 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 1024 | 703 | 92 | 1604 |
| | % | % | % | % | % |
| Do | 32 | 34 | 30 | 56 | 31 |
| Naddo | 56 | 54 | 63 | 28 | 60 |
| Ddim yn gwybod | 9 | 11 | 7 | 16 | 9 |
| Heb ei nodi | 3 | * | * | 0 | * |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, a dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn. Yn y tabl mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

O ran cymwysterau, roedd y rheini a oedd yn astudio TGAU a chymwysterau galwedigaeth yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol na'r rheini a oedd yn astudio Safon Uwch (roedd 47% o'r rheini a oedd yn astudio TGAU a 56% o'r rheini a oedd yn astudio cymwysterau galwedigaethol wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â dim ond 31% o'r myfyrwyr a oedd yn astudio Safon Uwch). (Gweler tabl 20, Atodiad B).

Roedd y rheini nad oeddent wedi cael astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol (tabl 21, Atodiad B). Roedd tair rhan o bump (58%) o'r rheini nad oeddent yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â dim ond 27% o'r rheini a oedd yn astudio yn eu dewis cyntaf. Roedd patrwm tebyg i'w weld hefyd mewn perthynas â dewis pynciau. Roedd 45 y cant o'r rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â dim ond 29% o'r rheini a oedd yn astudio eu dewis cyntaf.

Fel y gellid bod wedi rhagweld o bosibl, roedd cyswllt clir rhwng lefelau cymhelliant a'r tebygolrwydd bod myfyrwyr wedi ystyried gadael yr ysgol (tabl 22, Atodiad B). Roedd pedair rhan o bump o'r rheini a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl (82%) a hanner y rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant (50%) wedi ystyried gadael yr ysgol. I'r gwrthwyneb, dim ond un chwarter (24%) o'r rheini a oedd â rhywfaint o gymhelliant a thua un rhan bump (18%) o'r rheini a oedd â llawer o gymhelliant oedd wedi ystyried gadael.

Gellid gweld patrwm unfath bron mewn perthynas â boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Roedd 70 y cant o'r rheini a oedd yn hanfodol ar eu profiad dysgu wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â dim ond 38% o'r rheini a oedd yn eithaf

bodlon, 16% o'r rheini a oedd yn fodlon iawn ac 13% o'r rheini a oedd yn fodlon iawn.

Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi ystyried gadael yr ysgol na'r rheini a oedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (33% o gymharu â 25%).

Roedd cysylltiad clir hefyd rhwng canran y disgyblion a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol a chyfran y disgyblion yn yr ysgol yr oedd ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Dywedodd tua chwarter (24%) y rheini mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r myfyrwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim eu bod wedi ystyried gadael. I'r gwrthwyneb, roedd 34% o'r myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan 10-15% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim a 39% o'r myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan fwy na 15% o'r disgyblion hawl i gael prydau am ddim wedi ystyried gwneud hynny.

Tabl 4.14: Rhoi ystyriaeth i adael yr ysgol yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|---|----------|---------------|---------|---|----------------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | 15+ | 10% hyd at 15% | Llai na 10% |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 | 660 | 410 | 712 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 | 729 | 325 | 729 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Do | 32 | 25 | 33 | 39 | 34 | 24 |
| Naddo | 56 | 62 | 55 | 50 | 54 | 64 |
| Ddim yn gwybod | 9 | 9 | 9 | 9 | 10 | 10 |
| Heb ei nodi | 3 | 5 | 2 | 3 | 3 | 3 |

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Nid oedd canran y dysgwyr a oedd yn ystyried gadael yn gynnar wedi newid llawer yn 2008 o gymharu â 2004.

4.3.4 Crynodeb

Dyweddod y mwyafrif o'r myfyrwyr yng Nghymru fod ganddynt rywfaint o gymhelliant (52%), a hynny'n galonogol, gyda 15% ychwanegol yn dweud bod ganddynt lawer o gymhelliant. Er gwaethaf hyn, dywedodd lleiafrif sylweddol o fyfyrwyr nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl (27%). Er nad oedd unrhyw wahaniaethau o ran rhyw, roedd y rheini a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant yn fwy tebygol o fod yn:

- ymatebwyr o gefndiroedd gwyn (dywedodd 70% fod ganddynt rywfaint neu lawer o gymhelliant o gymharu â 58% o'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig)
- myfyrwyr heb anabledd dysgu (70% o gymharu â 58% o'r rheini ag anabledd dysgu)
- Astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol (75% o gymharu â 43% nad oeddent yn gwneud hynny)
- Astudio eu dewis cyntaf o gwrs (72% o gymharu â 55% nad oeddent yn gwneud hynny)
- Bodlon ar eu profiad dysgu (76% o gymharu â 14% a oedd yn anfodlon).

Cynnal cymhelliant personol oedd y broblem fwyaf cyffredin ymhlith myfyrwyr yn y flwyddyn ysgol gyffredol, a nodwyd gan bron hanner y myfyrwyr yng Nghymru. Yr ail broblem fwyaf cyffredin oedd ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen, a nodwyd gan bron draean o'r myfyrwyr, a dywedodd un rhan o bump o'r myfyrwyr eu bod wedi cael problemau o unrhyw fath gydag aelod arall o staff.

Fel y gobaith, nid oedd y mwyafrif o'r myfyrwyr chweched dosbarth wedi ystyried gadael yr ysgol (56%). Fodd bynnag, roedd traean o'r holl fyfyrwyr yng Nghymru wedi ystyried yr opsiwn hwn (32%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau o ran rhyw nac ethnigrwydd ymhlith y rheini a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol. Fodd bynnag, roedd y rheini ag anabledd dysgu a'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael (dywedodd 56% o'r rheini ag anabledd dysgu eu bod wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â 31% o'r rheini heb unrhyw anabledd dysgu ac roedd 33% o'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi ystyried gadael o gymharu â 25% mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Roedd y rheini nad oeddent wedi cael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol (58%) neu ddewis cyntaf o bwnc (45%) hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael na'r rheini a oedd wedi cael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol neu gwrs (27% a 29% yn y drefn honno).

Drwy gydol y bennod hon, mae lefelau cymhelliant ymhlith myfyrwyr wedi bod yn ffactor allweddol o ran llwyddiant a lles myfyrwyr chweched dosbarth. Roedd myfyrwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl yn eu

hastudiaethau yn fwy tebygol na'r rheini a oedd â llawer neu rywfaint o gymhelliant o ddweud eu bod wedi cael problemau'n ymwneud ag:

- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (59% o gymharu â 18% a 32% yn y drefn honno)
- wedi cael problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (33% o gymharu â 18% a 18% yn y drefn honno)

Roedd y rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant hefyd yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol na'r rheini a oedd â llawer o gymhelliant (roedd 82% o'r rheini a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl a 50% o'r rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant wedi ystyried gadael yr ysgol o gymharu â dim ond 24% o'r rheini a oedd â rhywfaint o gymhelliant a 18% o'r rheini a oedd â llawer o gymhelliant. Felly mae ysgogi myfyrwyr yn allweddol, nid yn unig o ran llwyddiant myfyrwyr, ond hefyd o ran llwyddiant cyffredinol ysgol.

4.4 Boddhad â'r addysgu

4.4.1 Boddhad ag agweddau penodol ar addysgu

Yn yr un modd â'r garfan o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11, cyflwynwyd amrywiaeth o agweddau ar addysgu i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 a gofynnwyd iddynt roi gradd ar gyfer pob un. Ymhlith y mesurau hyn roedd arddulliau addysgu, dulliau cynnwys myfyrwyr a rheoli dysgu. Gofynnwyd iddynt ymateb drwy ddefnyddio graddfa pum pwynt yn amrywio o da iawn i gwael iawn (gyda chanolbwynt).


- Roedd myfyrwyr yn fwy tebygol o roi graddau da iawn ar gyfer y gallu i egluro'r pwnc (33%) a'r cymorth a roddir (technegau astudio/rheoli amser) (31%).
- Rhoddodd rhwng 25% a 30% o'r myfyrwyr raddau da iawn ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau.
- Y ddwy agwedd yr oedd myfyrwyr yn fwy amharod i roi gradd da iawn ar eu cyfer (llai na 25% ym mhob achos) oedd gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr ac eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu (23% a 20% yn y drefn honno).

Fel yn arolwg 2004, roedd myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn fwy parod i roi gradd eithaf da i athrawon (37% ac uwch ar amrywiaeth o fesurau) ac yn fwy parod i roi gradd niwtral 'nid y naill na'r llall' nac ar gyfer cwestiynau eraill ar yr arolwg (cyfartaledd o 20% ar draws y mesurau).

Ceir rhai gwahaniaethau sylweddol mewn ymatebion myfyrwyr yn ôl demograffeg bersonol:

- Roedd y graddau'n is yn gyson ymhlith myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig na'r rheini o gefndiroedd gwyn, ac yn sylweddol is ar gyfer y canlynol: y gallu i egluro'r pwnc, gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr, ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir, ac adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd.
- Roedd nifer y graddau 'da iawn/eithaf da' yn sylweddol uwch ymhlith myfyrwyr a oedd yn cael cymorth ychwanegol yn y dosbarth ar gyfer y mesurau canlynol: gwrando ar eich anghenion, gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr, eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu a'r cymorth a roddir.
- Roedd merched yn llawer mwy tebygol na bechgyn o roi gradd da iawn neu eithaf da i athrawon ar gyfer y canlynol: gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr ac ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir.
- Roedd bechgyn yn llawer mwy tebygol na merched o roi gradd gwael iawn neu eithaf gwael i athrawon am ymdrin â dysgwyr aflonyddgar (11% o gymharu â 7%).

Siart 4.5: Graddau agweddau ar addysgu (%): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782). Ni ddangosir 'heb ei nodi' na ddim' yn gwybod'.


Tabl 4.15: Boddhad ag agweddau ar addysgu yn ôl rhyw, ethnigrwydd a chymorth dysgu ychwanegol (% ar gyfer 'da iawn' neu 'eithaf da')

| | Cyfanswm | Rhyw | | Ethnigrwydd | | Cymorth dysgu ychwanegol | |
|--|----------|-------|-------|-------------|-------------|--------------------------|-------|
| | | Gwryw | Benyw | Gwyn | Ddim yn wyn | Do | Naddo |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1564 | 160 | 144 | 1569 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1534 | 178 | 153 | 1558 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gallu i egluro'r pwnc | 87 | 87 | 90 | 90 | 76 | 89 | 89 |
| Gwrando ar eich anghenion | 74 | 75 | 77 | 77 | 71 | 86 | 75 |
| Gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr | 68 | 65 | 73 | 71 | 58 | 78 | 68 |
| Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu | 60 | 61 | 62 | 63 | 55 | 72 | 61 |
| Y cymorth a roddir | 70 | 70 | 73 | 72 | 71 | 81 | 71 |
| Gwneud defnydd da o amser gwersi | 75 | 74 | 78 | 77 | 71 | 83 | 76 |
| Ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir | 73 | 73 | 78 | 76 | 68 | 73 | 75 |
| Pennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella | 67 | 69 | 70 | 70 | 62 | 76 | 68 |
| Rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd | 66 | 67 | 67 | 69 | 55 | 74 | 67 |
| Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar | 63 | 62 | 67 | 65 | 56 | 69 | 64 |

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

O ran y radd 'da iawn/eithaf da' gyfunol, roddwyd graddau gwell i athrawon ar gyfer y mesurau canlynol dros amser; gwrando ar eich anghenion (+2%), y cymorth a roddir (+ 3%) ac ymdrin â dysgwyr aflonyddgar (+3%). Dangosodd y mesurau canlynol ostyngiad sylweddol mewn boddhad dros amser: y gallu i egluro'r pwnc, gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr, pennu targedau clir ac adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd (roeddent oll wedi gostwng 2%).

Siart 4.6: Cymhariaeth rhwng boddhad ag agweddau ar addysgu (% ar gyfer da iawn neu eithaf da) yn 2004 a 2008




Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 2004 Heb ei phwysoli (5781) Wedi ei phwysoli (5781) 2004 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

4.4.2 Boddhad cyffredinol â'r addysgu

Gofynnwyd i bob myfyriwr raddio ei foddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu yn ei ysgol. Cynigiwyd graddfa saith pwynt iddynt yn amrywio o hynod fodlon i hynod anfodlon. Dywedodd bron un o bob deg (9%) eu bod yn hynod fodlon ar ansawdd yr addysgu a dywedodd 40% arall eu bod yn fodlon iawn. Gyda 37% arall yn dweud eu bod yn eithaf bodlon, golyga'r ffigurau cyfunol bod 86% o'r myfyrwyr yn fodlon i ryw raddau. Dim ond 4% a ddywedodd eu bod yn anfodlon a defnyddiodd 6% y canolbwynt (ddim yn fodlon nac yn anfodlon).

Siart 4.7: Ansawdd cyffredinol yr addysgu yn eich chweched dosbarth: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

Mae'n bwysig nodi bod yr ymatebion ar draws yr is-grwpiau ar gyfer y cwestiwn hwn yn eithaf cyson. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran ymatebion myfyrwyr yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd neu anhawster dysgu, cyfrwng yr ysgol. Roedd myfyrwyr a oedd yn cael cymorth dysgu ychwanegol yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn hynod fodlon o gymharu â'r rheini nad oeddent yn cael cymorth (17% o gymharu ag 8%). O ran demograffeg ysgolion, roedd y rheini mewn ysgolion â'r gyfran leiaf o fyfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim (llai na 10%) yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon i ryw raddau na'r rheini â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr cymwys

(15% neu fwy): roedd 88% o'r myfyrwyr yn fodlon o gymharu ag 84% yn y drefn honno.

Unwaith eto, mae'r ymatebion yn ategu'r cyswllt cryf rhwng mesurau boddhad cyffredinol, cymhelliant a rhoi ystyriaeth i adael yr ysgol.

- Roedd boddhad ag ansawdd yr addysgu yn llawer uwch ymhlith myfyrwyr a oedd â llawer o gymhelliant (roedd 95% o'r rheini a oedd â llawer o gymhelliant yn fodlon i ryw raddau o gymharu â 79% o'r rheini nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant a 48% nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl).
- Roedd boddhad ag ansawdd yr addysgu yn llawer uwch ymhlith y rheini nad oeddent erioed wedi ystyried gadael yr ysgol (94%) o gymharu â'r rheini a oedd wedi ystyried gadael (77%).

4.4.3. Ffactorau sy'n gwella Boddhad â'r Addysgu

Cynhaliwyd yr un dadansoddiad ystadegol⁶ ar ddata Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 er mwyn pennu cyfraniad elfennau gwahanol o'r addysgu at lywio boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu a barn myfyrwyr ar berfformiad athrawon ym mhob un o'r elfennau hynny.

Mae'r siart nesaf yn mapio canlyniadau'r dadansoddiad ystadegol drwy ddsbarthu'r agweddau ar addysgu yn ôl boddhad myfyrwyr a'r cyfraniad y mae pob agwedd yn ei wneud o ran llywio boddhad cyffredinol. Cyflwynir y canlyniadau mewn pedwar chwarter.

- blwch uchaf ar y chwith: Cyfraddau uchel o ran perfformiad ond is o ran perfformiad gan nodi'r angen am **adolygiad**
- blwch uchaf ar y dde: Cyfraddau uchel o ran cyfraniad a pherfformiad gan nodi'r angen i **hyrwyddo'r** cryfderau hyn
- blwch isaf ar y chwith: Cyfraddau is o ran cyfraniad a pherfformiad gan nodi'r angen i **fonitro'r** agweddau hyn


⁶ Atchweliad amcangyfrifon - defnyddir y dull hwn o ddansoddi yn aml i ganfod faint o ddylanwad y mae gwahanol rinweddau yn ei gael ar rai newidynnau dibynnol megis boddhad cyffredinol. Os yw'r rhinweddau a fesurir yn gysylltiedig â'i gilydd mewn unrhyw ffordd (er enghraifft wrth i un wella mae un arall yn debygol o wella hefyd) yna gall dadansoddiad atchweliad llinol arferol gynnig atebion camarweiniol ac ansefydlog. Gelwir y rhyngberthynas rhwng newidynnau annibynnol yn 'aml-gyflinelledd', mae atchweliad amcangyfrifon yn fath arbennig o atchweliad, a ddefnyddir i ymdrin â'r broblem hon.

- blwch isaf ar y dde: Cyfraddau is o ran cyfraniad ond uchel o ran perfformiad gan nodi'r angen i **gynnal** perfformiad.

Dengys y siart i bob agwedd ar addysgu ennill sgôr gymedr o dros 3.5 allan o 5, sy'n sgorau uchel. Serch hynny, drwy ddefnyddio canolbwynt y sgorau hyn a'r sgorau pwysigrwydd, gallwn ddangos yr agweddau y byddai angen rhoi sylw iddynt er mwyn gwella boddhad cyffredinol â'r addysgu.

- Y gallu i egluro'r sgorau pwnc uchaf o ran perfformiad a hefyd eu pwysigrwydd o ran gwella boddhad (mae hyn yn golygu bod yr agwedd hon eisoes yn gwneud cyfraniad da at foddhad cyffredinol â'r addysgu). Mae hyn yn perthyn i'r chwarter 'perfformiad', ynghyd â gwneud defnydd da o amser gwersi (er ei fod yn ffactor ffiniol).
- Nid oes dim yng nghanol y chwarter 'Cynnal', ond mae'r ffactorau ffiniol yn cynnwys: gwrando ar eich anghenion ac ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu
- Mae'r chwarter 'monitro' (h.y. cyfraddau perfformiad is ond ffactorau sy'n llai pwysig ar hyn o bryd o ran gwella boddhad) yn cynnwys: ymdrin â dysgwyr aflonyddgar, y cymorth a roddir, eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu a phennu targedau clir.
- Yn olaf, mae dau ffactor yn perthyn i'r chwarter 'adolygu': adborth prydlon a rheolaidd a gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr. Felly, mae gwneud newidiadau yn y meysydd hyn yn debygol iawn o gael effaith ar foddhad cyffredinol â'r addysgu.

Siart 4.8: Ffactorau sy'n gwella boddhad cyffredinol â'r addysgu ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: 1782. 10 yw'r echelin ar gyfer pwysigrwydd a 4 ar gyfer perfformiad; fe'u crëwyd at ddibenion cyflwyno adroddiadau ac maent yn oddrychol.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Yn gyffredinol, mae data 2008 yn cyfateb i fesur 2004 ac nid yw'r data wedi newid yn sylweddol o gwbl yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

4.4.4 Crynodeb

O ran boddhad ag agweddau penodol ar addysgu, graddiodd o leiaf saith o bob deg myfyriwr athrawon yn eithaf da neu'n dda iawn o ran 'y cymorth a roddir', 'ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir', 'gwranddo ar eich anghenion', 'gwneud defnydd da o amser gwersi' a 'y gallu i egluro'r pwnc'.

Graddiodd o leiaf ddwy ran o dair o'r myfyriwr athrawon yn eithaf da neu'n dda iawn o ran 'rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd', 'gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr' a 'pennu targedau clir er mwyn eich helpu i wella'.

Roedd y graddau ar eu hisaf ar gyfer 'eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu' (60%) ac 'ymdrin â dysgwyr aflonyddgar' (63%).

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn y data yn ôl demograffeg bersonol:

- Roedd y graddau'n is yn gyson ymhlith myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig na'r rheini o gefndiroedd gwyn (ac yn sylweddol is ar gyfer sawl mesur).
- Roedd y graddau'n sylweddol uwch ar gyfer sawl mesur ymhlith myfyrwyr a oedd yn cael cymorth ychwanegol yn y dosbarth
- Roedd merched yn llawer mwy tebygol na bechgyn o roi gradd da iawn neu eithaf da i athrawon ar gyfer y canlynol: gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr ac ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir.
- Roedd bechgyn yn llawer mwy tebygol na merched o roi gradd gwael iawn neu eithaf gwael i athrawon am ymdrin â dysgwyr aflonyddgar (11% o gymharu â 7%).

Dywedodd bron un o bob deg (9%) eu bod yn hynod fodlon ar ansawdd cyffredinol yr addysgu a dywedodd 40% arall eu bod yn fodlon iawn. Gyda 37% arall yn dweud eu bod yn eithaf bodlon golyga'r ffigurau cyfunol bod 86% yn fodlon i ryw raddau ar ansawdd cyffredinol yr addysgu. Roedd y sgorau'n gyson ar gyfer mwyafrif o is-grwpiau ac unwaith eto'n dangos cydberthynas agos rhwng boddhad, cymhelliant a nifer y myfyrwyr sy'n ystyried gadael yr ysgol.

4.5 Boddhad cyffredinol â'r profiad yn yr ysgol

Mae'r adran hon yn ystyried boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu ar ddwy lefel:

- p'un a yw profiadau myfyrwyr ers dechrau Blwyddyn 12 wedi cyrraedd eu disgwyliadau ar y cychwyn
- boddhad cyffredinol â'u profiad dysgu gan ystyried yr holl ddysgu a phrofiadau ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13.

4.5.1 Disgwyliadau cyn dechrau Blwyddyn 12

Effeithir ar foddhad â phrofiad gan y math o ddisgwyliadau sydd gan unigolyn cyn y profiad. Rhoddwyd nifer o ddatganiadau i fyfyrwyr yn ymwneud â'r cwrs a'r hyn a

fyddai'n ddisgwyliedig ganddynt ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Gellid dosbarthu'r datganiadau i'r ddau faes eang canlynol:


- **cysylltiedig â'r cwrs/addysgu:** safon y gwaith a ddisgwyilir, arddulliau/dulliau addysgu mewn gwersi, cynnwys eich cwrs a'i strwythur; a
- **cysylltiedig â llwyth gwaith/cyfrifoldeb:** nifer y terfynau amser y mae'n rhaid i chi eu bodloni, faint o gyfrifoldeb y mae'n rhaid i chi ei gymryd a faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud.

Dengys siart 4.9 fod gan y mwyafrif o'r myfyrwyr, yn gyffredinol, ddisgwyliadau yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar eu cwrs ac, yn gyffredinol, dywedodd y mwyafrif o'r myfyrwyr bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni.

Gwelwyd y canfyddiadau mwyaf cadarnhaol ar gyfer safon y gwaith sydd ei hangen a faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud. Roedd cyfran y myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau o gwbl o ran y mesurau hyn (9% yn y ddau achos) yn is o gymharu â mesurau eraill, ac roedd cyfran y rheini yr oedd eu disgwyliadau wedi'u bodloni ar ei huchaf (73% a 70% yn y drefn honno).

Roedd ymatebion yn llai cadarnhaol ar gyfer cwestiynau'n ymwneud â'r arddulliau a'r dulliau addysgu a ddefnyddir mewn gwersi. Roedd cyfran y myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau o gwbl yn uwch o gymharu â mesurau eraill (16%) a allai ddangos diffyg ymwybyddiaeth am yr agwedd hon ar gyfer y flwyddyn i ddod. O ganlyniad, roedd cyfran y rheini yr oedd eu disgwyliadau wedi'u bodloni yn gymharol isel (52%).

Siart 4.9: P'un a fodlonwyd disgwyliadau (%): crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782). Ni ddangosir 'heb ei nodi' na 'ddim yn gwybod'.

Wrth ystyried yr ymateb mewn perthynas â disgwyliadau cyn Blwyddyn 12 gellir gweld y patrwm canlynol:

- ar gyfer ychydig dros hanner y mesurau, roedd merched yn llawer mwy tebygol na bechgyn o fod wedi cytuno bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni (bwlch o +5% o leiaf ar gyfer 4 o'r 7 mesur). Ymhlith y mesurau lle nad oedd **unrhyw** wahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw roedd: strwythur y cwrs a'r arddulliau/dulliau addysgu mewn gwersi.
- roedd myfyrwyr gwyn yn llawer mwy tebygol o nodi bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni o gymharu â myfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar gyfer pob mesur yn ymwneud â baich gwaith a chyfrifoldebau.
- roedd myfyrwyr **heb** anableddau dysgu yn llawer mwy tebygol na'r rheini ag anableddau dysgu o ddweud nad oedd eu disgwyliadau wedi'u bodloni o ran nifer o faterion: nifer y terfynau amser y mae'n rhaid i chi eu bodloni, safon y gwaith a ddisgwylir, cynnwys eich cwrs ac arddulliau/dulliau addysgu mewn gwersi.

Tabl 4.16: P'un a fodlonwyd disgwyliadau yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd dysgu (% y myfyrwyr y bodlonwyd eu disgwyliadau)

| | Cyfanswm | Rhyw | | Ethnigrwydd | | Anabledd dysgu | |
|--|----------|-------|-------|-------------|-------------|----------------|---------|
| | | Gwryw | Benyw | Gwyn | Ddim yn wyn | Oes | Nac Oes |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 788 | 937 | 1564 | 160 | 82 | 1629 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 803 | 907 | 1534 | 178 | 92 | 1604 |
| | % | % | % | % | % | % | % |
| <i>Cysylltiedig â'r cwrs/addysgu</i> | | | | | | | |
| Safon y gwaith a ddisgwylir | 73 | 72 | 77 | 75 | 68 | 54 | 76 |
| Arddulliau/dulliau addysgu mewn gwersi | 52 | 52 | 54 | 54 | 46 | 38 | 54 |
| Cynnwys eich cwrs | 65 | 63 | 69 | 68 | 49 | 49 | 67 |
| Strwythur eich cwrs | 61 | 61 | 63 | 64 | 46 | 44 | 64 |
| <i>Cysylltiedig â llwyth gwaith/cyfrifoldeb</i> | | | | | | | |
| Nifer y terfynau amser y mae'n rhaid i chi eu bodloni | 66 | 64 | 72 | 69 | 60 | 56 | 69 |
| Faint o gyfrifoldeb y mae'n rhaid i chi ei gymryd | 69 | 67 | 73 | 71 | 61 | 60 | 71 |
| Faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud | 70 | 68 | 75 | 72 | 63 | 74 | 71 |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn.

Ni ddangosodd y math o gymhwyster a astudiwyd gan fyfyrwyr fawr ddim cysylltiad o ran p'un a oedd eu disgwyliadau wedi'u bodloni ai peidio. Fodd bynnag, os nad oedd y myfyrwr wedi gallu astudio ei ddewis cyntaf o gymhwyster/pwnc neu yn ei ddewis cyntaf o ysgol, roedd yn dueddol o roi ymateb mwy negyddol i'r cwestiwn hwn. O ran peidio â mynychu eu dewis cyntaf o ysgol, nodwyd y gwahaniaethau mwyaf (dros 20%) ar gyfer y mesurau canlynol (tabl 23, Atodiad B):

- nifer y terfynau amser y byddai'n rhaid i chi eu bodloni (roedd y rheini a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol o leiaf 20% yn fwy tebygol o nodi bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni o gymharu â'r rheini nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs)

- faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud (roedd y rheini a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o leiaf 21% yn fwy tebygol o nodi bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni na'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny).
- cynnwys eich cwrs (roedd y rheini a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o leiaf 21% yn fwy tebygol o nodi bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni na'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny).
- safon y gwaith a ddisgwylir (roedd y rheini a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o leiaf 23% yn fwy tebygol o nodi bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni na'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny).

Ymddengys bod hyn yn awgrymu, os gwyddys **nad** yw myfyrwyr wedi cael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol neu bwnc, y gallai fod angen ailystyried eu disgwyliadau cyn iddynt ddechrau Blwyddyn 12.

Roedd myfyrwyr â lefelau uwch o gymhelliant a boddhad â'u profiad cyffredinol yn llawer mwy tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni (gweler tabl 24, Atodiad B). Fodd bynnag, gellir esbonio hyn, i ryw raddau, gan y ffaith bod y rheini â lefelau uwch o foddhad a chymhelliant yn llawer mwy tebygol o fod yn eu dewis ysgol ac yn astudio eu dewis pwnc/gymhwyster (gweler y paragraffau blaenorol). Noda'r data, mewn sawl achos, wrth ddatblygu eu dewis o gynnydd, fod myfyrwyr a oedd yn cael y cyfle i wneud yr hyn yr oeddent am ei wneud wedi ffurfio disgwyliadau o'r broses hon a bod y rhain wedi'u bodloni.

O ran y newidynnau'n ymwneud â'r ysgol ei hun, ni ddangosodd maint y grŵp blwyddyn na'r cyfrwng iaith unrhyw gydbertynas gyson rhwng bodloni disgwyliadau ai peidio. Fodd bynnag, dengys y data ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau bod myfyrwyr o ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r myfyrwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni na'r rheini mewn ysgolion lle roedd cyfran uwch o fyfyrwyr yn cael prydau ysgol am ddim.


Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2004 a 2008 ac mae'r data wedi'i gymharu. Dengys gwaith dadansoddi newidiadau cadarnhaol yn bennaf dros amser: dywedodd cyfran llawer uwch o ymatebwyr yn 2008 bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni ar gyfer y canlynol - strwythur y cwrs (cynnydd o 3%) a faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd (cynnydd o 4%). Gwelwyd newid negyddol mewn tystiolaeth o ran un mesur, dywedodd nifer sylweddol llai o fyfyrwyr yn 2008 bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni ar gyfer faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud (gostyngiad o 4%).

4.5.2 Boddhad cyffredinol

Gofynnwyd i bob myfyriwr, gan ystyried pob agwedd ar ddysgu ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13, pa mor fodlon oeddent â'u profiad dysgu cyffredinol. Cynigiwyd graddfa saith pwynt iddynt ymateb. Mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol gyda'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (83%) yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y gyfran yn gogwyddo'n drwm tuag at yr ymateb 'eithaf bodlon' yn hytrach na'r ochr 'hynod fodlon' o'r raddfa. Dywedodd bron un o bob ugain o'r myfyrwyr (7%) eu bod yn hynod fodlon a dywedodd traean arall (32%) eu bod yn fodlon iawn. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump eu bod yn eithaf bodlon (44%). Nododd canrannau llawer is nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon (9%) neu eu bod yn anfodlon i ryw raddau (5%).

Siart 4.10: Boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu: crynodeb ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 Heb ei phwysoli (1782) Wedi ei phwysoli (1782)

Drwy ddadansoddi is-grwpiau o fewn y data gellir gweld bod rhywfaint o gydberthynas rhwng demograffeg bersonol a boddhad cyffredinol, ond bod cysylltiad cryfach (ac un sy'n rhedeg drwy'r adroddiad hwn) rhwng p'un a oedd y myfyriwr yn mynychu ei ddewis cyntaf o ysgol neu'n astudio ei ddewis cyntaf o bwnc/cwrs:

- Ni welwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl rhyw ac ethnigrwydd o ran ymatebion myfyrwyr i'r cwestiwn am foddhad cyffredinol.

- Er nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau blwyddyn o ran y rheini a ddangosodd rywfaint o foddhad, roedd nifer sylweddol fwy o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 13 yn hynod fodlon nag ym Mlwyddyn 12 (11% o gymharu â 5%).
- Dangosodd nifer sylweddol lai o fyfyrwyr ag anableddau dysgu ryw lefel o foddhad (75%) na myfyrwyr heb unrhyw anableddau dysgu (86%).
- Mae boddhad â'r ysgol a'r cwrs i ddechrau yn ffactorau ysgogi pwysig (tabl 25, Atodiad B)
 - Nododd 88 y cant o'r myfyrwyr a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol rywfaint o foddhad o gymharu â 74% nad oeddent yn gwneud hynny a 65% nad oeddent wedi cael unrhyw ddewis.
 - Nododd 88 y cant i'r myfyrwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau/cymhwyster rywfaint o foddhad o gymharu â 71% nad oeddent yn gwneud hynny.

Tabl 4.17: Boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu yn ôl blwyddyn ac anabledd dysgu

| | | Blwyddyn | | Anabledd dysgu | |
|---|-----------|-------------|-------------|----------------|-----------|
| | | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Oes | Nac oes |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | Cyfanswm | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 1033 | 700 | 82 | 1629 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 1024 | 703 | 92 | 1604 |
| | % | % | % | % | % |
| Hynod fodlon | 7 | 5 | 11 | 7 | 7 |
| Bodlon iawn | 32 | 32 | 34 | 21 | 33 |
| Eithaf bodlon | 44 | 47 | 43 | 47 | 46 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 9 | 10 | 8 | 15 | 9 |
| Anfodlon (hynod anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon) | 5 | 5 | 4 | 10 | 5 |
| Heb ei nodi | 4 | 2 | * | 0 | 1 |
| <i>% unrhyw opsiwn bodlon</i> | <i>83</i> | <i>84</i> | <i>88</i> | <i>75</i> | <i>86</i> |

Noder: mae rhai o'r meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn is na 100, dylid bod yn ofalus wrth ddarllen canlyniadau ar gyfer yr is-grwpiau hyn. Yn y tabl mae * yn dynodi ffigur sy'n llai na 0.5% ond yn fwy na sero.

Fel y gellid disgwyl, roedd cydberthynas uniongyrchol rhwng y canlynol (tabl 26, Atodiad B):

- Lefelau o gymhelliant a boddhad cyffredinol:
 - Roedd y mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr a oedd â llawer o gymhelliant yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol (97%).
 - Roedd cyfran llawer is o'r myfyrwyr nad oedd ganddynt unrhyw gymhelliant o gwbl (24%) yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol.
- Boddhad ag ansawdd yr addysgu a boddhad cyffredinol:

- Roedd bron pob un o'r rheini a oedd yn 'hynod fodlon' ar ansawdd yr addysgu yn fodlon i ryw raddau yn gyffredinol (98%).
- Dim ond un rhan o bump o'r myfyrwyr a oedd yn anfodlon i ryw raddau ar ansawdd yr addysgu oedd yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad yn gyffredinol (19%).
- Rhoi ystyriaeth i adael y cwrs a boddhad cyffredinol:
 - Roedd 93 y cant o'r myfyrwyr nad oeddent erioed wedi ystyried gadael yr ysgol yn fodlon i ryw raddau ar eu profiadau o'r cwrs yn gyffredinol o gymharu â 72% o'r rheini a oedd wedi ystyried gadael

Ymddengys bod hyn yn dangos, er bod sawl ffactor yn dylanwadu ar ystyriaeth unigolyn i adael yr ysgol, mae boddhad â'r profiad yn allweddol i hynny.

O ran newidynnau'n ymwneud â demograffeg yr ysgol, dangosodd y canlyniadau'r canlynol:

- Cyflawnodd ysgolion cyfrwng Cymraeg raddau uwch nag ysgolion cyfrwng Saesneg (dangosodd 88% o'r myfyrwyr rywfaint o foddhad o gymharu ag 82%).
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o nodi rhywfaint o foddhad na'r rheini mewn ysgolion lle roedd mwy o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim (87% o gymharu ag 80%).

Tabl 4.18: Boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu yn ôl cyfrwng iaith a % y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim

| | Cyfanswm | Cyfrwng iaith | | % â hawl i gael prydau ysgol am ddim | | |
|---|----------|---------------|---------|--------------------------------------|--------|-------------|
| | | Cymraeg | Saesneg | Mwy na 15% | 10-15% | Llai na 10% |
| Sylfaen: Pob ymatebydd ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1782 | 367 | 1415 | 660 | 410 | 712 |
| Wedi ei phwysoli | 1782 | 342 | 1440 | 729 | 325 | 729 |
| | % | % | % | % | % | % |
| Hynod fodlon | 7 | 9 | 7 | 8 | 5 | 7 |
| Bodlon iawn | 32 | 34 | 31 | 31 | 26 | 35 |
| Eithaf bodlon | 44 | 45 | 44 | 41 | 52 | 44 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 9 | 4 | 10 | 11 | 10 | 6 |
| Anfodlon (hynod anfodlon/anfodlon iawn/eithaf anfodlon) | 5 | 2 | 5 | 5 | 5 | 4 |
| Heb ei nodi | 4 | 6 | 3 | 4 | 3 | 3 |
| <i>% unrhyw opsiwn bodlon</i> | 83 | 89 | 82 | 80 | 82 | 87 |

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarthiadau Ysgolion Cymru 2004 ELWa

Roedd y lefelau boddhad yn debyg iawn i lefelau 2004. Er bod lleihad sylweddol yn nifer y rheini a oedd yn hynod fodlon (-2%) gwelwyd cynnydd yn nifer y rheini a oedd yn eithaf bodlon (+5%) ac ni welwyd newid yn y gyfran a oedd yn anfodlon.

4.5.3 Crynodeb

Lluniwyd rhestr o fesurau yn ymwneud â'r disgwyliadau a allai fod gan fyfyrwyr cyn i'r cwrs ddechrau a gofynnwyd yn yr arolwg a oedd y disgwyliadau wedi'u bodloni:

- **Cysylltiedig â'r cwrs/addysgu:** safon y gwaith a ddisgwylir, arddulliau/dulliau addysgu mewn gwersi, cynnwys eich cwrs a'i strwythur
- **Cysylltiedig â llwyth gwaith/cyfrifoldeb:** nifer y terfynau amser y mae'n rhaid i chi eu bodloni, faint o gyfrifoldeb y mae'n rhaid i chi ei gymryd a faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud.

Roedd gan y mwyafrif o'r myfyrwyr a ymatebodd i'r arolwg ddisgwyliadau yn ymwneud â'r agweddau hyn ar eu cwrs ac, yn gyffredinol, dywedodd y mwyafrif o'r myfyrwyr bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni.

Gwelwyd y canfyddiadau mwyaf cadarnhaol ar gyfer 'safon y gwaith a ddisgwyilir' a hefyd 'faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud'. Roedd cyfran y myfyrwyr heb unrhyw ddisgwyliadau o gwbl o ran y mesurau hyn yn is (9% yn y ddwy achos) o gymharu â mesurau eraill, ac roedd cyfran y rheini yr oedd eu disgwyliadau wedi'u bodloni ar ei huchaf (73% a 70% yn y drefn honno).

Gwelir patrwm yn ymddangos yn y data ar gyfer rhai mesurau, lle roedd y grwpiau canlynol yn llawer mwy tebygol o ddweud bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni:

- merched o gymharu â bechgyn
- myfyrwyr gwyn o gymharu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- myfyrwyr heb anabledau dysgu o gymharu â myfyrwyr ag anabledau dysgu

Roedd y rheini a oedd wedi cael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol a chwrs yn llawer mwy tebygol o ddweud bod eu disgwyliadau cyn i'r cwrs ddechrau wedi'u bodloni na'r rheini nad oeddent wedi cael lle yn eu dewis cyntaf o ysgol neu gwrs, neu yn wir y rheini nad oeddent wedi ystyried unrhyw opsiynau eraill. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cefnogi'r achos y ceir dealltwriaeth o'r cwrs drwy ystyried opsiynau a chyfleoedd.

Roedd myfyrwyr â lefelau uwch o gymhelliant, a boddhad â'u profiad yn gyffredinol yn llawer mwy tebygol o deimlo bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni.

O ran boddhad cyffredinol â'u profiadau dysgu, dywedodd 7% eu bod yn hynod fodlon a dywedodd traean arall (32%) eu bod yn fodlon iawn. Dywedodd bron hanner eu bod yn eithaf bodlon (44%). Golyga hyn bod y mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr (83%) yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol. Nododd canrannau llawer is nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon (9%) neu eu bod yn anfodlon i ryw raddau (5%). Roedd y grwpiau canlynol yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon â'u profiadau dysgu cyffredinol:

- Roedd myfyrwyr ym Mlwyddyn 13 yn llawer mwy tebygol o fod yn hynod fodlon ar eu profiad dysgu na'r rheini ym Mlwyddyn 12 (11% o gymharu â 5%).
- Roedd myfyrwyr heb anawsterau dysgu yn fwy tebygol o fod yn fodlon na'r rheini ag anawsterau (86 o gymharu â 75%).
- Nododd y rheini a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol rywfaint o foddhad o gymharu â'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny a'r rheini nad

oeddent wedi cael unrhyw ddewis o ran ysgol (88%, 74% a 65% yn y drefn honno)

- Nododd y rhai hynny a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc/cymhwyster rywfaint o foddhad o gymharu â'r rheini nad oeddent yn gwneud hynny (88% o gymharu â 71%).
- Unwaith eto roedd cydberthynas rhwng lefelau cymhelliant, graddau ansawdd yr addysgu a'r tebygolrwydd o fod wedi ystyried gadael.

O ran demograffeg ysgol dengys y canlyniadau'r canlynol:

- Cyflawnodd ysgolion cyfrwng Cymraeg raddau uwch nag ysgolion cyfrwng Saesneg (dangosodd 88% o'r myfyrwyr rywfaint o foddhad o gymharu ag 82%).
- Roedd myfyrwyr mewn ysgolion lle roedd gan lai na 10% o'r myfyrwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o nodi rhywfaint o foddhad na'r rheini mewn ysgolion lle roedd cyfran uwch o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim (87% o gymharu ag 80%).

5. Casgliadau

Cydnabyddir yn eang bod cyfranogiad a chyflawniad mewn dysgu yn allweddol i gystadleurwydd economaidd a chydlyniant cymdeithasol cenedl. Yn ystod cyfnod cychwynnol Rhaglen Ymchwil Cwsmeriaid 2007-2010 APADGOS, cafwyd cydnabyddiaeth eang ymhlith y rheini yr ymgynghorwyd â hwy bod canfyddiadau astudiaethau o foddhad dysgwyr yn bwysig wrth fesur a gwella ansawdd ac wrth ymgysylltu'n barhaus â darparwyr.

Bodddhad a chymhelliant

Un o ganfyddiadau allweddol yr arolwg oedd bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (84% o Flwyddyn 10 ac 11 ac 83% o Flwyddyn 12 a Blwyddyn 13) wedi nodi rhywfaint o foddhad gyda'u profiad dysgu. Nodir lefelau tebyg o foddhad ar gyfer yr addysgu yn gyffredinol ar gyfer 2004 a 2008 ymhlith myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Mae'r lefel uchel o foddhad ag ansawdd yr addysgu a'r profiad dysgu cyffredinol ers 2004 wedi'i chynnal ac mae hyn yn galonogol, o ran y ffaith ei bod yn rhoi sail gadarn i barhau i ddysgu a chaffael sgiliau.

O ran lefelau cymhelliant, roedd cyfran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11 a nododd fod ganddynt gymhelliant ychydig yn uwch na chyfran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Er bod y lefelau ar gyfer y ddwy garfan yn gymharol uchel (73% a 68% yn y drefn honno), nodwyd dau ffactor a oedd yn peri pryder. Yn gyntaf, gellid bod wedi disgwyl y byddai'r rheini a oedd wedi parhau i astudio ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 wedi gwneud hynny er mwyn ennill cymwysterau a fyddai'n hanfodol ar gyfer eu gyrfa neu eu cynlluniau dysgu yn y dyfodol. Fodd bynnag, dangosodd tri o bob deg yn y grŵp hwn ddiffyg cymhelliant, ac roedd y lefelau cymhelliant yn is na lefelau myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 ac 11. Awgryma hyn, ar gyfer lleiafrif o fyfyrwyr, nad oedd eu profiad dysgu ar ôl Blwyddyn 11 yn cynnal nac yn ysgogi eu diddordeb i'r graddau a ddisgwyliwyd.

Yn ail, roedd lleihad bach ond sylweddol yn nhermau canran wedi bod yng nghyfran y myfyrwyr a ddywedai bod ganddynt rywfaint neu lawer o gymhelliant o gymharu â chanfyddiadau arolwg 2004. Yng ngoleuni'r polisi i wella cyfraddau astudio ôl-16, gyda mentrau megis cyflwyno'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, ymddengys nad oes cynnydd cymesur wedi bod mewn ymrwymiad i ddysgu - yn sicr fel y nodir gan ymatebion lleiafrif sylweddol o'r garfan.

Gall hyn ddangos hefyd bod a) rhai o'r rheini a wnaeth barhau i astudio ôl-16 wedi gwneud hynny heb unrhyw reswm pendant a chadarnhaol dros wneud hynny; a/neu b) nad oedd eu profiad yn cyfateb i'w disgwyliadau a'u dyheadau. Yn y naill achos neu'r llall, mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hyddysg, cywir a realistig yn hanfodol er mwyn atal canlyniadau penderfyniadau camarweiniol.

Mae'n debygol mai un o'r agweddau hanfodol ar fodloni disgwyliadau yw lefel y cymorth a gynnigir i fyfyrwyr a all gael trafferth ymdopi â chyfres newydd o heriau ar y dechrau, boed yn heriau academaidd ac yn ymwneud â'r ffordd y mae'n ofynnol iddynt addasu eu harddull dysgu. I'r perwyl hwn, gellid hefyd roi blaenoriaeth i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol y gall fod angen cymorth ychwanegol ar y rheini nad ydynt wedi gallu cael lle ar eu dewis cyntaf o gwrs a/neu yn eu dewis cyntaf o ysgol er mwyn helpu i reoli eu hastudiaethau. Gallai Anogwyr Dysgu chwarae rhan ganolog wrth ddiwallu'r angen hwn.

Dewis o bynciau (Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn unig)

Mwynhau'r pynciau a astudiwyd oedd y prif reswm ymhlith myfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 dros ddewis pwnc neu gwrs penodol. Roedd cydberthynas gadarnhaol hefyd rhwng dilyn cwrs yr oeddent yn ei fwynhau a boddhad cyffredinol â'u profiad dysgu. Gellid ystyried y diddordeb amlwg hwn yn y pwnc fel agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, a all fod yn sail i barhau i ddysgu ac ennill cymwysterau. Ategwyd y canfyddiad hwn hefyd gan y ffaith mai 'ansawdd y dysgu' oedd yr agwedd amlycaf yr oedd myfyrwyr yn ei hoffi am yr ysgol, yn arbennig ymhlith bechgyn (nodwyd 'cyfeillgarwch' amlaf gan ferched).

Roedd pwysigrwydd rhesymau allweddol/cysylltiedig â gyrfa hefyd yn amlwg. Unwaith eto, mae dilysrwydd y cyngor a'r arweiniad a roddwyd, o ran sicrhau bod y myfyriwr wedi gwneud dewis hyddysg, yn hynod bwysig.

Mae'r ffaith bod ychydig dros un o bob deg bachgen (11%) wedi dewis "y pynciau hawdd" yn awgrymu y gall fod angen gwneud mwy i wella eu hymwybyddiaeth o oblygiadau niweidiol posibl y dull hwn o ddewis yn eu gyrfa yn y dyfodol.

Ffactorau sy'n effeithio ar wneud penderfyniadau

Mae'r canfyddiadau hefyd yn berthnasol iawn i'r agenda cynnwys rhieni, o ran amlygu'r rôl allweddol sydd gan rieni wrth roi cyngor i'w plant ar y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Yn amlwg, po fwyaf o wybodaeth sydd gan rieni am yr opsiynau sydd ar gael a goblygiadau dewisiadau penodol, y mwyaf tebygol ydyw y bydd myfyrwyr yn gwneud dewisiadau priodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig, o ystyried y broses o weithredu Llwybrau Dysgu 14-19. Canfu adroddiad *Opsiynau dysgu i bobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru* mai ychydig yr oedd traean o'r bobl ifanc a'r rhieni yn y sampl yn ei wybod am y cymwysterau a oedd ar gael. Felly, dylai sicrhau bod y rhieni'n gallu cael gafaél ar wybodaeth am yr opsiynau a ddarperir gan ysgolion a'u bod yn barod i wneud hynny, barhau'n nod polisi allweddol.

Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn (yn sicr ym Mlwyddyn 10 ac 11) o nodi eu bod wedi cael (ac wedi ystyried) cyngor gan rieni ac athrawon. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu pynciau/cymwysterau ar y sail bod eu hangen arnynt ar gyfer eu cwrs dewisol ym Mlwyddyn 12 yn yr ysgol neu yn y coleg. Gall hyn ddangos y gall fod angen i ddarparwyr cyngor ac arweiniad (yn arbennig Gyrfa

Cymru) roi mwy o bwyslais ar dargedu bechgyn ifanc, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt, a goblygiadau eu llwybr dewisol. Yma, dylid hefyd ystyried y duedd gynyddol ymhlith bechgyn i ddewis y pynciau hawdd (fel y nodir uchod).

Cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd

Rhydd y canfyddiadau dystiolaeth gadarn i ddangos yr angen parhaus am gyngor ac arweiniad hyddysg a diduedd i bobl ifanc pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch aros mewn addysg ar ôl 16 oed, ac yn allweddol, dewis eu hopsiynau cwrs.

Dyweddodd traean o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 iddynt ystyried gadael yr ysgol o ddifrif ers dechrau Blwyddyn 12 (32%). Ar y cam allweddol hwn o'u cyfnod pontio o ieuenctid i fywyd oedolyn, cyfyd hyn gwestiynau ynghylch pa mor addas a phriodol oedd eu hopsiynau ar ôl Blwyddyn 11. I lawer o bobl ifanc, gall y dechrau anghywir hwn arwain at oblygiadau niweidiol yn eu gyrfa yn y dyfodol ac, mewn rhai achosion, o ran eu hunanhyder a'u hunan-barch. Gall profiadau dysgu negyddol gael effaith andwyol ar eu gallu i ddysgu - a chydabyddir yn eang bod dysgu parhaus, neu ddysgu gydol oes, yn dod yn anghenraid mewn marchnad lafur sy'n esblygu'n gyflym.

Awgryma'r canfyddiadau nad oedd lleiafrif o'r myfyrwyr wedi paratoi'n dda ar gyfer addysg ar ôl Blwyddyn 11. Roeddent wedi cael trafferth gyda'r arddull dysgu ac roedd cyfran uchel yn ystyried gadael addysg - roedd yn rhy anodd i rai ac ymddangosai bod eraill o'r farn nad oedd eu profiad yn cyfateb i'w disgwyliadau.

Ateb galw myfyrwyr ym Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13

Sefydlwyd cyswllt clir rhwng cael lle mewn dewis cyntaf o ysgol a phynciau. Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr a oedd â mwy o gymhelliant, yn fwy bodlon ac yn llai tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol neu o fod wedi cael problemau yn fwy tebygol o fod yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol. Roedd y rheini nad oeddent yn ystyried opsiynau eraill neu nad oeddent wedi sicrhau eu dewis cyntaf yn llai bodlon o lawer ac roedd ganddynt lai o gymhelliant.

Nid oedd 6 y cant o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol ac roedd 16% yn astudio pynciau nad oeddent, unwaith eto, yn rhai dewis cyntaf. Dengys hyn y gall lleiafrif sylweddol o fyfyrwyr fod yn fwy agored i gollu cymhelliant. Er mwyn cynnal lefelau uwch o gyfranogiad mewn addysg a chymwysterau ôl-16, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi drwy gydol y blynyddoedd hyn, er mwyn eu rhwystro rhag rhoi'r gorau iddi a chynorthwyo unigolion i wireddu eu potensial. Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gallai cymorth ychwanegol drwy sianeli megis Anogwyr Dysgu helpu i oresgyn rhai o'r anawsterau a wynebier gan y rheini nad ydynt yn gallu mynychu eu dewis cyntaf o gwrs neu fynychu eu dewis cyntaf o ysgol.

Er nad oedd rhai o'r ymatebwyr yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol neu'n astudio eu dewis cyntaf o bwnc, a hynny o ganlyniad i gyngor gan athrawon neu gynghorwyr gyrfaoedd (a gellir ystyried hyn yn beth cadarnhaol i'r myfyriwr), roedd eraill yn gwneud hynny oherwydd diffyg darpariaeth. Yn amlwg, oherwydd cyfyngiadau adnoddau, ni ellir bodloni dyheadau pob myfyriwr. Serch hynny, lle yr ystyrir bod dewis cyntaf y myfyriwr o bwnc yn rhesymol, o ran ei allu a'i ddyheadau, dylid gwneud ymdrech i fodloni'r dewis hwnnw. Nododd y canfyddiadau fod bodloni dymuniadau myfyrwyr mewn perthynas â chyrsgiau yn bwysig o ran cymell myfyrwyr a'u cynnwys yn eu hastudiaethau.

Dywedodd y mwyafrif o'r myfyrwyr bod eu disgwyliadau wedi'u bodloni, yn arbennig mewn perthynas â 'safon y gwaith sydd ei hangen' a 'faint o waith y byddai'n rhaid i chi ei wneud'. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros hanner yr ymatebwyr a nododd fod yr 'arddulliau a dulliau addysgu a ddefnyddir mewn gwersi' wedi bodloni eu disgwyliadau. Mae hyn yn amlygu'r gwahaniaethau a wynebir gan y rheini sy'n aros mewn addysg ôl-16, ac ni ddylid tanamcangyfrif yr effeithiau ar lawer o fyfyrwyr. Mae'n amlwg bod gan athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd yn arbennig gyfrifoldeb i roi syniadau realistig i fyfyrwyr o ran y ffordd y disgwylir iddynt astudio ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13.

Goblygiadau o ran polisi

O ystyried nad oedd gan bron dri o bob deg o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12/13 lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl, dylid cyfeirio mwy o adnoddau i sicrhau bod y rhai sy'n dewis aros mewn addysg ar ôl 16 oed yn gwbl ymwybodol o a) y gwahanol ofnion academiaidd; b) cynnwys y cwrs a ddilyniir; a c) y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael ac sydd fwyaf priodol iddynt.

Roedd lefelau cymhelliant a boddhad yn amlwg yn gysylltiedig a ph'un a oedd y myfyriwr yn astudio ei ddewis cyntaf o bynciau, yn ogystal â'r tebygolrwydd o gael problemau yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol. Yng ngoleuni'r dystiolaeth o'r cydberthnasau hyn, dylid rhoi sylw arbennig i fyfyrwyr nad ydynt yn gallu astudio eu dewis cyntaf o bwnc/cwrs.

Mae'r canfyddiadau'n nodi angen am gymorth a dargedir, o ran y broses o wneud penderfyniadau ac ar ôl iddynt ddechrau ar eu cwrs dewisol, ar gyfer grwpiau o fyfyrwyr yr oedd eu hysgolion yn llai tebygol o ddarparu eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau.

Mae cynnwys rhieni yn gynnar yn addysg eu plant yn hanfodol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, a) eu bod yn gwybod am yr opsiynau cwrs sydd ar gael i fyfyrwyr, a b) fel rhan o'u rôl fel darparwyr cyngor ac arweiniad, y gallant gynnig asesiadau hyddysg o briodolrwydd yr opsiynau hyn ar gyfer gyrfaoedd eu plant yn y dyfodol.

Mae rôl Gyrfa Cymru ac athrawon sy'n rhoi cyngor ar ddewis cwrs a gyrfaoedd yn hanfodol er mwyn lliniaru'r effeithiau gwael ar lwybrau gyrfa a hunanhyder myfyrwyr a achosir gan benderfyniadau amhriodol neu gamarweiniol. Dylid rhoi pwyslais ar greu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a'u rhieni o'u harbenigedd, eu hygrededd a'u hamhleidioldeb. Dylid dechrau hyn ymhell cyn bod angen gwneud penderfyniadau hanfodol yn y cyfnod 14-19.

Atodiad A: ATODIAD TECHNEGOL

A1 Samplu

Gwahodddwyd sampl (yn hytrach na chyfrifiad) o ysgolion i gymryd rhan yn yr arolwg a dewiswyd y sampl er mwyn bodloni nifer o feini prawf dadansoddol ac ymarferol, sef:

- Rhanbarth: 4 rhanbarth wedi eu diffinio yn ôl AALI
 - Gogledd Cymru, De Orllewin/Canolbarth Cymru, De Cymru, De Ddwyrain Cymru
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg yn erbyn ysgolion cyfrwng Saesneg
- % o brydau ysgol am ddim
- Dangosydd natur wledig (trefol yn erbyn gwledig)
- Maint yr ysgol (nifer y disgyblion)
- Yr amser sydd ar gael ar gyfer recriwtio a chasglu data

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwmpas ar gyfer yr astudiaeth y cytunwyd arni gydag APADGOS. Cafodd ysgolion annibynnol eu heithrio o'r arolwg am na chânt eu hariannu gan APADGOS ac am nad yw APADGOS yn dylanwadu arnynt. Hefyd, nid oedd unrhyw fwriad o gynnwys digon o ran niferoedd er mwyn cymharu profiadau myfyrwyr mewn ysgolion annibynnol â phrofiadau myfyrwyr mewn ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, roedd amheuan a fyddai'r ysgolion annibynnol eu hunain yn cael budd o gymryd rhan yn yr astudiaeth.

| Grŵp blwyddyn | Ysgolion prif ffrwd | Ysgolion arbennig | Unedau Cyfeirio Disgyblion | Ysgolion annibynnol |
|---------------|---------------------|-------------------|----------------------------|---------------------|
| Blwyddyn 10 | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Blwyddyn 11 | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| Blwyddyn 12 | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |
| Blwyddyn 13 | ✓ | ✓ | ✗ | ✗ |

Noder: Ni chafodd myfyrwyr Blwyddyn 14/18 oed eu cynnwys yn yr astudiaeth. Er bod gan rai Unedau Cyfeirio Disgyblion fyfyrwyr 16 oed a throsodd, roedd y niferoedd fesul Uned Cyfeirio Disgyblion yn rhy fach i fod yn ymarferol ar gyfer llunio sampl.

Rhannwyd yr astudiaeth yn ysgolion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 ac ysgolion Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 (gan nad oes gan bob ysgol uwchradd/arbennig chweched dosbarth). Yna trefnwyd pob sampl yn ôl:

- rhanbarth
- math o ysgol
- iaith (h.y. ysgolion cyfrwng Cymraeg yn erbyn ysgolion cyfrwng Saesneg)
- prydau ysgol am ddim
- dangosydd natur wledig

Ar ôl hynny dewiswyd dwy sampl gyda thebygolrwydd yn gymesur â maint (nifer y disgyblion yn y grwpiau blynyddoedd). Er mwyn pennu nifer yr ysgolion i'w gwahodd i gymryd rhan, ac yn dilyn hyn, nifer y myfyrwyr sy'n gysylltiedig â'r arolwg, gwnaethom nifer o dybiaethau:

- y byddai 60% o ysgolion a fyddai'n cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil yn cytuno i gyfranogi yn yr amser sydd ar gael i recriwtio (a dychwelyd holiaduron i GfK NOP o fewn y cyfnod amser a ganiateir ar gyfer prosesu ffurflenni).
- y byddem yn cyflawni cyfradd ymateb o 50% o leiaf gan fyfyrwyr fesul ysgol sy'n cymryd rhan yn ystod y cyfnod casglu data
- y byddem yn anelu at gael o leiaf 1400 o holiaduron wedi eu dychwelyd atom ar gyfer Blynyddoedd 10/11 a 1500 ar gyfer Blynyddoedd 12/13

Ar y sail hon, gwnaethom samplu 40 o ysgolion ar gyfer arolwg Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a'r un peth ar gyfer arolwg Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Dewiswyd y sampl ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ar wahân (ar yr un sail ag uchod) er mwyn sicrhau bod gennym o leiaf 2 ym mhob sampl, lle y bo'n berthnasol.

Y bwriad oedd gofyn i bob ysgol a fyddai'n cael ei recriwtio i ddsbarthu'r holiadur i ddau grŵp tiwtor ym mhob un o'r ddau grŵp blwyddyn cymwys (h.y. dau grŵp tiwtor ym Mlwyddyn 10 a dau ym Mlwyddyn 11 neu dau grŵp tiwtor ym Mlwyddyn 12 a dau ym Mlwyddyn 13). Gwnaethom dybio y byddai grŵp tiwtor yn cynnwys 30 o fyfyrwyr ar gyfartaledd.

A2 Datblygu holiadur

Cynhaliwyd yr arolwg drwy ddefnyddio dull papur hunangwblhau, gydag un holiadur wedi ei gynllunio ar gyfer Blynyddoedd 10/11 ac un ar gyfer Blynyddoedd 12/13. Argraffwyd yr holiaduron yn y fath fodd fel y gellid cwblhau'r holiaduron yn Gymraeg neu yn Saesneg ac roedd y dull gweithredu hwn yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn 2004.

Roedd yr holiadur ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 wedi'i seilio'n fras ar yr holiadur a ddefnyddiwyd yn 2004 er mwyn sicrhau y gellid cymharu'r canlyniadau. Yn nodedig, cynhwyswyd mwy o gwestiynau demograffig nag yn arolwg 2004, sef cwestiynau'n cyfeirio at grŵp ethnig, cymorth ar gyfer anawsterau dysgu a statws anabledd.

Roedd angen ystyried agenda Llwybrau Dysgu, yn arbennig o ran p'un a oedd ysgolion/safleoedd yn cydweithio ac effaith hyn ar lefelau boddhad a chymhelliant. Cynhwyswyd cwestiwn yn ymwneud â'r mater hwn yn holiaduron Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13.

Roedd yr holiadur ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn cynnwys rhai mesurau allweddol a oedd yn gysylltiedig â holiadur Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, megis boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu a boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Fodd bynnag, mae'r materion sy'n wynebu Blynnyddoedd 10/11 yn wahanol o ran natur i'r rhai sy'n wynebu myfyrwyr chweched dosbarth sydd ar ail gam o ran 'dewis' yn eu haddysg ysgol, a chafodd llu o gwestiynau yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir gan Estyn eu cynnwys ar gyfer y grŵp blwyddyn hwn yn ogystal â chwestiwn am eu dyheadau dysgu/gwaith ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Cafodd y ddau holiadur eu cynllunio a'u mireinio ar y cyd ag APADGOS a'u treialu mewn dwy ysgol.

Treialu'r holiaduron

Cafodd dwy ysgol brif ffrwd (h.y. nid ysgolion arbennig nac unedau cyfeirio disgyblion) eu recriwtio ar gyfer yr ymarfer peilot: un yn addysgu yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg, a byddwn yn arolygu dau grŵp tiwtor fesul ysgol. Cafodd yr ysgolion eu recriwtio dros y ffôn (gan ddefnyddio recriwtiwr ysgolion arbenigol - gweler adran A4) ac, ar ôl cael eu recriwtio, cawsant lythyr drwy e-bost gan APADGOS yn egluro diben yr ymarfer peilot ac yn cadarnhau manylion eu cytundeb i gydweithredu (dyddiad, nifer yr holiaduron a oedd yn ofynnol, ac ati).

Yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg cwmpaswyd Blynnyddoedd 11 a 13 ac yn yr ysgol cyfrwng Saesneg arolygwyd Blynnyddoedd 10 a 12. Yn y modd hwn cawsom adborth gan y pedair blwyddyn targed a fersiynau Cymraeg a Saesneg y ddau holiadur.

Darparwyd canllawiau ysgrifenedig i'r athrawon ym mhob ysgol ar sut i ymdrin â'r ochr weinyddol o ran rhoi cefndir yr arolwg, ceisiadau am eglurhad, help ac yn y blaen.

Gwnaeth y dull arolygu ar gyfer yr ymarfer peilot gyfateb yn agos â'r un ar gyfer y prif arolwg yn yr ystyr bod y myfyrwyr yn cwblhau'r holiaduron ar eu pen eu hunain gymaint â phosibl ac yn selio eu hymateb mewn amlen cyn ei roi i'w hathro, a oedd yn gyfrifol am gasglu'r holl amlenni a'u dychwelyd i GfK NOP i'w prosesu.

Fel cymhelliant i gymryd rhan, cynigiwyd crynodeb ar ffurf siart o'r canlyniadau i'r ysgolion ar ôl prosesu'r data. Talodd GfK NOP hefyd £100 i gronfa ysgol pob ysgol beilot i ddiolch iddynt am yr amser yr oeddent wedi ei dreulio yn gweinyddu'r ymarfer peilot ac yn darparu adborth am y materion canlynol:

- Cyflwyno/egluro'r arolwg i fyfyrwyr
- Unrhyw gwestiynau a godwyd gan fyfyrwyr ynghylch yr arolwg

- Lefelau gwrthodiadau amlwg
- Unrhyw broblemau a wynebwyd gan fyfyrwyr wrth gwblhau'r holiadur, e.e. deall cwestiynau, cwblhau'r ffurflen ei hun, gofyn am eglurhad, ac ati
- Unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r arolwg/dychwelyd yr holiaduron
- Unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwella'r broses o gasglu data

Roedd ffurflenni'r arolwg eu hunain yn ddangosyddion o'r graddau yr oedd y myfyrwyr yn gallu ateb cwestiynau, h.y. os oedd problemau roedd y myfyrwyr yn ysgrifennu sylwadau/cywiriadau ar ffurflenni'r arolwg ac roedd y rhain yn cael eu hystyried cyn cwblhau'r holiaduron ar gyfer y prif gam.

Ar ôl ystyried yr adborth o'r ymarfer peilot, darparodd GfK NOP grynodedd i APADGOS o'r argymhellion ar gyfer newidiadau i'r holiadur; mân newidiadau oedd y rhain ar y cyfan yn ymwneud â chategoriâu pwnc, gwella eglurder cyfarwyddiadau a gwella fformat neu 'olwg' rhai o dudalennau'r ddogfen hunangwblhau. Ar ôl cymeradwyo'r newidiadau hyn, cafodd yr holiaduron eu diwygio a'u hargraffu ar gyfer y prif gam.

Gall copïau o fersiynau terfynol holiaduron Blynnyddoedd 10 ac 11 a Blynnyddoedd 12 a 13 eu lawrlwytho o dudalennau gwe APADGOS.

A3 Holiaduron Hawdd eu Darllen

Cytunwyd y byddai'r arolwg ar gael i fyfyrwyr mewn fformat hawdd ei ddarllen; roedd hyn yn cynnwys proses o symleiddio geiriad a graddfeydd yr holiadur. Cytunwyd y byddai holiadur Blynnyddoedd 10 ac 11 yn cael ei addasu yn y modd hwn gan y tybiwyd bod y cwestiynau yn holiadur Blynnyddoedd 12 a 13 yn rhy gymhleth ar gyfer myfyrwyr llai abl yn y grŵp oedran hwnnw (h.y. roedd gan fyfyrwyr ym Mlynnyddoedd 12/13 yr oedd angen holiadur hawdd ei ddarllen arnynt fersiwn wedi ei addasu o arolwg Blynnyddoedd 10 ac 11).

Cynhaliwyd yr ymarfer symlach gan wasanaeth ymgynghori partner, Adept o Swydd Bedford. Treialodd Adept hefyd yr holiaduron gyda'u grwpiau defnyddwyr cyfatebol o ran oedran gan roi cyngor ar unrhyw newidiadau cyn i ni fynd ati i gasglu data fel rhan o'r prif gam. Drwy wneud hyn, gwnaethom osgoi'r angen am gynnal treial ar wahân mewn ysgolion ar gyfer fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiaduron, a oedd yn arbed amser mewn amserlen dynn.

O ran pennu pa fyfyrwyr fyddai'n cael fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur, penderfyniad yr ysgol oedd hyn - gwnaethant ofyn am nifer o holiaduron hawdd eu darllen fesul grŵp blwyddyn a'u dosbarthu ar yr un pryd ac yn yr un ffordd â'r holiaduron safonol. Darparwyd nodiadau ychwanegol i athrawon er mwyn ateb ymholiadau a allai godi wrth ddosbarthu'r fersiynau wedi'u symleiddio o'r arolygon.

Gellir llwytho copiâu o fersiynau terfynol o'r holiaduron hawdd eu darllen i lawr o dudalennau gwefan APADGOS.

A4 Recriwtio a Chasglu Data

Anfonwyd llythyr gan APADGOS at bennaeth pob ysgol a samplwyd yn egluro diben yr arolwg ac yn rhoi amlinelliad bras o'r dasg (gweler adran A7). Roedd y llythyr hwn yn cynnwys rhif ffôn uniongyrchol ar gyfer rheolwr prosiect APADGOS, yn ogystal â ffurflen ymateb i'w dychwelyd dros y ffacs yn gofyn am enw'r athro y dylem gysylltu ag ef.

Ar ôl anfon y llythyrau i ysgolion, comisiynwyd recriwtiwr ysgolion arbenigol i ffonio'r ysgolion i'w hannog i gymryd rhan. O'r 40 o ysgolion a samplwyd ar gyfer pob arolwg, recriwtiwyd 20 ar gyfer arolwg Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a 22 ar gyfer arolwg Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13. Roedd y samplau ar gyfer dau arolwg o 8 ysgol yn gorgyffwrdd.

Wrth gysylltu â'r ysgol, esboniodd y recriwtiwr dasg yr arolwg a chadarnhaodd nifer y myfyrwyr a fyddai'n cymryd rhan yn yr arolwg, yn ogystal â'r niferoedd y byddai angen fersiynau hawdd eu darllen o'r holiadur/holiaduron arnynt. Cofnodwyd y wybodaeth hon a chytunwyd ar ddyddiad ar gyfer dosbarthu'r holiadur. Anfonwyd deunyddiau'r arolwg (holiaduron, amlenni, cyfarwyddiadau ac amlenni dychwelyd â stamp arnynt) i bob ysgol drwy wasanaeth negesydd erbyn y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer casglu data. Darparwyd y nodiadau canlynol i athrawon:

1. Dylid dosbarthu'r holiaduron i ddysgwyr mewn sesiwn ystafell ddosbarth addas rhwng 5^{ed} a 19^{eg} Mawrth. Dylid cwblhau'r holiaduron yn y sesiwn ystafell ddosbarth a'u rhoi i'r athro ar ddiwedd y sesiwn. Ni ddylid rhoi holiaduron i ddysgwyr eu cwblhau y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ystod eu hamser eu hunain.
2. Noder: caiff grwpiau blwyddyn 10/blwyddyn 11 holiadur gwahanol i grwpiau blwyddyn 12/blwyddyn 13. Gwnewch yn siŵr bod gennych y fersiwn cywir o'r holiadur ar gyfer pob grŵp blwyddyn.
3. Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy nag **20 munud** i'r myfyrwyr ei gwblhau. Fodd bynnag, gellir rhoi mwy o amser i fyfyrwyr gwblhau'r holiadur os bydd y sesiwn ystafell ddosbarth yn caniatáu hyn.
4. Darperir yr holiadur yn Gymraeg a Saesneg. Gall myfyrwyr gwblhau'r holiadur yn Gymraeg neu Saesneg.
5. Cyn dosbarthu'r arolwg i'ch grŵp tiwtor, darllenwch yn uchel y wybodaeth i fyfyrwyr a roddir yn yr adran nesaf o'r papur briffio hwn.
6. Rhowch holiadur ac amlen i bob myfyriwr (mae'r rhain wedi'u darparu yn eich pecyn). Yn ogystal â'r holiadur safonol mae fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur (os bydd eich ysgol wedi gofyn am un) sy'n cynnwys testun wedi'i symleiddio a lluniau fel bod yr arolwg yn haws i fyfyrwyr sydd ag ystod eang o anghenion cymorth dysgu. Rhowch y rhain i'r dysgwyr yn y grŵp tiwtor y mae angen y fersiwn hwn o'r holiadur arnynt yn eich barn chi. Eglurwch i'r

dysgwyr gan ddefnyddio'r holiaduron hyn bod y lluniau wedi eu cynnwys i ategu'r cwestiwn ac ateb opsiynau.

7. Unwaith y byddant wedi cwblhau'r arolwg, dylai'r myfyrwyr selio eu holiadur wedi'i gwblhau yn yr amlen a ddarparwyd cyn ei ddychwelyd.
8. Dylai'r myfyrwyr geisio ateb pob un o'r cwestiynau yn yr arolwg oni fydd y cyfarwyddiadau yn dweud wrthynt am hepgor cwestiwn. Fodd bynnag, os na allant ateb cwestiwn yna ni allant ei hepgor a symud ymlaen i'r un nesaf.
9. Os bydd myfyriwr yn gofyn am help, gallwch ei gynorthwyo drwy ddarllen y cwestiynau yn uchel, ond peidiwch â symleiddio na dehongli cwestiynau'r arolwg i fyfyrwyr. Yn lle hynny, gofynnwch i'r myfyrwyr ddehongli'r cwestiwn yn eu ffordd eu hunain. Os nad ydynt yn credu y gallant ateb cwestiwn, dylent symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.
10. Os bydd y myfyriwr yn gofyn am help gyda chwestiwn ffeithiol, a'ch bod yn gwybod yr ateb, yna mae'n dderbyniol i chi gynnig help yn y sefyllfa hon yn unig. Cwestiynau ffeithiol yw'r rhai canlynol:

Cyn dosbarthu'r holiaduron i fyfyrwyr, darllenwch y wybodaeth ganlynol am yr arolwg yn uchel.

'Diben yr arolwg hwn yw casglu gwybodaeth am eich dewisiadau a'ch profiadau wrth ddysgu a'ch boddhad â dysgu. Comisiynwyd y prosiect ymchwil gan y Cynulliad Cenedlaethol, a bydd tua 40 o ysgolion ledled Cymru yn cymryd rhan.

Darperir yr holiadur yn Gymraeg a Saesneg a gellir ei gwblhau yn y naill iaith neu'r llall. Mae'r fersiwn Cymraeg yn dechrau ar dudalen gefn yr holiadur ac mae'r fersiwn Saesneg yn dechrau ar dudalen flaen yr holiadur. Ni ddylai'r holiadur gymryd mwy nag 20 munud i'w gwblhau. Cwblhewch y manylion mewn inc du neu las. Pan fyddwch wedi llenwi'r holiadur, seliwch ef yn yr amlen a ddarparwyd a'i ddychwelyd ataf.*

Caiff yr holiaduron eu dychwelyd at asiantaeth ymchwil annibynnol i'w prosesu. Mae eich holl atebion yn gwbl gyfrinachol - ni chewch eich enwi yn y canlyniadau ac ni fydd yr ysgol yn gwybod sut rydych wedi ymateb yn unigol.'

Sicrwydd (darllenwch yn uchel os oes angen)

- *Mae'r arolwg yn wirfoddol*
- *Ni chaiff unrhyw fyfyrwr sy'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ei enwi a bydd yr holl wybodaeth a roddir yn gwbl gyfrinachol*
- *Caiff yr arolwg ei gynnal gan gwmni ymchwil annibynnol o'r enw GfK NOP. Mae GfK NOP yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.*

[* byddwch yn ymwybodol bod dau fersiwn gwahanol o'r holiadur hawdd ei ddarllen, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg. Felly nid yw'r datganiad hwn yn

berthnasol i'r rhai sy'n llenwi'r fersiwn hwn o'r holiadur.]

Ar ôl casglu'r holiaduron wedi eu cwblhau gan y myfyrwyr, fe'u dychwelwyd yn uniongyrchol i GfK NOP i'w sganio ac i brosesu'r data mewn deunydd pecynnu rhagdaledig.

A5 Ymateb

Anogwyd yr ymateb i'r arolwg gan ddatblygiad cydberthynas rhwng recriwtiwr yr ysgol a'r cyswllt a enwebwyd yn yr ysgol. Cysylltwyd â'r unigolyn hwn dros y ffôn i'w atgoffa o'r dyddiad olaf posibl ar gyfer derbyn holiaduron.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r ffurflenni yn ôl grŵp blwyddyn.

| Prawf adnabod ysgol | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | | | Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 | | |
|---------------------|--|-----------------------------------|----------|--|-----------------------------------|----------|
| | Nifer y disgyblion y disgwyliwyd iddynt gwblhau* | Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd | % ymateb | Nifer y disgyblion y disgwyliwyd iddynt gwblhau* | Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd | % ymateb |
| 1 | 150 | 149 | 99% | - | - | - |
| 2 | 120 | 85 | 71% | - | - | - |
| 3 | 135 | 116 | 86% | - | - | - |
| 4 | 147 | 54 | 37% | - | - | - |
| 5 | 24 | 3 | 13% | - | - | - |
| 6 | 168 | 122 | 73% | - | - | - |
| 7 | 180 | 186 | 103% | - | - | - |
| 8 | 150 | 115 | 77% | - | - | - |
| 9 | 150 | 91 | 61% | 135 | 63 | 47% |
| 10 | - | - | - | 125 | 83 | 66% |
| 11 | - | - | - | 150 | 79 | 53% |
| 12 | - | - | - | 150 | 117 | 78% |
| 13 | 160 | 125 | 78% | 70 | 54 | 77% |
| 14 | - | - | - | 120 | 89 | 74% |
| 15 | - | - | - | 160 | 76 | 48% |
| 16 | - | - | - | 160 | 69 | 43% |
| 18 | 7 | 8 | 114% | - | - | - |
| 19 | 50 | 5 | 10% | - | - | - |
| 20 | 159 | 116 | 73% | - | - | - |
| 21 | 171 | 114 | 67% | - | - | - |
| 22 | - | - | - | 200 | 97 | 49% |
| 23 | - | - | - | 54 | 28 | 52% |
| 24 | - | - | - | 152 | 48 | 32% |
| 25 | - | - | - | 158 | 142 | 90% |
| 26 | - | - | - | 149 | 75 | 50% |
| 27 | 150 | 117 | 78% | 140 | 54 | 39% |
| 28 | 195 | 160 | 82% | 123 | 84 | 68% |

| | | | | | | |
|----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
| 29 | 200 | 175 | 88% | 168 | 125 | 74% |
| 30 | 191 | 124 | 65% | 175 | 52 | 30% |
| 31 | 165 | 117 | 71% | 188 | 102 | 54% |
| 32 | 134 | 120 | 90% | 150 | 146 | 97% |
| 33 | - | - | - | 160 | 87 | 54% |
| 34 | - | - | - | 100 | 64 | 64% |
| 35 | - | - | - | 106 | 48 | 45% |

* roedd union nifer yr holiaduron a anfonwyd 10% yn fwy na nifer y disgyblion y disgwyliwyd iddynt gwblhau

16 Pwysoli a dadansoddi

